

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Gwrandawiadau

Cyhoeddus:

Caerdydd

Trawsgrifiad o'r Gwrandawriad Cyhoeddus

Caerdydd BORE

Allwedd

Cadeirydd:	Cadeirydd	AM:	Arun Midah
GD:	Geraint Davies	GC:	Greg Cook
SP:	Steven Phillips	PR:	Pete Rogers
RP:	Roger Pratt	AC:	Andrew Clemes
JL:	Joe Lock	T:	Tristan

[Trawsgrifiad yn dechrau am 00:00:00]


Cadeirydd: ...yn cael yr un ystyriaeth yn union â'r rhai hynny a wneir ar lafar yn unrhyw un o'r gwrandawriadau cyhoeddus, ac y caiff unrhyw un sy'n siarad mewn gwrandawriad wneud cynrychiolaethau ychwanegol yn ysgrifenedig os yw'n dymuno. Dylai cynrychiolaethau ysgrifenedig, lle y bo'n bosibl, gynnwys yr un wybodaeth sylfaenol ag y byddaf yn gofyn i bob siaradwr ei rhoi y bore 'ma, sef eich enw; eich tref neu ardal breswyl; a'ch cysylltiad os ydych yn siarad..., a hefyd, p'un a ydych yn siarad ar ran eich grŵp ac, os felly, pa grŵp. Mae'n rhaid i gynrychiolaethau gael eu derbyn yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ni fydd unrhyw gynrychiolaethau a dderbynnir ar ôl i'r cyfnod ddod i ben yn cael eu hystyried gan y Comisiynwyr Cynorthwyol wrth iddynt baratoi eu hadroddiad. Gellir gwneud cynrychiolaethau ar ein porth ymgynghori, yn ysgrifenedig neu drwy e-bost. Mae'r holl wybodaeth angenrheidiol ar gael ar ein gwefan.

Diben y gwrandawriad cyhoeddus hwn yw rhoi cyfle i bobl wneud cynrychiolaethau ynglŷn ag unrhyw un o'n cynigion cychwynnol sy'n ymwneud ag etholaethau seneddol yng Nghymru, gan gynnwys enwi... unrhyw etholaeth a chyflwyno unrhyw wrthgynigion. Cofiwch fod rhaid i unrhyw gynigion newydd, diwygiadau awgrymedig, neu newidiadau i'r cynllun cychwynnol gydymffurfio â'r un gofynion a osodir i'r, i ni fel Comisiwn fel yr amlinellir yn Neddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd. Rhoddir mwy o fanylion am y ddeddfwriaeth yn ein cynigion cychwynnol a'r canllaw i'r arolwg. Mae copïau ar gael wrth y ddesg y tu allan ac ar-lein.

Dyma'r gwrandawriad cyntaf o bump sy'n cael eu cynnal mewn rhannau amrywiol o Gymru yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn gydag oriau hyblyg a ddylai alluogi pawb sy'n dymuno gwneud cynrychiolaethau i wneud hynny. Bydd y trawsgrifiad o'r cynrychiolaethau a wneir yn y gwrandawriadau hyn, ynghyd â'r holl gynrychiolaethau a dderbynnir gan y Comisiwn yn ystod yr ail gyfnod, yn cael eu cyhoeddi maes o law ar wefan y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Byddwn, wrth gwrs, yn eu golygu fel y bo'r angen i sicrhau nad oes modd adnabod unigolion preifat. Os ydych yma heddiw ac nid ydych wedi neilltuo slot siarad er mwyn cyfrannu, cyflwynwch eich hun i un o'r swyddogion a byddwn yn neilltuo slot siarad i chi. Mae ein swyddogion yn gwisgo gorchuddion wyneb y Comisiwn Ffiniau i Gymru.

[00:02:07]

Felly, byddaf yn cynnal y gwrandawriad hwn mor anffurfiol ag a ganiateir gan yr amgylchiadau, ond mae rhai gofynion y bydd angen i ni i gyd gydymffurfio â nhw. Bydd yr holl siaradwyr yn dod i'r ddarllenfa i wneud cynrychiolaethau a byddwn yn sicrhau bod y ddarllenfa'n cael ei diheintio ar ôl pob siaradwr. Bydd rhaid i chi roi eich enw, eich ardal breswyl a'ch cysylltiad os oes gennych un; a sylwch y bydd yr holl gynrychiolaethau'n cael eu recordio at ddibenion trawsgrifio, felly siaradwch



yn glir ac yn araf fel y gellir deall a recordio'ch cyflwyniad yn dda. Nid wyf yn bwriadu caniatáu croesholi eich cyflwyniad, ond byddaf yn caniatáu gofyn cwestiynau i geisio egluro pwynt penodol, a hynny trwof i yn unig fel cadeirydd. Gofynnir i unrhyw holwr o'r fath roi'r un manylion personol â'r rhai sy'n gwneud cynrychiolaethau.

Lluniwyd trefn ar gyfer y siaradwyr a byddwn yn ceisio cadw ati, ond efallai y bydd angen i ni newid y drefn o bryd i'w gilydd. Er mwyn hwyluso'r gwrandawriad a'n tasg ar gyfer heddiw, cadwch at yr amser a neilltuwyd i chi neu bydd perygl y gallech gael eich atal hanner ffordd drwodd; rhowch wybod pa ardal neu ardaloedd y mae'ch cynrychiolaeth yn ymwneud â hi/â nhw; helpwch ni drwy ddweud wrthym pam yr ydych yn gwneud cynnig, nid dim ond beth yw'r cynnig. Ceisiwch beidio ag ailadrodd cyflwyniadau manwl pobl eraill. Os hoffech gefnogi cynnig neu gynrychiolaeth siaradwr blaenorol, dywedwch hynny, fel na fydd rhaid i ni fynd trwy'r un manylion eto. Sylwch na fyddwn yn derbyn unrhyw gynrychiolaethau sy'n ymwneud â gwrthwynebu'r rheolau sydd wedi'u gosod mewn statud yn hytrach na chynigion cychwynnol y Comisiwn. Nid diben y gwrandawriad hwn yw trafod y Ddeddf sydd wedi cael ei phasio gan y senedd a, sut bynnag, nid oes gennym bwerau i wneud unrhyw argymhellion, yn enwedig ynglŷn â niferoedd aelodau seneddol. Cewch annerch y gwrandawriad yn Gymraeg neu Saesneg fel y dymunwch, ond rhowch wybod pa iaith y byddwch yn ei defnyddio cyn gwneud eich cynrychiolaeth fel y gall y rhai sy'n dymuno defnyddio'r clustffonau wneud hynny o'r dechrau. Arhoswch yn y blaen ar ôl gwneud eich cynrychiolaeth fel y gellir gofyn unrhyw gwestiynau i gael eglurhad.


Nid oes unrhyw brofion larymau tân wedi'u cynllunio ar gyfer heddiw, felly os bydd y larwm yn canu, bydd yn digwydd go iawn a bydd angen i ni fynd i'r allanfeydd tân sydd wedi'u lleoli wrth y grisiau yn union y tu allan i'r ystafell hon. Y man ymgynnull yw maes parcio Prifysgol Caerdydd heibio i'r tro. Mae tai bach ar yr ochr dde o'r llawr hwn. Mae taflenni, mapiau a deunydd ategol arall ar gael i chi heddiw. Fel y crybwyllwyd yn gynharach, mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael o'r Saesneg..., mae'n ddrwg gen i, o'r Gymraeg i'r Saesneg os hoffech ei ddefnyddio.

Mae trafodion heddiw yn cael eu ffrydio'n fyw a'u recordio at ddibenion trawsgrifio. Peidiwch â defnyddio'ch dyfeisiau personol i dynnu lluniau o recordiadau o'r trafodion, a gofynnwn i chi hefyd wisgo'ch gorchuddion wyneb, lle y bo'n bosibl, ond tynnwch nhw ymaith pan fyddwch yn siarad. Os oes arnoch angen gorchuddion wyneb, mae rhai ar gael wrth y ddesg gofrestru, yn ogystal â hylif diheintio dwylo. Os ydych yn bwriadu anfon negeseuon Trydar, y byddwn yn eich annog i'w wneud, tagiwch ni fel @BCommWales. Ac, yn olaf, byddem yn ddiolchgar petaech yn newid gosodiadau eich ffonau symudol i ganu'n ddistaw er mwyn peidio â tharfu ar y trafodion. Heddiw, bydd y gwrandawriad yn eistedd o 8am tan 8pm. Byddwn yn cael egwyl ginio rhwng deuddeg ac un ac efallai byddwn yn cael egwyliau byr drwy gydol y dydd.

[00:05:12]

Defnyddiaf ychydig funudau olaf y sesiwn agoriadol i esbonio'r broses y mae'r Comisiwn wedi'i chynnal hyd yma, yn ogystal â chynigion y Comisiwn.

Wrth ddatblygu ein cynigion, mae'r Comisiwn wedi gweithio i ystyried y ffactorau statudol sydd wedi'u sefydlu mewn deddfwriaeth; fel ystyriaethau daearyddol arbennig, ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol, a ffiniau etholaethau



presennol. Fel y gwyddoch, mae Senedd y Deyrnas Unedig wedi penderfynu, trwy Ddeddf Seneddol, y bydd pob etholaeth yn y Deyrnas Unedig yn cynnwys dim mwy na 105% a dim llai na 95% o chwarter etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr. O ganlyniad, bydd nifer yr etholaethau yng Nghymru yn cael eu lleihau o 40 i 32 ac mae'n rhaid i bob etholaeth, heblaw am Ynys Môn, gynnwys rhwng 69,724 a 77,062 o etholwyr.

Mae Cymru gyfan wedi'i rhannu'n gymunedau. Y cymunedau a'u wardiau yw sylfeini wardiau etholiadol Cymru. Mae'r Comisiwn, yn ei dro, yn defnyddio'r wardiau etholiadol fel y prif sylfeini ar gyfer etholaethau seneddol. Rydym wedi ceisio osgoi rhannu wardiau etholiadol rhwng etholaethau gan eu bod yn unedau sydd wedi'u diffinio'n dda ac a ddeöllir yn dda sydd, yn gyffredinol, yn dangos yr ardaloedd sydd â chymuned o ddiddordeb yn fras.

Pan lansiodd y Comisiwn ei gynigion ym mis Medi, dyna oedd dechrau'r broses, nid y diwedd. Roedd cyhoeddi'r cynigion cychwynnol wedi cychwyn y cyfnod ymgynghori cyntaf a barodd o 8 Medi 2021 tan 3 Tachwedd '21. Cawsom 1,211 o gynrychiolaethau. Cyhoeddwyd y cynrychiolaethau hyn ar 17 Rhagfyr '21.

Rydym yn annog pobl i ystyried y cynigion manwl a'r cynrychiolaethau sydd wedi cael eu cyhoeddi, a rhoi gwybod eu barn i ni ac, yn bwysig, p'un a oes ganddynt wrthgynigion a fydd yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth. Mae'r gwrandawriad cyhoeddus hwn a'r gwrandawriadau cyhoeddus eraill rydym yn eu cynnal ledled Cymru yn allweddol i'r broses hon.

Fel y soniais yn gynharach, cawsom nifer fawr o gynrychiolaethau yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol. Roedd nifer fach o'r rhain yn gynrychiolaethau a oedd yn ymdrin â Chymru gyfan, ac roedd y rhain yn bennaf gan y pleidiau gwleidyddol a nifer fach o unigolion. Roedd mwyafrif y cynrychiolaethau a gafwyd yn canolbwyntio ar ardaloedd penodol. Dyma rai o'r uchafbwyntiau.


Roedd y cynrychiolaethau a gafwyd yn cefnogi etholaeth arfaethedig Caerfyrddin at ei gilydd. Fodd bynnag, roedd gwrthwynebiadau yn ymwneud â throsglwyddo cymuned Llangynor i etholaeth arfaethedig Llanelli. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn dadlau y dylai cymuned Llangynor gael ei chynnwys yn etholaeth Caerfyrddin.

Cafwyd nifer o gynrychiolaethau yn gwrthwynebu etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd, yn bennaf o ganlyniad i gynnwys Pont-y-clun o Rondda Cynon Taf. Dadleuodd yr ymatebwyr y dylai Pont-y-clun aros o fewn etholaeth Pontypridd Rhondda Cynon Taf.

Roedd nifer o gynrychiolaethau'n gwrthwynebu etholaethau arfaethedig Merthyr Tudful ac Aberdâr a Phontypridd o ganlyniad i rannu Cwm Cynon. Dadleuwyd y dylai hunaniaeth Cwm Cynon gael ei gwarchod, ac y dylai'r ardal gael ei chadw o fewn un etholaeth.

[00:08:06]

Roedd nifer o gynrychiolaethau'n gwrthwynebu etholaeth arfaethedig De Caerdydd a Phenarth o ganlyniad i gynnwys Dinas Powys o Fro Morgannwg, ac roeddent eisiau i Ddinas Powys aros yn etholaeth Bro Morgannwg.



Roedd gwrthwynebiadau i etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfuno rhannau o Abertawe â rhannau o Gastell-nedd Port Talbot.

Roedd nifer o gynrychiolaethau hefyd yn dadlau y dylai ardal Pontardawe Cwm Tawe Uchaf gael ei chynnwys yn etholaeth Abertawe, ac nid yn etholaeth arfaethedig Aberhonddu a Sir Faesyfed.

Roedd sawl cynrychiolaeth yn gwrthwynebu'r cynnig ar gyfer etholaeth arfaethedig Pen-y-bont ar Ogwr gan ei fod yn rhannu ardal awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr rhwng dwy etholaeth. Dadleuodd rhai na ddylai Porthcawl gael ei chyfuno ag Aberafan Port Talbot, ac roedd eraill yn gwrthwynebu rhannu'r ardaloedd y tu allan i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae nifer sylweddol o gynrychiolaethau'n gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer Aberconwy a Dwyfor Meirionnydd.

Roedd y cynrychiolaethau'n dadlau y dylai Bangor, y cynigiwyd ei chynnwys yn Aberconwy, gael ei chynnwys yn gyfan gwbl o fewn etholaeth Arfon.

Roedd y prif wrthwynebiadau i etholaeth arfaethedig Wrecsam yn ymwneud â chynnwys Brymbo a Mwynglawdd yn etholaeth gyfagos Alun a Glannau Dyfrdwy. Roedd yr ymatebwyr yn dadlau y dylai'r cymunedau hyn aros yn Wrecsam.

Roedd cefnogaeth i etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli, ond dywedodd rhai cynrychiolaethau y byddai'n well ganddynt etholaeth sydd wedi'i ffurfio'n gyfan gwbl o awdurdod lleol Sir Benfro.

Cafwyd gwrthwynebiad cryf i etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili gan ei bod yn cyfuno dwy ardal awdurdod lleol ar wahân. Dadleuodd yr ymatebwyr y byddai Dyffryn Sirhywi, sydd yn Islwyn ar hyn o bryd, yn gweddu'n well i Gasnewydd na Chaerffili mewn gwirionedd.

Gwrthwynebwyd Dwyrain Casnewydd gan nifer fach o gynrychiolaethau a ofynnodd i Caldicot aros yn Nwyrain Casnewydd, er bod cefnogaeth gyffredinol i etholaeth arfaethedig Sir Fynwy.


Roedd nifer fach o gynrychiolaethau'n gwrthwynebu cyfuno Blaenau Gwent a Rhymni i ffurfio un etholaeth o ganlyniad i faterion amddifadedd. Ni ddarparwyd dewis amgen yn lle hyn.

Roedd y prif wrthwynebiadau i etholaeth Delyn yn ymwneud â'i henw. Ffafiwyd defnyddio Dwyrain Clwyd yn lle hynny.

Roedd sawl cynrychiolaeth yn anghytuno ag etholaeth arfaethedig Clwyd. Roedd y dadleuon yn amrywiol, gan gynnwys sut y dylai Llandrillo-yn-Rhos gael ei chynnwys yng Nghlwyd yn lle Llandrillo a Chorwen, Rhuthun, Prestatyn a Dyserth.

[00:10:27]

Roedd y dadleuon ynglŷn ag etholaethau arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy a Delyn yn canolbwyntio'n bennaf ar gynnwys y Fflint a Bagillt o fewn Delyn, a theimlwyd y dylent fod yn etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy.



Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i Sir Drefaldwyn a Glyndŵr, ond roedd nifer fach yn gwrthwynebu'r enw.

Dyna'r cyfan gennyf i am heddiw. Diolch am roi o'ch amser i ni heddiw ac rwy'n sylweddoli ei bod yn ddechrau cynnar, yn enwedig i'r blaidd wleidyddol, felly.... Sut bynnag, roeddem eisiau sicrhau ein bod yn cael y cyfle... bod pawb yn cael y cyfle i fod yn bresennol heddiw ac, felly, byddwn ni yma o 8am tan 8pm heddiw, felly rwy'n gobeithio y gallwn wrando ar bawb. Byddaf yn gofyn i'm cydweithiwr ddod yma i ddiheintio hwn yn gyflym cyn i mi wahodd Geraint fel y siaradwr cyntaf ar ran Plaid Cymru.

Geraint, a wnewch chi ddod i'r blaen, os gwelwch yn dda? Diolch.

GD: Fe ddylai hynny fod yn iawn. A allwch chi i gyd fy nghlywed? A diolch yn fawr iawn, Shereen. Mae'n bleser bod yma. Rwy'n gweld nad oedd y gwyntoedd wedi atal y trenau rhag teithio i lawr y bore 'ma, felly roedd hynny'n fonws.


Fe ddechreuaf drwy beidio â chrybwyll y ffaith ein bod yn anghytuno â lleihau nifer yr ASau ar gyfer Cymru, gan nad dyna yw diben y pwyllgor hwn o gwbl, ond rydym eisiau iddo gael ei gofnodi'n ffurfiol ac rydym wedi ei nodi yn ein cyflwyniad a wnaethom y llynedd a hefyd yn Nhŷ'r Cyffredin. Wedi dweud hynny, rydym yn derbyn y terfynau y mae'n rhaid i'r Comisiwn weithio ynddynt a'r cylch gorchwyl sydd wedi'i osod iddo.

Felly, gan symud ymlaen at ein cynigion go iawn. Ni wnaethom aros i'ch cynigion cychwynnol gael eu cyhoeddi cyn i ni ddechrau edrych ar hyn. Felly, fe ddechreuom gyda map glân, fel y cyfryw, a cheisio llunio'r hyn a fyddai'n gweddu orau, yn ein barn ni. Yna, wedi hynny fe wnaethom..., roedd hynny yn yr haf... wel, yn gynnar yr haf diwethaf ac yna fe ddiwygiom ein cynigion yn dilyn eich cynigion cychwynnol. Felly, dyma... mae'r hyn sy'n cael ei ddangos yma, yn gymysgedd bron o'r gwahanol gamau yna yr aethom drwyddynt. Ac felly, bydd rhywfaint ohono'n edrych yn debyg iawn i'r hyn y mae'r Comisiwn Ffiniau wedi'i gynnig yn y cynigion cychwynnol, a rhywfaint yr ydym yn cytuno ag ef ac sy'n gwneud llawer o synnwyr, rhywfaint yr ydym wedi'i ddiwygio ychydig, a rhywfaint sy'n sylweddol wahanol, yn enwedig yn y gogledd.

Felly, o ran y de-ddwyrain, rwy'n mynd i neidio ymlaen yma i'r map ac fe allaf ddod yn ôl os bydd angen. Yr hyn a ganfuom pan oeddem yn gwneud hyn, ac yn enwedig pan edrychom arno ar ôl y cynigion cychwynnol gennyf chi, oedd bod mater sy'n effeithio ar y de-ddwyrain sy'n dod o Aberhonddu a Maesyfed. Nid yw Aberhonddu a Maesyfed... nid oes digon o bobl ynddi, nid yw'n ddigon mawr i fod yn etholaeth ar ei phen ei hun, felly mae'n rhaid iddi gymryd o rywle arall. Nawr, ymateb y Comisiwn Ffiniau fu cymryd Cwm Tawe o ardal Abertawe a'i hychwanegu at Aberhonddu a Maesyfed. Felly, mae hynny'n cymryd ardal y cymoedd a'i chyfuno ag ardal wledig iawn o Bowys.

[00:14:11]

Mae'r hyn a gynigiwn ni ychydig yn wahanol i hynny. Rydym ni'n cynnig y dylem... y dylai'r Comisiwn ystyried cymryd o Sir Fynwy a chyfuno hynny ag Aberhonddu a Sir Faesyfed, yn syml gan ein bod yn credu bod mwy o debygrwydd ar draws nifer o wahanol ardaloedd rhwng y Fenni ac Aberhonddu, nag â Chwm Tawe ac Aberhonddu. Mae hynny..., ac fe soniaf am y de-orllewin a'r ardal o amgylch



Abertawe yn ddiweddarach, ond mae hynny'n effeithio wedyn, wrth gwrs, ar y ddedwyrain a sut mae hynny'n ffitio.

Felly, rydym ni wedi awgrymu fan hyn bod etholaeth Sir Fynwy yn tyfu i gynnwys gweddill Cwibrân. Ar hyn o bryd, mae'n cynnwys nifer o wardiau yng Nghwibrân, ond mae gweddill Cwibrân yn cael ei gynnwys yn Sir Fynwy.

Mae etholaeth Dwyrain Casnewydd yn ymestyn ychydig ymhellach i'r dwyrain ac nid yw etholaeth Gorllewin Casnewydd yn mynd i fyny i gynnwys rhannau o Gaerffili. Rwy'n credu bod hynny'n amlwg, hynny yw, dyna oedd un o'r sylwadau cryfaf a gawsom fel adborth yn fewnol hefyd, sef y dylai Caerffili... hynny yw, nid yw'n gwneud synnwyr cyfuno â Chasnewydd.

Credwn ei bod yn fwy synhwyrol o lawer cymryd rhan isaf ardal Sir Caerffili, felly'r ardal o amgylch Risga ac yn y blaen, a chynnwys honno [sŵn cefndir]. Alla' i? Ie, popeth yn iawn. [sŵn cefndir] Ydy hynny'n iawn? Oes angen i mi ddechrau eto? Na? Na? Iawn. Sori.


Felly o ran Gorllewin Casnewydd felly, mae'n aros bron yn gyfan gwbl o fewn ffiniau Sir Casnewydd, heblaw am yr ychydig wardiau hynny sy'n edrych tuag at Gasnewydd sut bynnag. Mae hynny'n ein galluogi i gadw etholaeth Caerffili yn ardal y cymoedd, ac fe soniaf am hynny ar y sleid nesaf, ond credwn fod y newid hwnnw yng Nghasnewydd yn gweddu'n well na'r hyn y mae'r Comisiwn Ffiniau wedi'i gynnig.

Felly, ym Morgannwg ganol, ac mae hyn yn mynd ymlaen i gynnwys ardal Caerffili, cynigiwn gadw Caerffili fel etholaeth ar ei phen ei hun y tu mewn i ardal y cymoedd. Felly, yn lle ymestyn i lawr i gyfuno â Chasnewydd. I wneud hynny, mae'n ymestyn ychydig ymhellach i'r gogledd i gynnwys ardaloedd yn ardal Cyngor Merthyr, yn benodol fan hyn yn yr ardal a adwaenir fel Fiddler's Elbow, ond o amgylch Treharris a'r ardal ymhellach i'r gogledd o Dreharris.

O ran Merthyr ac Aberdâr, ni fu'n etholaeth ers cryn amser, wrth gwrs, ond mae rhai cyfeiriadau hanesyddol yn berthnasol. Mae hefyd yn rhannu nifer o wasanaethau lleol, yr ysbyty ac yn y blaen. Fe newidiom y wardiau ychydig, yn syml gan ein bod wedi newid..., cyfnewid ambell un oherwydd rydym wedi ymestyn Caerffili i ran waelod Merthyr. Ond fel egwyddor gyffredinol, credwn fod hyn yn iawn, yn ôl pob tebyg, ac mae'n anodd meddwl am ffordd arall o ddatrys y mater. Ac rwy'n cofio'r arolwg diwethaf a adawyd, a oedd ar un adeg wedi cymryd rhan o'r Rhondda a'i rhoi gydag Aberdâr, a oedd yn gweddu'n waeth fyth. Mae hyn yn well o lawer na hynny. Felly, rydym ni'n amlwg yn ffafrio hyn gyda'n mân newidiadau, ond mae'r syniad cyffredinol o roi Merthyr gydag Aberdâr yn gwneud llawer o synnwyr.

[00:17:48]

Pontypridd. Yn yr un modd, nid ydym yn cytuno â rhoi Pont-y-clun gyda Chaerdydd, ond fe welwn fod dadl dros roi rhannau o Gaerdydd gyda Phontypridd, ac mae hyn yn ymestyn i lawr i Greigir a Phentyrch yn yr ystyr bod y wardiau hynny'n rhan o hen Gyngor Bwrdeistref Taf Elái a arferai fodoli. Maen nhw'n edrych tuag at y ddydd ffordd, i bob pwrpas, yn draddodiadol, ac nid yw'r ardaloedd hynny'n rhan o Gaerdydd yn unig fel y byddech yn tybio, lle'r ydym ni nawr. Felly, credwn fod



rhywfaint o le i edrych y ffordd honno, ond o ran Pont-y-clun, nid wyf yn credu y gellid dweud ei bod yn rhan o Gaerdydd, ym meddwl pobl.


O ran y Rhondda, mae'n gwneud llawer o synnwyr i'r Rhondda ymestyn i lawr Dyffryn Elái ac rydym wedi..., newid bach ydyw i'r hyn y mae'r Comisiwn Ffiniau'n ei gynnig, ond mae'n dilyn yr un llinellau yn dod i lawr, ac fe gytunwn â hynny.

O ran ardal Pen-y-bont ar Ogwr, ymddangosai'n rhyfedd i ni gymryd dwy ward o dref Pen-y-bont ar Ogwr a'u hychwanegu at ardal Bro Morgannwg. Felly, dewis amgen fan hyn yw mynd ar draws yr arfordir a chynnwys ardal Porthcawl, felly yn lle rhannu un ardal drefol, rydych yn cynnwys ardal drefol gwbl ar wahân. Mae hynny'n gweithio – a dyma ble y dychwelaf i fyny tuag at Gaerdydd, mae hynny'n gweithio os byddwch yn cynnwys y Barri gyda Phenarth a'r..., yn creu etholaeth sydd..., wedi'i seilio ar draws Afon Hafren fan 'na, yn cynnwys porthladdoedd Caerdydd a'r Barri, gan fod Caerdydd ar ei phen ei hun yn cael trafferth gwneud etholaeth ychwanegol arall, wrth gwrs.

Ymlaen i Orllewin Morgannwg. Dyna ni. Iawn. Gorllewin Morgannwg a Chwm Tawe yw'r [dim sain 0:20:00 – 0:20:15] brif eitem yr hoffwn dynnu eich sylw ati yma. Mae'n ymddangos yn rhyfedd iawn rhoi Cwm Tawe gydag Aberhonddu a Maesyfed o ran hunaniaeth, o ran cefndir economaidd-gymdeithasol a phellter teithio o ystyried y cyfeiriad y mae'n edrych tuag ato. Mae'n ymddangos yn ychwanegiad rhyfedd ati. Nid yw'n dref farchnad wledig, nid yw'n..., nid yw'n ardal draddodiadol y Cymoedd. Felly, mae'n ymddangos yn ychwanegiad rhyfedd at Aberhonddu a Maesyfed. Nid yw'n teimlo'n hollol iawn, ac rwy'n credu dyna pam rydych wedi cael cynrychiolaethau gan y cyhoedd ynglŷn â hyn hefyd. Yr hyn a gynigiwn yma yw sedd Lliw a Thawe, yn seiliedig ar Gyngor Bwrdeistref Lliw, sy'n rychwantu'r ardal o ogledd Gorllewin Abertawe ac yn ymestyn i'r dwyrain i fyny tuag at frig Cwmnedd. Felly, yr hen..., hynny yw, mae ychydig yn fwy na'r hen Gyngor Bwrdeistref Lliw, ond mae wedi'i seilio ar yr ardal ddaearyddol honno, fwy neu lai. Roedd y cyngor hwnnw'n un o'r rhai a ddiddymwyd ym 1996, wrth gwrs, felly nid yw'n rhy bell yn y gorffennol.

O ran ardal Abertawe, mae hyn yn ein galluogi i gael etholaethau Dwyrain Abertawe a Gorllewin Abertawe. Credaf fod hynny... mae Abertawe'n ardal benodol iawn o ran ei hunaniaeth, mae'n gwneud synnwyr cadw dwy etholaeth o fewn ardal cyngor Abertawe. Rwy'n rhoi Castell-nedd a Phort Talbot gyda'i gilydd. Rydym... mae wedi'i lleoli yn yr ardal a rychwantir gan yr un awdurdod lleol, mae ganddi hunaniaeth bresennol a chredwn fod hynny'n gweddu'n well, o gymharu, pan fyddwch yn gwneud y newidiadau ar gyfer Cwm Tawe.

Yr un nesaf. Felly... Ceredigion a Phreseli. Mae gennym awgrym bach ynglŷn â Cheredigion a Phreseli, sy'n ymwneud yn syml â'r ardal o amgylch Tyddewi a ward Maenclochog. Mae Maenclochog yn rhan o Fryniau'r Preseli ac mae'n edrych i'r gogledd tuag at weddill Preseli yn hytrach nag i'r de tuag at weddill Sir Benfro. Mae'n cynnwys mwy o siaradwyr Cymraeg, mae'n debycach o lawer i weddill Preseli a de Ceredigion nag ydyw i dde Sir Benfro. Mae'r gwrthwyneb yn wir am Dyddewi yn yr ystyr ei bod yn tueddu i fod yn debycach yn ieithyddol ac yn ddiwylliannol i weddill de Sir Benfro, ac mae cysylltiadau trafniadaeth yn dda o Dyddewi naill ai i'r gogledd neu i'r de. Mae hyn yn teimlo fel petai'n gweddu'n well, mae'n gyfnewidiad syml, i bob pwrpas, ar gyfer yr ardal hon.



[00:23:27]

O ran Sir Gaerfyrddin, rydym wedi cynnig Caerfyrddin a Dinefwr fel enw. Awgrymw'n fod sedd Llanelli yn gweddu'n well yn mynd i fyny tua'r gorllewin i'r ffin â Sir Benfro ac yna creu sedd Caerfyrddin Dinefwr i'r gogledd o sedd Llanelli. Felly, yn hytrach na bod Llanelli'n mynd..., yn ymestyn i fyny ymhellach i'r gogledd, mae'n ymestyn ymhellach i'r gorllewin. Mae cysylltiadau trafndiaeth da, ac mae'n ymddangos i ni fel petai'n gwneud mwy o synnwyr, mae'r rhifau'n gweithio ac yn y blaen.


Iawn, felly, Aberhonddu a Maesyfed. Felly, mae Aberhonddu a Maesyfed yn allweddol i gymaint o'r hyn sy'n digwydd i'r de ohoni, ac roedd hynny'n amlwg o gynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau a phan edrychom ni arni hefyd. Mae maint yr ardal a nifer y bobl sy'n byw yno'n golygu bod rhaid iddi naill ai fynd i..., mae'n rhaid iddi ymestyn i rywle. Mae'n anodd ymestyn i'r gorllewin oherwydd bod Mynyddoedd Cambria yn y ffordd a bydd mynd ymhellach i'r gogledd yn cael effaith sylweddol ar y seddau yn Wrecsam, ac ôl-ffaith ar Faldwyn a Wrecsam ac yn y blaen. Felly, mae'n gwneud mwy o synnwyr i ddod o rywle o'r de. Fodd bynnag, nid ydym yn credu mai ychwanegu Cwm Tawe at Aberhonddu a Maesyfed yw'r ffordd orau ymlaen yn ddiwylliannol ac yn economaidd. Credaf fod trefi'r Fenni ac Aberhonddu yn debycach o lawer na Chwm Tawe ac Aberhonddu. Mae gan y Fenni ac Aberhonddu gefndiroedd economaidd tebyg iawn, maen nhw'n debyg yn ieithyddol, maen nhw'n debyg yn ddiwylliannol. Mae'n gwneud llawer mwy o synnwyr yn hynny o beth. Credaf mai dyna'r rheswm pam y cawsoch gynifer o gynrychiolaethau o ardal Cwm Tawe ynglŷn â hyn gan nad yw'n teimlo'n naturiol i'r bobl hynny gael eu hychwanegu at etholaeth wledig, amaethyddol yn bennaf.

Sir Drefaldwyn, Maldwyn, Maldwyn a Glyndŵr. O ran yr enw, unwaith eto, credwn fod cadw'r enw Maldwyn yn bwysig. Sir Drefaldwyn yw un o'r etholaethau hynaf yn Nhŷ'r Cyffredin, os nad yr hynaf erbyn hyn, 1542. Mae'n ymddangos os gallwn barhau i ddefnyddio'r enw, bod hynny'n ffactor pwysig i bobl yn yr ardal. Mae'n rhaid i mi ddatgan bod fy ngwraig yn dod o Sir Drefaldwyn, felly mae'n bwysig nid dim ond am y rheswm hwnnw. (mae'n chwerthin)

Ond un ardal rydym wedi'i newid yw Dyffryn Dyfi, sef yr ardal o Fachynlleth i Lantwymyn, sy'n ffitio i'r ochr arall o'r cefndeuiddwr a'r mynyddoedd fan 'na. Ac mae'n tueddu i fod yn debycach i ardal de Meirionnydd o ran cefndir ac economeg a theithio nag ydyw i weddill Maldwyn. Felly, nid ydym wedi awgrymu, rydym yn awgrymu cymryd y rheiny, fel Dyffryn Dyfi, y tair ward hynny a'u hychwanegu at etholaeth arall, y soniaf amdani mewn eiliad.

[00:27:06]

Iawn, rwy'n hedfan trwy hyn. Y gogledd-orllewin. Dyma'r unig ardal, yn amlwg o edrych ar y map ar ei ben ei hun, lle y gallwch weld ein bod wedi llunio ein cynigion gyda map gwag, cyn i ni weld y cynigion cychwynnol gan y Comisiwn Ffiniau. Edrychom ar hyn a dweud, wel, chi'n gwybod, mae'n ardal ddaearyddol fawr. Beth yw'r ffordd orau o ffitio'r ffactorau economaidd a'r ffactorau cymdeithasol yn yr ardal hon? Mae'n ardal sydd wedi'i lleoli ym Meirionnydd a Dyffryn Conwy a Bryniau Clwyd. Mae'n amaethyddol iawn ei chefnidir, ac yn eithaf tenau ei phoblogaeth. Wrth i chi symud tuag at y Fenai yr holl ffordd o Gonwy i lawr i



Aberdaron, mae ei heconomi'n newid ychydig. Mae amaethyddiaeth yn ffactor pwysig iawn o hyd, ond mae twristiaeth yn dechrau cael effaith fwy. Er gwaethaf y ffordd y mae'n edrych ar y map, mae'r daith i, mae'r pellteroedd teithio o'r pwynt pellaf yn ein hetholaeth Meirionnydd Nant Conwy a Dinbych arfaethedig yn llai nag yn etholaeth Meirionnydd Dwyfor arfaethedig y Comisiwn Ffiniau. Roedd y pellteroedd teithio o Aberdaron ac i Aberdyfi ychydig yn llai na, wel, dwy awr, ac mae'n cymryd awr a 37 munud i deithio o Aberdyfi i Ddinbych. Felly, nid yw ei chysylltiadau trafndiaeth mor wael â'r cysylltiadau trafndiaeth ar gyfer etholaeth arfaethedig Meirionnydd Dwyfor.


Mae'r ail..., yn wir, yr etholaeth, etholaeth Menai, rydym yn ei chynnig yno wedi'i seilio'n bennaf ar ddwy gyn etholaeth San Steffan, sef Caernarfon a Chonwy. Roedd hen sedd Caernarfon, wrth gwrs, yn ymestyn o Gaernarfon i Benllŷn, a sedd Conwy oedd Bangor a Llandudno. Felly, yr hyn rydym wedi'i wneud yma yw cymryd mwyafrif, wel holl sedd Caernarfon yn ogystal â mwyafrif llain arfordirol sedd Conwy – hen sedd Conwy – a'u cyfuno i ffurfio etholaeth arfaethedig Menai.

O ran etholaeth Meirionnydd Nant Conwy a Dinbych, mae nifer o drefi marchnad bach gwledig wedi'u gwasgaru o amgylch yr ardal o Ruthun i Ddinbych, y Bala, Dolgellau. Mae'r rhain yn debyg iawn o ran eu cefndir economaidd ac mae materion tebyg yn wynebu pob un o'r trefi hyn.

Gan symud i arfordir y gogledd. Unwaith eto, mae hyn yn cyfeirio'n ôl at ein man cychwyn yn yr haf, neu'n gynnar yr haf diwethaf, a gwnaethom herio pam mae etholaethau'n mynd o'r gogledd i'r de ar hyd Gogledd Cymru. Mae dadl ddaearyddol yn yr ystyr bod y gwahanol ddyffrynnoedd yn mynd i lawr, ond yn economaidd, o safbwynt trafndiaeth, nid oes llawer o gefnogaeth na rhesymeg wrth wraidd hynny. Mae mwy o debygrwydd rhwng trefi arfordirol Gogledd Cymru na rhwng eu cefnwledydd gwledig. Ac mewn gwirionedd, trwy roi..., trwy rannu Gogledd Cymru wledig a'i lleoli gyda'r ardaloedd trefol poblog iawn o amgylch yr arfordir, rydych yn difreinio llawer o Gogledd Cymru wledig i bob pwrpas, ac mae'r materion sy'n wynebu'r etholaethau hynny, neu'r ardaloedd hynny, yn sylweddol wahanol. Felly, trwy roi'r etholaethau sy'n ymestyn o'r dwyrain i'r gorllewin at ei gilydd, yn lle o'r gogledd i'r de, ceir dynamig wahanol yn yr etholaethau hynny, sy'n golygu y bydd yr Aelod Seneddol yn y dyfodol yn gallu mynd i'r afael â materion yn fwy uniongyrchol o lawer a chanolbwyntio'n fwy ar faterion penodol sy'n effeithio ar yr ardaloedd hynny yn lle ceisio ymdrin â phopeth o Ddyffryn Conwy wledig i Landudno a'r Rhyl, Prestatyn ac yn y blaen, a symud i fyny i'r..., ardaloedd o amgylch Llanfair Dyffryn Clwyd. Felly, mae'n ymgwedd wahanol, eithaf dramatig, i ymagwedd y Comisiwn Ffiniau, a dyna pam rydym wedi'i chynnig.

Sylwaf hefyd fod nifer, ac rwy'n credu bod Shereen wedi cyfeirio at hyn o'r blaen, maddeuwch i mi os wyf yn anghywir ond sylwais arno yn rhai o'r cyflwyniadau – roedd dadl yn erbyn rhannu'r Rhyl a Phrestatyn hefyd. Ac mae hyn yn cadw'r Rhyl a Phrestatyn gyda'i gilydd. Ac mae'n cadw Bae Colwyn gyda Llandudno, ac yn gwneud llawer mwy o synnwyr o ran y bobl sy'n byw yno. Mae cysylltiadau trafndiaeth yn dda ar draws yr ardal hon, yn amlwg, gan fod yr A55 yn rhedeg trwyddi, ond mae'r hen A5 yn mynd trwy'r etholaeth fwy rydym yn ei chynnig i'r de hefyd. Felly, unwaith eto, mae'r cysylltiadau trafndiaeth yn eithaf da yno.

[00:32:05]



Y gogledd-ddwyrain. Mae'n debyg i gynigion y Comisiwn Ffiniau i raddau. Y cyfan sy'n wahanol..., mae gennym rai gwahaniaethau bach o ran y wardiau, ond credwn, ar ôl darllen rhai o'r cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd, ei bod yn mynd i'r afael â nifer o'r materion hynny a godwyd ac yn caniatáu i'r etholaeth... i Wrecsam aros gyda'i chefnwlad, fel y cyfryw, i raddau mwy o lawer.

Sut wyf arni o ran amser?

Cadeirydd: Mae gennych ddigon o amser.

GD: Ie? Iawn. A dyna ddiwedd y cyflwyniad. Oes unrhyw beth yn benodol yr hoffech i mi fynd yn ôl drosto heblaw am [anghlywadwy - 0:33:40].

Cadeirydd: Nigel? Steve? Unrhyw beth yn benodol?

SP: Oes, sori, un pwynt. O ran Ceredigion Preseli, a allech chi fy atgoffa pa wardiau rydych eisiau eu trosglwyddo'r ddwy ffordd rhwng etholaeth [anghlywadwy - 0:33:57] ac [anghlywadwy - 0:33:59]?

Cadeirydd: A allwch chi ddangos y cyflwyniad eto? Diolch.

GD: Mae o gwmpas ardal Tyddewi, Solfach a Maenclochog. Felly, mae'n dod â Maenclochog i mewn ac yn cymryd...

SP: Ac ni allai gynnwys Treletert?

GD: Na.

SP: Iawn.

GD: Byddai'n rhaid i mi wirio. Mae'r wybodaeth gen i yma. Un eiliad. Dim ond mynd trwyddi. Dyna ni. Iawn. Felly, beth rydym wedi'i gynnig yno..., na, na, nid Treletert, na.


SP: Popeth yn iawn.

GD: Petaech chi'n edrych ar y map.

Gwryw anhysbys: O ran eich ffordd o feddwl am arfordir y gogledd, sef eich bod yn meddwl amdano yn nhermau prism o'r gorllewin i'r dwyrain yn hytrach nag o'r gogledd i'r de. Mae hynny'n eithaf diddorol, felly. A allwch chi esbonio hynny eto, ond gan ddangos manylion [anghlywadwy - 0:35:05]. Diolch.

[00:35:06]

GD: Ar bob cyfrif. Mae'n hawdd iawn cael eich arwain, yn ddiarwybod hyd yn oed, gan yr hyn y mae rhywun arall wedi'i gynnig. Felly, pan edrychom ar hyn, fe edrychom arno cyn gweld cynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau. Ac yna fe wnaethom ailasesu a dweud, wel, ydyn ni'n credu o hyd, ydyn ni'n credu bod eich cynigion chi'n well na'r hyn rydyn ni wedi'i awgrymu yma? Ond credwn ei bod yn werth



meddwl am hyn. Arfordir y gogledd, dyna ni, ie. [Gwryw anhysbys: I gael syniad] Ie, wrth gwrs. Felly, mae'n ymestyn..., pa un ydyn ni'n edrych arni yma? Llandudno a Cholwyn. Felly, mae Llandudno, yn hytrach nag edrych i fyny tuag at Ddyffryn Conwy, yn edrych i'r dwyrain tuag at Fae Colwyn ac yn y blaen, Rhuddlan, Llanelwy. Etholaeth Delyn ac..., o ran enwi, enwi'r etholaethau hyn, sylwais ar y sylwadau ynglŷn â Delyn o gymharu â Dwyrain Clwyd. Mae rhywfaint o hanes yn perthyn i Ddelyn. Mae'n ymddangos fel petai'n gwneud synnwyr, mae'n gweithio'n ddwyieithog, mae hynny wastad yn fantais. Nid oedd gennym gynrychiolaeth gref y naill ffordd neu'r llall, ond byddai'n ymddangos fel petai'n gwneud synnwyr i ni i ddefnyddio, i barhau i ddefnyddio'r enw. Delyn, ond mae hyn yn mynd â'r Wyddgrug i etholaeth Delyn, yn wahanol i gynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau sy'n ei rhoi gyda, ni allaf gofio pa un nawr, ond ymhellach, ymhellach, i'r etholaeth nesaf ymlaen.

Cadeirydd: A oes unrhyw gwestiynau eglurhad gan y...? Roger, a hoffech chi...?

RP: Ie, dim ond dau bwynt a wnaed, er mwyn bod yn hollol glir, etholaeth Treletert, Solfach a Thyddewi a symudwyd. Felly, mae Treletert yn cael ei chynnwys yng nghanol..., yng nghanol a de Sir Benfro yn hytrach na..., yng nghanol a de Sir Benfro yn hytrach na Cheredigion Preseli. Felly, mae Treletert yn symud yn rhan o'ch cynnig, ond roeddwn i eisiau...

GD: Ie. Iawn. Diolch, Roger.

RP: O, mae'n ddrwg gen i. Roger Pratt, Ceidwadwyr Cymru, sy'n siarad. Ac o ran yr Wyddgrug, onid ydw i'n iawn i ddweud bod yr Wyddgrug, o dan gynigion y Comisiwn Ffiniau, yn Nelyn?

GD: Os felly, ymddiheuraf. Roeddwn i'n gwneud hynny oddi ar fy nghof, felly...

RP: Rwy'n eithaf siŵr fy mod i'n iawn.


Cadeirydd: Fe gadarnhaf hynny.

RP: Ond fy nghwestiwn eglurhad yw bod llyfryn cynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau yn dweud, o dan y cynigion, y byddai chwe phrif gyngor yn cael eu cynnwys yn gyfan gwbl o fewn etholaethau newydd. Tybed a allwch chi ddweud wrthym faint o brif gynghorau a fyddai'n cael eu cynnwys yn gyfan gwbl o fewn etholaethau newydd o dan ddewis amgen Plaid Cymru-

Cadeirydd: At ddibenion – sori, Geraint – at ddibenion ffrydio'n fyw a'r rhai sy'n gwyllo gartref, rydym wedi cael cwestiwn eglurhad ynglŷn â faint, sori, faint o brif gynghorau sy'n cael eu cynnwys yn gyfan gwbl o fewn etholaethau o dan gynigion Plaid Cymru. Geraint, ga'i ofyn i chi ateb?

GD: Byddai'n rhaid i mi ddod yn ôl atoch ar hynny, mae arna'i ofn. Ni allaf ateb yn fyrfyr, Roger.

RP: Rwy'n golygu, maen nhw'n enwi'r chwech fel Blaenau Gwent, Ceredigion ac Ynys Môn sydd, wrth gwrs, ym Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Thorfaen. A wyf yn iawn i



ddweud eich bod yn rhannu Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Thorfaen, felly'r ateb yw dau?

[00:38:36]

GD: Byddai'n rhaid i mi ddod yn ôl atoch, Roger. Mae'n ddrwg gen i, ond heb chwilio am y wybodaeth, nid wyf yn gwybod.

Cadeirydd: Iawn. Diolch. A oes rhagor o gwestiynau eglurhad? Na. Diolch, Geraint, mae gennym ni, byddwn yn arbed, rydych wedi anfon copi o'ch cyflwyniad atom trwy e-bost, felly fe wnawn yn siŵr ein bod yn ei lanlwytho gyda'r sleidiau ar y diwedd.

GD: Ydw. Iawn, diolch.

Cadeirydd: Diolch. [saib] A wnaethoch chi yfed eich diod? Ydych chi eisiau yfed eich diod? [chwerthin] Nid ein bod ni'n frwd am ailgylchu ond, chi'n gwybod, os nad ydych wedi cyffwrdd â hi fe allwn... [saib]


Ein siaradwr nesaf fydd Joe Lock o Lafur Cymru sy'n hapus i gyflwyno cyn ei amser. Felly, mae gennych 45 munud, yn y bôn. Mae fy nghydweithiwr, Tom Jenkins, ymddiheuriadau Geraint, roeddech chi'n berffaith o fewn eich amser, felly nid oedd rhaid i Tom godi ei gerdyn coch yn y cefn. Ar yr adeg pum munud, os oes gennych bum munud ar ôl, bydd Tom yn codi arwydd bach yno er mwyn....

JL: Fe geisiaf wneud cystal â Geraint. Bore da, fy enw i yw Joe Lock. Fi yw Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol Llafur Cymru, ac mae'r cyflwyniad hwn yn cael ei wneud ar ran Llafur Cymru a Phwyllgor Gweithredol Cenedlaethol y Blaid Lafur. Ymateb cyffredinol ydyw i gynigion cychwynol y Comisiwn Ffiniau i Gymru seneddol, sy'n dilyn proses ymgynghori o fewn y Blaid Lafur a oedd yn cynnwys yr holl Aelodau Seneddol, aelodau'r Senedd a chynrychiolwyr cyhoeddus etholedig eraill a phleidiau llafur etholaethol.

Rwyf yn fodlon, i ryw raddau, ateb unrhyw gwestiynau ar ddiwedd y cyflwyniad hwn. Fodd bynnag, byddwn yn dweud nad wyf yn gymwys i wneud sylwadau ar fanylion materion cysylltiadau lleol ym mhob rhan o Gymru. Rwyf yn digwydd byw yng Nogledd Cymru fy hun [anghlywadwy - 0:41:06], felly nid wyf yn gyfarwydd â phopeth. Ond bydd y cyflwyniad hwn yn cyfeirio, felly, yn gyffredinol at ryngweithiad y rheolau a rhinweddau gwahanol gynigion, fel y'u gwelir gan y Blaid Lafur, yn hytrach na chynnig tystiolaeth o ansawdd benodol mewn perthynas â'r cysylltiadau hynny. Yn hytrach, byddem yn dibynnu ar wybodaeth ein cynrychiolwyr cyhoeddus, y mae rhai ohonynt yn gwneud cynrychiolaethau y prynhawn 'ma, ac eraill mewn ardaloedd yr effeithir arnynt, a fydd yn mynychu'r gwrandawriadau hyn ac yn gwneud cynrychiolaethau ysgrifenedig.

[00:41:45]

Ie, dyna ni. Nodwn mai dyma'r arolwg cyntaf i'w gynnal o dan delerau Deddf Etholaethau Seneddol 2020, sy'n gosod terfyn o 650 ar faint Tŷ'r Cyffredin ac yn creu etholaeth warchoddedig ychwanegol, sef Ynys Môn, lle'r wyf yn byw. Ond nid yw'r meini prawf y caiff y Comisiwn eu hystyried wrth ddewis rhwng gwahanol gynlluniau wedi newid, sef amgylchiadau daearyddol arbennig, gan gynnwys




maint, siâp a hygyrchedd yr etholaeth; ffiniau llywodraeth leol; ffiniau etholaethau presennol; unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i'r etholaethau; ac unrhyw anghyfleustra sy'n dilyn y newidiadau hynny. Mae ein sylwadau manwl ar y rheolau hyn, fel yr effeithiant ar Gymru, wedi'u cynnwys yn ein cynrychiolaeth ysgrifenedig o'r cyfnod ymgynghori cychwynnol, ac mae gennym gopiâu gyda ni heddiw os hoffai unrhyw un ddarllen trwyddynt. Mae'n amlwg efallai na fydd y Comisiwn yn gallu bodloni'r holl feini prawf hyn yn llwyr neu, yn wir, mewn rhai manau, unrhyw un ohonynt ym mhob rhan o Gymru, ar yr un pryd â chadw nifer yr etholwyr o fewn yr amrediad a ganiateir. Derbyniwn fod etholaethau presennol yn debygol o gael eu dinistrio'n sylweddol mewn rhai ardaloedd, y gallai fod yn anodd parchu ffiniau awdurdod lleol, ac efallai bydd cysylltiadau lleol yn cael eu torri. Lle mae'r Blaid Lafur yn cyflwyno cynigion amgen i rai'r Comisiwn, gwnawn hynny ar y sail y credwn eu bod, at ei gilydd, yn fwy cyson â'r meini prawf statudol hynny.

Mae'r Blaid Lafur yn croesawu cynnig cychwynnol y Comisiwn, a'r ffordd glir a chynhwysfawr y maent wedi amlinellu'r cynigion hynny. Er ein bod yn anghytuno â rhai ohonynt ac, mewn rhai achosion, yn gwneud cynigion amgen y credwn eu bod yn cyd-fynd yn well â'r meini prawf statudol, derbyniwn fod y Comisiwn wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r gwahanol opsiynau ac esbonio'r penderfyniadau maen nhw wedi'u gwneud. Bydd y Blaid Lafur yn ymgysylltu'n adeiladol â'r broses, wrth gyflwyno ein cynigion amgenach ein hunain ac wrth wneud sylwadau ar gynigion pobl eraill. Croesawn y cyfle i gyflwyno ein sylwadau yn y gwrandawriad hwn ac edrychwn ymlaen at glywed safbwyntiau cyfranogwyr eraill. Byddwn yn gwneud cynrychiolaeth ysgrifenedig fanwl ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori hwn.

Nodwn bolisi'r Comisiwn o ddefnyddio wardiau etholiadol fel yr uned leiaf a ddefnyddir i adeiladu etholaethau a pheidio â rhannu wardiau cyngor cymuned. Mae'r Blaid Lafur yn cefnogi'r Comisiwn yn hyn o beth ac nid yw'n credu y bydd gwyrdd oddi wrth y polisi hwnnw'n arwain at unrhyw fudd i unrhyw ran o Gymru. Credwn fod defnyddio wardiau fel sylfeini yn fodd pwysig o wneud y broses yn drefnus ac yn hygyrch, er y gallai arwain at rywfaint o anystwythder, cyfyngu ar opsiynau'r Comisiwn, a rhwystro eu gallu i wrthsefyll cysylltiadau cymunedol. Petaent yn cael eu diystyru, byddai'r broses o ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn dod yn fwy cymhleth ac yn aneglur o bosibl.

Nodwn, yn wahanol i'r Comisiwn Ffiniau i Loegr, nad yw'r Comisiwn yn cyfeirio'n benodol yn eu llyfryn canllaw at fater wardiau amddifad, fel y'u gelwir. Trefniant yw hyn lle mae ward unigol yn cael ei chynnwys mewn etholaeth sydd fel arall wedi'i ffurfio'n gyfan gwbl o wardiau o un awdurdod lleol arall neu fwy, ac mae rhai wardiau amddifad yn y cynnig cychwynnol. Cefnogwn ddull pragmatig lle mae pob sefyllfa'n cael ei thrin ar sail ei rhinweddau ei hun. Yn gyffredinol, nodwn mai ychydig iawn o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gallu cynnal niferoedd cyfan o etholaethau yn rhifiadol, a bod rhyw 15 o'r 32 o etholaethau yn y cynigion cychwynnol wedi'u ffurfio o fwy nag un awdurdod lleol, o gymharu ag wyth o'r 40 presennol. Felly, mae'n debygol iawn y bydd etholaethau lle y gallai trefniadau ward amddifad fod y ffordd orau o fodloni'r gofynion ar gyfer sicrhau'r newid lleiaf posibl a chadw at ffiniau awdurdod lleol yn fras.

[00:46:17]



Nodwn a chefnogwn bolisi'r Comisiwn ar enwau a dynodiad etholaethau a'i bolisi o gynnig naill ai enwau Cymraeg neu Saesneg, fel y gwêl yn briodol i'r ardal dan sylw. Yn gyffredinol, pan fydd etholaeth heb ei newid i raddau helaeth, yn ymwybodol, neu'n amlwg yn olynedd i sedd bresennol, credwn y dylid rhagdybio y bydd enw'r sedd yn aros yr un fath. Fodd bynnag, yn sgil y newidiadau mawr sy'n ofynnol i etholaethau mewn llawer o achosion, cydnabyddwn y dylai'r trefniadau newydd gael eu hadlewyrchu mewn enwau etholaeth newydd.


Nodwn fod y Comisiwn, wrth lunio eu cynnig, yn wynebu nifer o heriau nad oes datrysiad delfrydol iddynt, o bosibl. Mae'r rhain yn cynnwys lleihau torri cysylltiadau o fewn etholaethau yng Nghymoedd y De i'r eithaf, lle y gallai mwy nag un o'r cymoedd hynny gael eu cyfuno'n un sedd, neu lle y gallai un cwm gael ei rannu rhwng mwy nag un sedd.

Dod â nifer yr etholwyr mewn etholaethau yn ninas Caerdydd o fewn 5% o'r cwota etholiadol, cynyddu nifer yr etholwyr yn sedd Aberhonddu a Sir Faesyfed, cynyddu nifer yr etholwyr yn sedd Ceredigion, cynyddu nifer yr etholwyr yn sedd Sir Drefaldwyn. Mae'r tair etholaeth hyn yn rhai tenau eu poblogaeth gyda nifer etholwyr sydd ymhell islaw'r trothwy 5%, ac nid oes unrhyw ganolfannau poblogaeth mawr gerllaw y gellir eu hychwanegu atynt yn rhwydd. Credwn, felly, fod y trefniadau a ddewiswyd i ddatrys y materion hyn yn cyfeirio patrwm yr etholaethau ledled Cymru gyfan, i raddau helaeth. Derbyniwn y cynigion cychwynnol y mae'r Comisiwn wedi'u mabwysiadu mewn perthynas â'r etholaethau hyn at ei gilydd, er y gwnawn wrthgynnig bach mewn perthynas â sedd olynol Ceredigion.

Nodwn mai ychydig iawn o awdurdodau lleol sy'n gallu cynnal niferoedd cyfan o etholaethau â nifer etholwyr sydd o fewn 5% o'r cwota etholiadol. Cefnogwn sedd arfaethedig Torfaen a sedd Sir Fynwy, sy'n cydffinio â'u hardaloedd cyngor. Cefnogwn hefyd ddyrannu dwy sedd gyfan yn Sir Gaerfyrddin ac nid ydym yn dymuno gwneud unrhyw wrthwynebiad i'r ddwy etholaeth fel y'u hamlinellir. Yn ogystal, cefnogwn gadw awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Ceredigion a Merthyr Tudful yn gyflawn gyda'u hetholaethau unigol. Er nad yw'n effeithio ar batrwm cyffredinol yr etholaethau a'r ffordd y mae awdurdodau lleol wedi'u cyfuno'n grwpiau, dymunwn hefyd wneud gwrthgynnig sy'n effeithio ar Fwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas Abertawe. Fel arall, nid ydym yn dymuno gwneud unrhyw wrthwynebiadau i gynnig cychwynnol y Comisiwn ond, yn amlwg, byddwn yn ystyried cynigion a wneir gan eraill ac yn gwneud sylwadau arnynt yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori.

Rydym yn cefnogi neu'n gwneud dim gwrthwynebiad i'r cynnig cychwynnol ar gyfer y 14 etholaeth o fewn siroedd Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg. Mae'n amlwg yn rhesymegol y dylai Sir Fynwy a Bwrdeistref Sirol Torfaen ill dwy ffurfio etholaeth gyfan, a chredwn y bydd hyn yn cael ei gefnogi'n eang. Credwn fod cynnwys wyth ward Caerffili yng Nghwm Rhymni Uchaf yn ffordd resymegol o gynyddu nifer yr etholwyr ym Mlaenau Gwent, ac felly'n cefnogi sedd arfaethedig Blaenau Gwent a Rhymni.

[00:50:02]



Nodwn hefyd y newidiadau mawr sy'n ofynnol yng Nghasnewydd a Chaerffili ac, yn benodol, trosglwyddo chwe ward Dinas Casnewydd o Orllewin Casnewydd i etholaeth newydd Dwyrain Casnewydd. Cefnogwn y cynnig hwn a chymeradwywn gynrychiolaeth 9922 gan Jessica Morden AS, sy'n cyflwyno'r dadleuon o blaid y sedd hon. Derbyniwn, fodd bynnag, fod y cysylltiad rhwng Casnewydd a Chaerffili yn un lletchwith a bod y cysylltiadau o fewn sedd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili, fel y'i cynigir, yn gyfyngedig yn unig. Ond nid ydym yn dymuno gwrthwynebu'r cynnig sy'n cadw tref Caerffili mewn un sedd ac yn cadw Islwyn yn gyflawn heblaw am un ward.

Rydym hefyd yn cefnogi etholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr fel y'i cynigir, at ei gilydd, gan nodi bod cynnwys ward Nelson o Gyngor Sir Caerffili yn golygu bod yr etholaeth wedi'i ffurfio o rannau o dri awdurdod lleol gwahanol. Mae'n anffodus hefyd bod y cynnig hwn yn arwain at rannu Cwm Cynon gydag Aberdâr ac Aberaman yn cael eu gosod mewn etholaethau gwahanol.


Nodwn fod opsiynau'r Comisiwn yn gyfyngedig o fewn Dinas Caerdydd lle mae sedd De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr ar hyn o bryd, tra bod y tair sedd arall yn rhy fach, gyda Chanol Caerdydd yn cynnwys 62,192 o etholwyr yn unig. Mae'r nifer nodweddiadol fawr o etholwyr mewn wardiau dinesig yn lleihau nifer yr opsiynau sydd ar gael ac yn golygu y gallai'r addasiadau sy'n ofynnol yn y ddinas, petaent yn cael eu gwneud, arwain at ail-lunio patrwm y seddau yng Nghaerdydd yn llwyr, nad ydynt wedi newid i raddau helaeth ers 1983.

At ei gilydd, felly, rydym yn cefnogi'r cynigion cychwynol sy'n cadw tair o'r pedair etholaeth yn gwbl gyflawn ac yn golygu bod dwy ward yn unig o fewn Caerdydd yn symud etholaeth. Credwn fod cynnwys Dinas Powys yn Ne Caerdydd a Phenarth yn estyniad rhesymegol i'r trefniadau presennol a bod Dinas Powys ei hun yn edrych tuag at Gaerdydd a bod ganddi gysylltiadau trafndiaeth da.

Rydym yn derbyn y byddai cynnwys ward Ffynnon Taf yng Ngogledd Caerdydd a Phont-y-clun yng Ngorllewin Caerdydd yn golygu mai dim ond un etholaeth fyddai'n gyfan gwbl o fewn Caerdydd, ac y byddai Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi'i rhannu rhwng pum etholaeth wahanol. Fodd bynnag, credwn fod cysylltiadau, gan gynnwys cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd, rhwng Ffynnon Taf a Gogledd Caerdydd, a rhwng Pont-y-clun a Gorllewin Caerdydd, sy'n gwneud y cynigion hyn yn synhwyrol. Felly, cefnogwn y cynigion cychwynol ar gyfer seddau Pontypridd a'r Rhondda. Cefnogwn hefyd sedd ddiwygiedig Bro Morgannwg heb ei newid heblaw am drosglwyddo Dinas Powys.

Nodwn y bu nifer o wrthwynebiadau a gwrthgynigion i'r cynigion cychwynol yn y rhan hon o Gymru. Gwnawn sylwadau ar ddau ohonynt yn fyr fan hyn. O ran Caerffili, nodwn y cynnig a gefnogir gan lawer o gynrychiolaethau, sef y byddai Caerffili yn cael ei chadw a'i hymestyn gyda wardiau o Islwyn, gyda Gorllewin Casnewydd yn cynnwys Risga a Threcelyn. Er y deallwn y gwrthwynebiadau i rannu etholaeth Caerffili,... nid ydym wedi'n hargyhoeddi, fodd bynnag, bod y cysylltiadau rhwng Casnewydd ac Islwyn yn gryfach o reidrwydd.

[00:53:38]



Nodwn hefyd wrthgynnig 9809 gan y Blaid Geidwadol a gefnogir gan eraill a fyddai'n rhoi Nelson yn sedd Islwyn, Cwmbach a Ffynnon Taf ym Mhontypridd gydag Aberaman ac, ym Merthyr Tudful ac Aberdâr. Er y byddai hyn yn gadael Nelson yn ei hetholaeth yn gyfan gwbl o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili, ac yn cadw Ffynnon Taf yn ei sedd bresennol, credwn fod y cynnig yn ddiffygiol o ran Caerdydd. Yn arbennig, trwy drosglwyddo Glan yr Afon i Ganol Caerdydd a Gogledd Llandaf i Orllewin Caerdydd, mae'r cynnig yn rhoi terfyn ar ddefnyddio Afon Taf fel ffin yr etholaeth rhwng Gorllewin Caerdydd a'r seddau eraill yn y ddinas. Mae hefyd yn rhoi wardiau Llanrhymni a Rhymni mewn etholaethau gwahanol, gan dorri'r cysylltiadau rhyngddynt. Felly, nid ydym yn cefnogi'r gwrthgynnig hwn.


Ymlaen i ganolbarth a gogledd Cymru. Cefnogwn sedd arfaethedig Aberhonddu a Maesyfed, a hefyd sedd arfaethedig Trefaldwyn a Glyndŵr. Cydnabyddwn unwaith eto y byddai'r ail etholaeth yn cynnwys rhan o dri awdurdod lleol, ond mae'r ardaloedd sy'n cael eu hychwanegu i gyd yn dod o etholaeth bresennol De Clwyd a chredwn eu bod yn rhesymegol ac yn gywasgedig ac yn cyd-fynd yn dda ag etholaeth Sir Drefaldwyn. Nodwn, felly, y gellir cadw sedd bresennol Wrecsam yn ei chyfanrwydd gan ychwanegu 11 ward arall, sydd yn Ne Clwyd ar hyn o bryd.

Yng ngweddill Gogledd Cymru, cydnabyddwn fod rhaid cael dwy sedd yn llai, ac y bydd hyn yn arwain at newid sylweddol ac etholaethau sy'n rhychwantu ardaloedd mawr iawn. Nodwn fod y Comisiwn yn cynnig y dylai etholaeth bresennol Alun a Glannau Dyfrdwy gael ei chadw'n gyflawn gan ychwanegu dwy ward o Fwrdeistref Sirol Wrecsam a thair ward o Sir y Fflint sydd yn Nelyn ar hyn o bryd, a chefnogwn hynny. Croesawn gadw tair prif dref y Fflint, Treffynnon a'r Wyddgrug o fewn sedd Delyn, a chredwn fod ychwanegu Prestatyn yn rhesymegol. Credwn fod cysylltiadau Delyn â Rhuthun a phedair ward wledig Sir Ddinbych, sydd wedi'u hychwanegu at y sedd, yn wannach, ond nid ydym yn dymuno gwneud gwrthgynnig.

Cefnogwn y cynigion ar gyfer y tair sedd sy'n weddill yng Ngogledd Cymru, gan nodi bod etholaethau presennol Aberconwy a Dwyfor Meirionnydd yn aros yn gyflawn o fewn eu seddau mwy o faint sydd wedi'u hymestyn, a bod sedd arfaethedig Clwyd yn cynnwys mwyafrif helaeth o'r wardiau o fewn sedd bresennol Gorllewin Clwyd. Unwaith eto, nodwn y bu nifer o wrthwynebiadau a gwrthgynigion i etholaethau yn yr ardal hon, yr ymdriniwn â nhw'n fanylach yn ein cynrychiolaeth ysgrifenedig.

Nodwn wrthgynnig y Blaid Geidwadol a gefnogir gan eraill, a fyddai'n ymestyn Alun a Glannau Dyfrdwy i gynnwys tref y Fflint a Bagillt gydag Argoed, Coed-llai, New Brighton yn cael eu cadw yn Nelyn, y byddai tair ward wledig ychwanegol Sir Ddinbych yn cael eu hychwanegu ati. Byddai Sir Drefaldwyn a Glyndŵr yn cynnwys mwy o etholwyr o Fwrdeistref Sirol Wrecsam, a byddai wardiau Brymbo a Mwynglawdd yn cael eu trosglwyddo i Wrecsam. Nid ydym yn cefnogi'r cynnig hwn, a fyddai'n dileu'r Fflint, sef un o'r tair prif dref yn sedd Delyn, a'i disodli â'r ardal sy'n canolbwyntio ar Gorwen nad oes ganddi unrhyw gysylltiadau â Sir y Fflint na Phrestatyn, ar yr un pryd â thorri ei chysylltiadau ei hun â Llangollen. Fel y dywedwyd, credwn fod Brymbo, Mwynglawdd, Argoed, Coed-llai a New Brighton yn ychwanegiadau rhesymegol a fyddai'n cyd-fynd yn dda o fewn Alun a Glannau Dyfrdwy.

[00:57:49]



Cefnogwn gynnig y Comisiwn ar gyfer dwy sedd yn gyfan gwbl neu'n rhannol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac yn enwedig trosglwyddo tref Porthcawl i Aberafan Porthcawl. Credwn fod cysylltiadau rhwng Margam, Corneli a'r Pîl, sy'n golygu bod hwn yn lle rhesymegol ar gyfer etholaeth sy'n cynnwys rhannau o Ben-y-bont ar Ogwr, a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Rydym hefyd yn cefnogi sedd arfaethedig Pen-y-bont ar Ogwr ac yn cytuno, at ei gilydd, bod hwn yn enw priodol ar gyfer etholaeth o ystyried mai Pen-y-bont ar Ogwr fyddai'r anheddiad mwyaf yn ogystal ag enw'r awdurdod lleol.


Fel y nodwyd uchod, cefnogwn gynnig y Comisiwn bod sedd Aberhonddu a Maesyfed yn cynnwys 10 ward etholaeth bresennol Castell-nedd, sy'n cynnwys Dyffryn Tywi Uchaf. Er y derbyniwn y byddai hyn yn torri cysylltiadau o fewn etholaeth Castell-nedd, credwn y byddai unrhyw ddewis amgen arall yn tarfu mwy a bod yr ardal hon yn ffurfio estyniad naturiol i'r etholaeth bresennol, gan barchu'r cysylltiadau rhwng Ystalyfera ac Ystradgynlais – maddeuwch fy Nghymraeg, nid yw'n wych.

Cydnabyddwn fod gan wardiau Cefn Glas a Llangewydd a Brynhyfryd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gysylltiadau â thref Pen-y-bont ar Ogwr, ond byddem yn dadlau bod yr un peth yn berthnasol i Sarn ac nid oes cynnig ar gael a fyddai'n cynnwys y dref gyfan a'r ardaloedd hynny sy'n edrych tuag at y dref o fewn un etholaeth. Felly, nid ydym yn cefnogi'r gwrthgynnig gan y Blaid Geidwadol a fyddai'n ychwanegu rhan o Ogwr at Ben-y-bont ar Ogwr ac yn cysylltu Aberafan â Maesteg. Credwn y byddai etholaeth Aberafan Maesteg mewn dwy ran, i bob pwrpas, wedi'u rhannu gan ardal ucheldir denau ei phoblogaeth a gysylltir gan isffyrdd, gydag un rhan yn edrych tuag at Bort Talbot a'r llall tuag at Ben-y-bont ar Ogwr.

Cefnogwn ddarparu tair sedd gyfan i weddill Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a dinas Abertawe, ond credwn fod y cynigion cychwynnol yn anfoddfaol o ran creu trefniant rheiddiol lle mae dwy etholaeth yn cynnwys rhannau o ganol Abertawe ac yn ymestyn cryn bellter ymhellach i gymunedau nad oes ganddynt lawer o gysylltiadau â nhw. Credwn fod yr angen i leihau nifer y seddau yn y rhan hon o Gymru yn cyfiawnhau creu un etholaeth sy'n rhychwantu Canol Dinas Abertawe yn ei chyfanrwydd. Felly, dymunwn gynnig y dylai sedd Canol a Gogledd Abertawe gynnwys wardiau Bon-y-maen, St Thomas a Sgeti gyda wardiau Llangyfelach Mawr, Penllergaer a Phontarddulais yn cael eu cadw yn sedd Gorllewin Abertawe a Gŵyr. Yna, cynigiwn y dylai ward Treforys gael ei throsglwyddo i Ddwyrain Abertawe a Chastell-nedd, ac awgrymwn y dylai etholaeth Canol a Gogledd Abertawe gael ei henwi'n syml yn Ganol Abertawe. Byddai'r gwrthgynnig yn arwain at gadw Gŵyr yn gyflawn heblaw am ward Clydach, tra byddai Canol Abertawe yn cynnwys mwyafrif etholaethau Dwyrain Abertawe a Gorllewin Abertawe. Dangosir map o'n gwrthgynnig a'r rhestr o wardiau yma.

[01:01:48]

Fel y nodwyd uchod, cefnogwn sedd arfaethedig Caerfyrddin a sedd Llanelli. Fodd bynnag, hoffem wneud gwrthgynnig bach yn Sir Benfro, sef bod wardiau Solfach a Thyddewi yn cael eu cynnwys yn sedd Canol a De Sir Benfro a bod sedd Ceredigion Preseli yn cynnwys ward Maenclochog o Sir Benfro. Credwn fod y cynnig yn gwella ffurf y ddwy etholaeth gyda rhan Sir Benfro o Geredigion Preseli yn canolbwyntio'n



fwy ar Abergwaun fel ei chanolfan leol, ar yr un pryd â pharchu cysylltiadau Tyddewi a Hwlfordd a'r cymunedau arfordirol i'r de ohoni. Dangosir map o'r gwrthgynnig a'r wardiau yma.

Dyna'r diwedd, rwy'n credu. Felly, yn olaf, hoffwn ddiolch i'r Comisiwn ar ran y Blaid Lafur. Bydd y Blaid Lafur yn cael ei chynrychioli yn yr holl wrandawiadau cyhoeddus, ac edrychwn ymlaen at gyfraniadau pobl Cymru ym mhob rhan o'r wlad. Bydd y cyflwyniad hwn yn ffurfio'r sail i'n cynrychiolaeth ysgrifenedig, a fydd hefyd yn cynnwys mwy o sylwadau ar wrthwynebiadau a chynigion eraill a wnaed neu a allai fod wedi'u gwneud. Hyderwn fod ein cyfraniad wedi bod yn ddefnyddiol i chi a diolchwn i chi unwaith eto am ganiatáu i mi annerch y gwrandawriad. Diolch.

Cadeirydd: Diolch, Joe. Cadarnhaf yn gyntaf gyda'm comisiynwyr cynorthwyol i weld a oes ganddynt unrhyw bwyntiau eglurhad cyn gwahodd aelodau. Oes gennych chi unrhyw gwestiynau eglurhad?

AM: Ga'i weld sleid de-orllewin Gŵyr eto, er mwyn cael syniad gweledol ohoni?

Cadeirydd: Ymddiheuriadau. A allwn ni weld y cyflwyniad eto, os gwelwch chi'n dda?

JL: Sori.

Cadeirydd: Diolch. Mae Doctor Midah wedi gofyn am gael gweld y sleid ynglŷn â Gŵyr eto.

JL: Ai hon ydyw?

AM: Ie, dim ond er mwyn...

JL: Gadewch i mi ddod o hyd iddi. Sori.

Cadeirydd: Gŵyr?

AM: Gŵyr a'r De-orllewin.

Cadeirydd: Ie. Gwrthgynigion Abertawe.

AM: Ychydig cyn hynny. Dyna ni. Na, mae hynny'n iawn. Ga'i edrych arni am ddwy eiliad plis? [saib] Iawn. Diolch. Iawn?

JL: Ie.


AM: A allwch chi ddarparu copïau o hyn hefyd?

JL: Ie, ie.

[01:04:23]

Cadeirydd: Ie, mae gennym ni-... ie. Stephen, oes gennych chi...?

SP: Oes, un cwestiwn. A allech chi ymhelaethu ychydig ar..., hyn mewn perthynas â throsglwyddo'r wardiau yn etholaeth bresennol Castell-nedd i Aberhonddu a



Maesyfed, neu'r bwriad arfaethedig i'w trosglwyddo yn y cynigion cychwynnol? A allech chi ymhelaethu ychydig ar pam rydych yn credu bod hynny'n estyniad naturiol neu'n tarfu llai na'r dewisiadau amgen?

JL: Dydw i ddim yn siŵr. Rwy'n credu y deawn yn nôl atoch ar hynny. Rwy'n credu..., bod gennyf ddau o'm swyddogion technegol gyda mi a allai ateb yn well na fi, efallai, os yw hynny'n dderbyniol i'r Comisiwn?

Cadeirydd: A yw'r pleidiau eraill yn fodlon – y pleidiau gwleidyddol? Unrhyw wrthwynebiadau? Ga'i wahodd y cydweithwyr o'r Blaid Lafur i ymateb, os gwelwch yn dda?

GC: Fy enw i yw Greg Cook, a fi yw cyn swyddog y Blaid Lafur sy'n cynorthwyo'r blaid â'r broses hon. Credaf fod hynny'n cyfeirio'n syml at y ffaith ein bod yn credu bod cysylltiadau ag ardal Ystradgynlais neu debygrwydd yn y cymunedau yn yr ardal honno. Ond, yn amlwg, tybiaf y bydd pobl o'r ardal yr effeithir arni'n gallu siarad yn well am hynny na'r Aelodau Seneddol, yn amlwg.

Cadeirydd: Diolch.

SP: Iawn, diolch. Unrhyw beth arall gan y Comisiynwyr Cynorthwyol Archwilio? Iawn? Rwy'n hapus i agor i'r rhai sy'n bresennol.

RP: Diolch yn fawr. Roger Pratt o Blaid Geidwadol Cymru. Fe wnaethoch yn fawr yn eich datganiad agoriadol ynglŷn â chwestiwn cynghorau cymuned, gan nodi nad yw'r Comisiwn wedi torri polisi cynghorydd cymuned, yr oeddech yn gefnogol iawn ohono. Tybed a allwch chi ddweud yn eich gwrthgynnig ar gyfer Abertawe Castell-nedd Port Talbot p'un a oes cyngor cymuned sydd bellach wedi'i rannu, nad yw wedi'i rannu o dan gynigion y Comisiwn, ai peidio?

Cadeirydd: Sori, at ddibenion...

JL: Nid hyd y gwn i...

Cadeirydd: Sori, Joe. At ddibenion y ffrydio byw ac ar gyfer y cofnod, mae Roger Pratt o'r Ceidwadwyr wedi gofyn a oes unrhyw un o'r ardaloedd cymunedol, dybiwn i, wedi cael ei rhannu o dan y Blaid Lafur?

JL: Nid hyd y gwn i, Roger, ond fe ymchwiliaf i'r mater ymhellach. Efallai bydd fy swyddogion technegol yn gwybod yn well.


RP: Fe allwch, ond dybiwn i y bydd yr Aelodau Seneddol yn gwybod.

GC: Ie..., er mwyn i bawb gael gwybod, rwy'n credu y gwelwch eich bod wedi rhannu Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

[01:05:51]

JL: Iawn.

GC: Rhwng dwy etholaeth.



Cadeirydd: Diolch.

JL: Rwy'n meddwl, chi'n gwybod, er mwyn..., rydyn ni ynghlwm fan hyn ac rwy'n credu, chi'n gwybod, rydyn ni'n gwneud ein gorau i wneud y gorau y gallwn, ac weithiau ni fyddwn yn gallu cyflawni perffeithrwydd. Ac yn enwedig gyda'r broses hon, nid yw byth yn bosibl gwneud yn union beth rydyn ni eisiau ei wneud.

Gwryw anhysbys: Sori am neidio i mewn. Rwy'n credu bod... [chwerthin]

Cadeirydd: Mae rhywun yn mynd i gyflawni ei gamau heddiw. [mae'n chwerthin]

Gwryw anhysbys: Sori, i fod yn bedantig, rwy'n credu bod y datganiad yn cyfeirio at beidio â rhannu wardiau mewn cynghorau cymuned yn hytrach na chynghorau cymuned eu hunain, a dyna oedd polisi'r Comisiwn yr oedd yn cyfeirio ato, rwy'n credu.

Cadeirydd: Ie. Ein polisi yw peidio â rhannu cymunedau mewn..., ie, cymunedau cyfan yn ogystal â cheisio cadw, chi'n gwybod, peidio â rhannu wardiau etholiadol, ac nid ydym wedi gwneud hynny ar gyfer y set benodol hon o gynigion cychwynnol.

A oes rhagor o gwestiynau eglurhad ar gyfer y Blaid Lafur? Os na, ga'i awgrymu ein bod yn cymryd – rydym ymhell o flaen yr amserlen heddiw [mae'n chwerthin] – da iawn i'r pleidiau gwleidyddol. Ni fu'n rhaid i Tom ddefnyddio ei gerdyn coch yn y cefn. Ga'i awgrymu ein bod yn cael egwyl tŷ bach o 10 munud ac yna fe ddychwelwn ar gyfer y Democratiaid Rhyddfrydol? Ac yna'r Ceidwadwyr, oni bai bod pobl eisiau cadw at eu hamserau. Y cyflwynwyr piau'r dewis. Fe gaf i sgwrs ar wahân.

Gwryw anhysbys: Fi yw'r Democrat Rhyddfrydol....

Cadeirydd: Iawn, felly fe gawn ni egwyl tŷ bach o 10 munud ac yna dychwelyd a pharhau. Ydy hynny'n iawn?

Gwryw anhysbys: Ydy.


Cadeirydd: Diolch.

Iawn. Croeso nôl, bawb. Fe gawn ni ein cyflwyniad nesaf gan bleidiau gwleidyddol gan y Cynghorydd Pete Rogers o'r Democratiaid Rhyddfrydol. Pete? Drosodd i chi?

[01:08:44]

PR: Diolch yn fawr. Hoffwn ddechrau trwy ddiolch i'r Comisiwn a'u staff am eu holl waith caled i gyrraedd y sefyllfa hon heddiw. Credaf y byddai pawb ohonom ar ochr arall y bwrdd yn cytuno eu bod yn wynebu tasg annymunol i wneud i'r ffigurau weithio a gweithio mewn ffordd nad ydym yn ei rhwygo'n ddarnau gormod.

Rwy'n mynd i sôn heddiw am nifer o feysydd. Rwy'n mynd i ddechrau trwy edrych ar yr egwyddorion cyffredinol, o safbwynt y Comisiwn ac o'n safbwynt ni. Y meysydd y cytunir arnynt, y meysydd sy'n achos pryder, gan gyfeirio at y materion sydd wedi codi yn ystod yr ymgynghoriad y byddwn yn ceisio mynd i'r afael â nhw yn ein gwrthgynion.



Rwy'n credu yn gyntaf, rydym yn edrych ar yr egwyddorion cyffredinol, ac yn amlwg rydym yn croesawu cadw'r 650 o aelodau o gymharu â'r gorffennol, ac er nad yw'n berthnasol i heddiw, fel manau eraill, rydym eisiau mynegi'n swyddogol ein pryder ynglŷn â'r diffyg cydnabyddiaeth i deneurwydd poblogaeth a'r methiant i achub ar y cyfle i symud tuag at system bleidleisio wahanol. Ond materion ar gyfer adeg arall yw'r rheiny, nid heddiw.

Felly, rydym yn cytuno â'r awydd i lunio'r ffiniau newydd ar sail etholaethau hanesyddol lle y bo'n bosibl, ceisio cadw nodweddion ieithyddol etholaethau a hefyd yr awydd i leihau etholaethau ar draws cyngorau gymaint â phosibl. Dyna rai o'r dulliau sylfaenol a ddefnyddiom i fynd i'r afael â hyn yn y Democratiaid Rhyddfrydol.

Fel Plaid Cymru, fe ddechreuom cyn i'r Comisiwn gyflwyno eu cynigion llawn ac edrychom ar nifer o wahanol fodelau. Fe edrychom ar fodel a gymerodd Orllewin Sir Drefaldwyn, fe edrychom ar fodelau a gymerodd Aberhonddu a De Maesyfed mewn nifer o wahanol ffyrdd, fe edrychom ar wahanol ffyrdd o drin Ceredigion. Ond ar ddiwedd y dydd, fe benderfynom ar rywbeth sydd, yn ein barn ni, yn mynd i'r afael â nifer o bryderon penodol a amlygwyd gennym wedyn yng nghynigion y Comisiwn.

Mae'r un cyntaf yn un technegol, sef diffyg etholaeth gyffiniol ar adeg penllanw yn ardal Caerdydd. Yr ail yw croesi Gorllewin De Cymru – ac fe ddylai fod yn SWW nid SSW – a Chanolbarth Cymru yn etholaethol, rhanbarthau etholaethol y Senedd. Cydnabyddwn y bydd y ffiniau rhanbarthol hyn yn cael eu croesi. Nid ydynt yn ffactor uniongyrchol, ond roeddem yn teimlo bod yr un yma yn arbennig yn haeddu ystyriaeth benodol.


Roedd gennym bryderon ynglŷn â phellter daearyddol, ond roedd gennym bryderon hefyd ynglŷn â nifer y ffiniau trefol mewnol sydd wedi cael eu cyflwyno yn yr arolwg hwn o gymharu â ffiniau presennol etholaethau. Amlygwn hyn yn arbennig mewn perthynas â Phen-y-bont ar Ogwr, ond hefyd mewn perthynas ag etholaeth Alyn a Glannau Dyfrdwy, Wrecsam.

Ac yna, yn olaf, yn yr un modd ag eraill, fe edrychom ar fater Caerffili, Casnewydd. Daethom i'r casgliad bod datrysiad gwell a oedd nid yn unig yn galluogi datrys y mater hwnnw ond, mewn gwirionedd, wrth archwilio mewnbyn dilynol gan unigolion, wedi ein galluogi i ddelio â materion o amgylch Aberdâr ac Aberaman a Nelson a'i statws fel ward amddifad o fewn Merthyr.

[01:12:42]

Lle y bo'n ymarferol, rydym wedi dewis osgoi gosod wardiau amddifad o un cyngor yn un arall. Ni fu'n bosibl bob tro, ond lle bynnag y gallem, rydym wedi ceisio cael o leiaf ddwy ward o ardal cyngor o fewn ward.

O ran yr ymgynghoriad, fe'n cyflwynwyd i'r rhain ar ddechrau'r cyflwyniadau agoriadol. Ond wrth fynd trwy'r 1,000 a mwy o ymatebion i'r ymgynghoriad, fe amlygom nifer o themâu hefyd ac yn y rhan fwyaf o achosion yma, os nad pob un, dyma'r themâu sydd wedi dod i'r amlwg mewn ymatebion gan y cyhoedd i'r cynigion cychwynnol, y mae ein gwrthgynigion yn mynd i'r afael â nhw, ac nid i



raddau bach. A chyfeiriaf yn ôl at hyn yn ystod ein cyflwyniad i gefnogi rhai o'r syniadau a gyflwynwn.


Wrth edrych ar ein gwrthgynigion, fe'u rhannwn yn dri maes. Yn gyntaf, soniaf am y meysydd y cytunir arnynt ac yn ail, mae dau newid yr edrychwn arnynt fel rhai hunangynhwysol, yn yr ystyr hyd yn oed pe na byddech yn derbyn unrhyw beth arall a gynigiwn, mae'r rhain yn newidiadau sydd wedi'u cynnwys o fewn un..., dwy etholaeth neu glwstwr bach o etholaethau. Ac yna fe edrychwn ar y prif wrthgynigion oherwydd, fel sy'n wir am yr holl achosion hyn o ran maint wardiau, gall newid mewn un man gael ôl-ffaith trwy Gymru gyfan.

Felly, os edrychwn ar y meysydd y cytunir arnynt, rydym yn llwyr gefnogi'r Comisiwn o ran Torfaen, Dwyrain Casnewydd, Sir Fynwy, Blaenau Gwent a Rhymni. Pan edrychwn ymhellach ar draws tuag at hen ardal Dyfed, rydym yn cefnogi'r hyn y mae'r Comisiwn wedi'i gynnig ar hyn o bryd, ond yn ymwybodol o wrthgynnig gan Gyngor Ceredigion sy'n ystyried cysylltu wardiau ar draws yr afon ar y ffin ddeheuol o amgylch Llanbedr Pont Steffan ac o amgylch Castellnewydd Emlyn, yr hoffem edrych arno'n fanylach. Byddai'n dda gennym petai'r rheiny'n destun mwy o graffu oherwydd er nad ydym yn eu mabwysiadu, gallwn weld buddion cymryd trefi marchnad ar hyd y ffin sydd wedi'u rhannu gan rwydweithiau pontydd amlwg a allai weddu'n well, mewn gwirionedd, ac a fyddai'n mynd i'r afael â her y pellter hir iawn ar hyd yr arfordir o Dyddewi i fyny i Borth.

O ran y newidiadau hunangynhwysol, fe amlygom ddau. Mae'r un cyntaf yn ardal Bangor yn cynnwys ychwanegu ward Pentir ac yna dileu Llangernyw ac Uwchaled i etholaeth Clwyd o ganlyniad. Yn yr achos hwn, credwn er bod Pentir yn edrych fel ward wledig fawr ar bapur, mae mwyafrif helaeth y boblogaeth o amgylch safle'r ysbyty, ac mae'n rhan annatod o ddinas Bangor ei hun mewn gwirionedd. Felly, deugn i'r casgliad os byddwch yn cymryd Bangor allan o etholaeth Arfon a'i symud yn ôl i etholaeth Conwy fwy traddodiadol o'r 1980au a'r 90au, byddai'n gwneud mwy o synnwyr i gymryd y ward hon gyda hi yn ei chyfanrwydd fel nad oes dryswch ynglŷn â pha Aelod Seneddol sy'n eich cynrychioli mewn gwirionedd. Cefnogir hyn, ac fe ddewisais ddau yn unig, gan nifer sylweddol o ymatebion gan y cyhoedd, ac oherwydd ei fod yn symud dwy ward o un ac i mewn i un arall ac yn cyd-fynd â'r hyn rydym yn edrych arno mewn manau eraill, credwn y gallai hyn gael ei dderbyn yn hunangynhwysol. Felly, mae hyn yn cael effaith ar gornel dde-orllewinol waelod yr hyn rydym yn ei alw'n Orllewin Clwyd, ond y mae'r Comisiwn wedi'i alw'n Glwyd, sef ychwanegu dwy ward arall a chyfnerthu'r rhwydwaith yn yr hanner deheuol. Cefnogir hyn ei hun gan un cyflwyniad o leiaf gan y cyhoedd sy'n amlygu'r cysylltiadau hanesyddol, diwylliannol ac ieithyddol yn yr ardal honno.

[1:17:44]

Yn Abertawe, rydym yn edrych llawer mwy tuag at etholaeth draddodiadol Gorllewin Abertawe. Rydym yn amlygu cysylltiadau rhyng-ffiniol arwyddocaol, yn enwedig rhwng Uplands a Sgeti, sydd wedi cael eu cefnogi mewn manau eraill. Felly, mae ein cynigion yn debyg iawn i etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr a gynigiwyd yn yr arolwg a ataliwyd yn ystod y tymor seneddol diwethaf. Felly, byddwn yn cymryd Abertawe o Dywi, gan gynnwys Castell, Townhill ac Uplands, mewn ward sy'n rhychwantu Bae Abertawe yr holl ffordd o amgylch i'r Mwmbwls.




Yn yr hanner gogleddol, bwriadwn gyfuno'r Cocyd â Chwmbwrla. Derbyniwyd hyn yn yr arolygon blaenorol, gyda'r Cocyd a Chwmbwrla yn symud i'r de. Yn yr achos hwn, mae'r niferoedd yn wahanol oherwydd bod cynnydd sylweddol yn y boblogaeth fyfyrwyr, sy'n golygu nad oes angen ychwanegu pleidleiswyr o Gwmbwrla. Rydym hefyd yn edrych ar wardiau Casllwchwr Uchaf, Casllwchwr Isaf, Pontybrenin Gorseinon sydd wedi cael eu rhannu mewn arolygon blaenorol, ond yn yr achos hwn, rydym wedi'u cadw gyda'i gilydd yn unol â chanlyniadau'r arolwg na weithredwyd yn flaenorol. Mae'r newidiadau hyn yn Abertawe yn gynaliadwy yn yr ystyr nad ydynt yn effeithio ar newidiadau eraill mewn mannau eraill. Ein rhesymeg ynglŷn â hyn yn gyntaf yw cysylltu Bae Abertawe â'i gilydd a chysylltu'r brifysgol â'r boblogaeth fyfyrwyr yn Sgeti gyda'r boblogaeth fyfyrwyr yn bennaf sydd wedi ymestyn i ward Uplands. Rydym hefyd yn edrych ar gydlyniant cymunedol rhwng Sgeti ac Uplands. Mae hyn yn grefyddol yn bennaf, gyda chysylltiadau eithaf cryf mewn eglwysi yn yr ardal honno, ond hefyd, fel yr amlygwyd gan gyflwyniadau eraill, o fewn y gymuned Fwslimaidd hefyd. Ac, unwaith eto, cyfeiriaf at sylwadau o'r tu allan gan y rhan benodol honno o gymuned Abertawe.

Pan edrychwn ar ein gwrthgynigion - ac mae hwn yn arolwg ehangach bellach ac mewn gwirionedd byddwn, yn hytrach nag edrych ar ranbarth, byddwn yn symud o un etholaeth i'r llall i archwilio'r gwahanol effeithiau. Bwriadwn gadw'r holl etholaethau fel rhai cyffiniol. Mater bach ydyw, mater technegol, ond credwn ei fod yn bosibl, felly ni welwn pam mae angen cyflwyno anghysondeb y gellir ei osgoi. Bwriadwn gadw etholaethau hanesyddol gymaint â phosibl. Bwriadwn leihau gymaint â phosibl ar groesi rhanbarthau'r Senedd, er bod un ar hyn o bryd. Yn yr achos hwn, mae'n rhaid gwneud hynny oherwydd y newidiadau o amgylch Merthyr, sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion gwreiddiol sut bynnag. Ond rydym hefyd yn ystyried llwythi gwaith Aelodau Seneddol yn sgil y cynnydd yn nifer yr etholwyr maen nhw'n gofalu amdanynt. Un o'r materion a amlygom oedd ceisio lleihau nifer y cynghorau gwahanol y mae'n rhaid iddyn nhw a'u staff ryngweithio â nhw i'r eithaf, yn enwedig o ran wardiau amddifad. Ac yna rydym wedi edrych yn ôl ac ystyried yr achos a'r dadleuon a wnaed mewn arolygon blaenorol a, lle y bo'n bosibl, rydym wedi ceisio sicrhau nad ydym wedi cyflwyno materion y penderfynwyd arnynt mewn trafodaethau blaenorol, os nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith mewn gwirionedd.

Y tri phrif, y pedwar prif fater a amlygwyd gennym, y soniais amdanynt yn fyr, yw edrych ar Gaerdydd, Caerffili, newidiadau yng Nghastell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr ac yn Aberhonddu a Sir Faesyfed.

[01:22:19]

O ran enghraifft Caerdydd, y llinell ddu yn yr ardal liw eglur iawn yw'r ffin rhwng dwy ward sy'n ffurfio De Caerdydd. Mae hyn i gyd islaw'r marc penllanw ac yn fater rydym yn mynd i'r afael ag ef yn ein cynigion. Yn yr achos hwn, cefnogir hyn gan un cyflwyniad o leiaf, sy'n crynhoi'r sefyllfa'n eithaf clir, er hynny nid yn yr iaith y byddwn i wedi'i defnyddio. Felly, gan edrych ar Gaerdydd yn ei chyfanrwydd, mae Canol Caerdydd, fel yr amlygwyd yn flaenorol, yn rhy fach. Rydym wedi edrych ar y cysylltiad o Cathays i Gabalfa, a amlygwyd ac a dderbyniwyd mewn arolwg blaenorol, a bwriadwn ychwanegu'r Mynydd Bychan er mwyn cynyddu'r niferoedd. Mae'r Mynydd Bychan wedi'i gwahanu o hyn i raddau helaeth gan y



rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd. Ond o fewn y pen uchaf, mae gorsaf drenau High Road yn gwasanaethu'r ddwy gymuned ac mae nifer o gysylltiadau ffyrdd rhwng y Mynydd Bychan a Chyncoed sy'n peri i ni ddod i'r casgliad ei bod yn ychwanegiad priodol.

O ran De Caerdydd a Phenarth, mae ailgyfansoddi gyda Trowbridge Rhymni Sblot yn datrys y mater rydym wedi'i amlygu ac yn dileu'r angen i gymryd Dinas Powys allan o etholaeth Bro Morgannwg a'n galluogi i adfer, i gadw'r etholaeth honno'n ddigyffwrdd i raddau helaeth, a dileu'r angen i'r..., i etholaeth De Caerdydd gael un ward amddifad o ardal cyngor arall. Mae hyn wedi cael ei amlygu mewn nifer o gyflwyniadau, gan gynnwys gan seneddwr a chynrychiolwr lleol.


Yn y gogledd, rydym wedi ychwanegu Llanrhymni. Y brif broblem, fel yr amlygwyd mewn manau eraill, yw bod gan Gaerdydd wardiau aml-aelod mawr iawn, felly mae'n eithaf heriol ei rhannu ac aildrefnu pethau. Ein hymateb yw ychwanegu Pontprenau, Pentref Llanelwyr a Llanrhymni i greu etholaeth Gogledd Caerdydd sy'n edrych tuag at y traddodiad gwr..., presennol i raddau helaeth, ond nid yn gyfan gwbl.

Y brif her sydd gennym yn yr achos hwn, fodd bynnag, yw Gorllewin Caerdydd. Bu eithaf tipyn o ddadleuon ynglŷn ag ychwanegu Pont-y-clun at etholaeth Gorllewin Caerdydd yng nghynigion y Comisiwn. Aethom i'r afael â hynny'n rhannol drwy ychwanegu Llanharan, Llanhari a Brynau, sydd oll â chanolbwynt yn yr ardal gyda'r rhwydwaith ffyrdd, ac sy'n ymestyn cyrhaeddiad yr etholaeth hon fel ei bod yn fwy eglur o lawer ei bod yn etholaeth De Pontypridd a Chaerdydd fel bod gan ardal Pont-y-clun gysylltiadau ymhellach i'r gorllewin. Byddwn yn gwneud hyn, rydym yn gwneud hyn oherwydd newidiadau rydym yn edrych arnynt mewn manau eraill yn y cymoedd. Ac unwaith eto, rhai sylwadau.

[01:26:10]

Yng Nghaerffili, fe edrychom ar nifer o faterion. Fe edrychom ar yr awydd i ddileu ward Nelson o Ferthyr, i leihau nifer yr etholaethau sy'n gorgyffwrdd ag ardal Cyngor Caerffili. Ond roeddem hefyd yn meddwl bod lle i wella cydlyniant y ffiniau. Felly, yn ein model ni, nid ydym wedi edrych ar etholaeth Caerffili Casnewydd, ond ar etholaeth Risga, Islwyn a Chasnewydd. Felly, dyma sut rydym ni'n credu y byddai etholaeth Castell-nedd, etholaeth Casnewydd yn edrych, yn gyfan gwbl o fewn ardal Cyngor Caerffili a chan dynnu Nelson i mewn, felly nid oes gennych ward amddifad mwyach yn etholaeth Merthyr. Mae tipyn o gefnogaeth i hyn mewn amryw wahanol ardaloedd ac mae'n debyg i'r gwrthgynnig a gyflwynwyd gan Wayne David ac aelodau eraill o'r Blaid Lafur leol, ond yn wahanol gan ei fod yn cynnwys, os af yn ôl, yn cynnwys ward Nelson a ward Argoed, nad oeddent yn eu cynnig nhw. Mae un gwahaniaeth bach arall na allaf ei gofio, ond byddaf yn amlinellu hwnnw yn ein cyflwyniadau ysgrifenedig.

O ran Gorllewin Casnewydd, mae hyn yn tynnu gweddill ardal Cyngor Caerffili i mewn nad yw wedi'i neilltuo i fannau eraill ac, yn y bôn, mae'n cysylltu Dyffryn Sirhywi sy'n rhedeg trwodd fel y brif edau sy'n cadw cydlyniant cymunedol yn yr ardal honno. Unwaith eto, rhai sylwadau o fannau eraill. Mae hyn yn cael effaith yn amlwg ac rydym bellach yn dechrau rhedeg hyn trwodd i weddill y cymoedd. Felly, trwy ddileu Nelson, mae hyn yn golygu y gellir ychwanegu Gogledd Aberaman




a De Aberaman at Ferthyr a Chynon sydd â chefnogaeth gymunedol eang, fel yr amlygwyd eisoes. Mae hefyd yn caniatáu i ni, trwy gymryd wardiau allan o Bontypridd gyda'r newid hwn a newidiadau eraill, ailgyflwyno Dwyrain a Gorllewin Tonyrefail, sy'n golygu nad yw'r rhain bellach wedi'u cysylltu ag etholaeth y Rhondda fel yr oeddent. Felly, mae hyn yn cadw, er nad yn ei chyfanrwydd, yn cadw llawer mwy o etholaeth Pontypridd fel y mae ac felly'n lleihau nifer aelodau'r cyhoedd sy'n profi'r newid yn weledol ac yn ymarferol. Unwaith eto, un sylw yn unig yw hwn fel enghraifft o beth arall sydd ar gael.

Fodd bynnag, mae ein prif wahaniaeth yn ymwneud â Phen-y-bont ar Ogwr a byddwn yn cyfeirio at Ben-y-bont ar Ogwr ei hun, ond yn ein cynlluniau diwygiedig, gallwn edrych ar Fro Ogwr a'r Rhondda hanesyddol, ac yn wir creu etholaeth sy'n edrych ar y ddau gwm hynny, fel bod gennych etholaeth Rhondda ac Ogwr, sy'n amlwg yn cyfleu'r tebygrwydd diwylliannol hirsefydlog o fewn y cymoedd ond hefyd yn eu dwyn at ei gilydd yn un etholaeth gydlynol. Ond, mae'r prif newidiadau rydym yn edrych arnynt yn ymwneud â Gorllewin De Cymru yn hytrach na Dwyrain De Cymru, neu Ganol De Cymru, ac mae hyn yn sicr yn ymwneud ag ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Bwriadwn i Ben-y-bont ar Ogwr edrych tua'r gorllewin yn hytrach na thua'r gogledd a'r dwyrain, a byddem yn cadw'r etholaeth bresennol yn gyflawn i raddau helaeth. Mae hyn o ganlyniad i'r newidiadau yn y ffiniau a oedd, er nad ydynt yn glir ar y sleid hon, yn hanesyddol, wedi bod o amgylch cyrion allanol Pen-y-bont ar Ogwr, ond yn y cynigion newydd gan y Comisiwn, maen nhw'n torri'n syth trwy gyrion gorllewinol yr ardal drefol mewn gwirionedd. Felly, unwaith eto, mae hyn yn ymwneud â chydlyniant a hunaniaeth a'i gwneud yn haws i ddinasyddion wybod pwy yw eu Haelod Seneddol yn hytrach na bod gan bobl ar ddwy ochr y stryd Aelod Seneddol gwahanol. Sylweddolaf nad yw hyn yn bosibl bob amser, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, ond mae cyfle ar gael yma, felly credwn y dylid achub arno. Cefnogir hyn gan nifer eithaf sylweddol o sylwadau gan breswylwyr yn yr ardal sy'n cyfeirio at natur wahanol iawn sedd Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl o gymharu â'r ffaith y gallant gerdded i ganol Pen-y-bont ar Ogwr, sori, Aberafan a Phorthcawl.

[01:31:45]

Os edrychwn, felly, ar Aberafan. Ar ôl colli Porthcawl, mae angen iddi fynd i rywle ac, yn yr achos hwn, rydym wedi edrych ar y cysylltiadau rhwng Bryn a Maesteg a Chymer a Maesteg, ac wedi dod i'r casgliad bod rhannau uchaf y Cwm i Faesteg, ac mae toriad rhesymegol islaw Maesteg, yn gweddu'n fwy taclus i etholaeth fan hyn. A thynnwn i mewn dwy o'r wardiau mwyaf dwyreiniol o ardal Cyngor Abertawe; St. Thomas sydd, yn ogystal â'r ochr hanesyddol, yn cysylltu ar draws Ffordd Fabian i ardal y brifysgol yng Nghoedffranc, felly rydym yn gweld cysylltiad rhesymegol yno. Ymhellach i fyny Afon Tywi, mae gan Fon-y-maen doriad naturiol rhesymegol hefyd gyda'r gymuned nesaf i'r gogledd. Rhai sylwadau ategol yw'r rhain, unwaith eto.

Ein prif wahaniaeth wrth ddelio ag Aberhonddu a Sir Faesyfed yw nad ydym yn cefnogi cysylltu Pontardawe Ystalyfera ag Aberhonddu a Sir Faesyfed. Nid oes cefnogaeth gymunedol i hynny yn yr ardal honno, ac mae nifer o gynghorau tref yn amlygu'r awydd i gadw etholaeth hanesyddol Castell-nedd. Rwyf wedi sylwi ar un cyflwyniad sy'n nodi bod cysylltiad â disgyblion o ardal Pontsenni Craig o Aberhonddu sy'n teithio i Ystalyfera ar gyfer addysg. Mae'n werth nodi mai'r



rheswm am hyn yw oherwydd nad oes ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg o fewn hanner deheuol Aberhonddu a Maesyfed, a bod yr etholwyr hyn yn mynd i lawr yno ar gyfer eu haddysg am y rheswm hwnnw. Ar y ffordd, maen nhw'n mynd heibio i ysgol uwchradd yn Ystradgynlais ac maen nhw'n agosach fyth i Aberhonddu. Felly, ni welwn unrhyw gysylltiad cymunedol y byddai hynny'n ei gefnogi. Yr hyn a welwn, fodd bynnag, yw nifer o wrthwynebiadau i hyn gan aelodau lleol, er eu bod yn cynnig datrysiadau gwahanol i'r broblem, o Blaid Cymru a'r Blaid Werdd.


Yr hyn rydym yn edrych arno, fodd bynnag, yw newidiadau mewn manau eraill. Trwy dorri'r cysylltiad arfaethedig ag ardal Castell-nedd Port Talbot, credwn ein bod nid yn unig yn torri'r cysylltiad ar draws rhanbarth Seneddol, ond hefyd yn galluogi cyfle i greu etholaeth Aberhonddu a Sir Faesyfed sy'n aros yn gyfan gwbl o fewn ardal un cyngor, ac rydym yn gwneud hyn trwy ymestyn Aberhonddu a Sir Faesyfed i fyny i ran ddeheuol Sir Drefaldwyn. Mae hyn, mewn ffordd sydd wedi'i haddasu ychydig, yn debyg iawn i'r cynigion a gyflwynodd y Comisiwn yn y ddau arolwg diwethaf, ond na roddwyd ar waith, a oedd yn ymestyn Aberhonddu a Sir Faesyfed i fyny bron cyn belled â'r Trallwng ar un achlysur. Fodd bynnag, mae cysylltiadau ysgol arwyddocaol iawn yn yr ardal hon. Mae Ysgol Uwchradd Llanidloes yn derbyn disgyblion o wardiau Maesyfed a Nantmel o Aberhonddu a Sir Faesyfed, ac mae Ysgol Uwchradd y Drenewydd yn ysgol uwchradd ar ddau safle mewn gwirionedd, gan fod y prif safle yn y Drenewydd ond ail safle yn Llanandras. Felly, byddai'r ddau ddalgylch ysgol hynny yn cael eu cyfnerthu'n fwy yn yr etholaeth ddeheuol, er y byddai disgyblion sy'n dod i mewn o'r Gogledd mewn dalgylch gwahanol, yn amlwg. Ac unwaith eto, sylwadau tebyg.

Os edrychwn ar symud rhannau o Sir Drefaldwyn i'r de, yna bydd angen iddynt fynd i'r gogledd yn rhywle. Fe ystyriom fodel cyfan lle'r edrychom tua'r gorllewin i gynnwys rhannau mawr o Feirionnydd a Dwyfor yn yr etholaeth hon, ond ar ôl ymgynghori ag aelodau yn yr ardal ogleddol, teimlwyd bod y cysylltiadau'n gryfach o lawer petaem ni'n cyfnerthu'r ardal o amgylch Wrecsam, yn enwedig Ponciau, Ecclesham, Johnstown, yn yr ardal honno lle mae nifer o wardiau sy'n edrych tuag at Riwabon ac sydd bron yn rhan o Riwabon, a'u dwyn ynghyd fel bod gennych glwstwr o amgylch Rhiwabon a'r ardal a gedwir.

[01:37:10]

Yna, fe edrychom ychydig ymhellach tua'r gogledd, a theimlwyd bod Rhuthun yn cyd-fynd ag Efenechtyd a Llanfair Dyffryn Clwyd, a bod eu lleoli yn yr etholaeth hon yn cryfhau hunaniaethau unigryw ardal wledig de Clwyd gyda dwy dref arwyddocaol â threftadaeth ddiwydiannol a dwy dref arwyddocaol sy'n fwy amaethyddol. Mae hyn, unwaith eto, yn codi nifer o faterion, rhai'n uniongyrchol a rhai'n anuniongyrchol, sy'n ymwneud â chysylltiadau lleol ac yn cryfhau cymunedau lleol.

Ar ôl symud rhai ardaloedd allan o etholaeth Wrecsam, mae hyn yn ein galluogi i fynd i'r afael â'r broblem arall rydym wedi'i hamlygu mewn ardal ryng-drefol sydd wedi arwain at nifer o ymatebion, sef cynnwys Mwynglawdd a Brymbo yn etholaeth Alyn a Glannau Dyfrdwy. Mae hyn yn cyfnerthu'r ddwy ward hynny yn Wrecsam, yn lleihau nifer yr Aelodau Seneddol y bydd rhaid i Wrecsam ryngweithio â nhw fel cyngor, a hefyd yn dileu dwy ward amddifad o etholaeth Alyn a Glannau



Dyfrdwy sydd mewn ardal cyngor gwahanol. Felly, mae'n bodloni rhai o'r cynigion hynny a'r nodau hynny a oedd gennym fel plaid yn y lle cyntaf. Er mwyn rhoi enghraifft i chi, unwaith eto; dyma ffin y ward a gynigiwyd yng nghynigion y Comisiwn, sydd unwaith eto'n torri trwy ardal drefol yr ydym bellach wedi'i thynnu i mewn i ffin sy'n wledig ei natur. Dyma sylwadau a gafwyd gan gynghorydd sir lleol a nifer o aelodau o'r cyhoedd.

Mae'n amlwg bod hyn yn cael ôl-ffeithiau a dyma'r diwygiadau i etholaeth Alyn a Glannau Dyfrdwy. Fe wnes i un newid yma ond ni allaf gofio beth ydyw. Ymddiheuraf am hynny. Os rhowch chi eiliad i mi, fe wiriaf fy nodiadau. Ie, yn yr achos hwn fe ystyriom ychwanegu ward Northop Hall o etholaeth arfaethedig Delyn i'r un hon. Ac roeddwn i'n meddwl bod gen i sleidiau nad ydynt yn bresennol yma sydd, unwaith eto, yn enghraifft, mae yn fy mhrif bapur. [sŵn ffôn] Ai fi yw hynny?

Gwryw anhysbys: Na, mae'n dod o fag draw fan hyn.

PR: O, fi yw e. Ewch â'r bag allan. [mae'n chwerthin] Popeth yn iawn, fe ddes i â chynifer o ddyfeisiau gyda fi, roeddwn i wedi anghofio diffodd y larwm ar un ohonynt. Yn yr achos hwn, mae gwahanu Northop Hall o Northup yn un syml yn yr ystyr ein bod wedi edrych ar aliniad y ffyrdd yno, ac maen nhw wedi'u rhannu gan y brif ffordd sy'n mynd tua'r gogledd yn yr ardal honno. Felly, mae'n creu ffin resymegol.

Felly, gan ddwyn popeth at ei gilydd, rydym wedi ceisio lleihau nifer yr etholaethau sy'n rhychwantu ffiniau cyngor. Rydym wedi llwyddo i gadw 17 o etholaethau sy'n dod o fewn ardal un cyngor, 13 sy'n rhychwantu dau gyngor a dim ond dau sy'n ymestyn ar draws tri. Rhai gwledig yw'r rhain yn bennaf.


Ac yna, yn olaf, gan edrych ar yr amrywiad o'r norm. At ei gilydd, rydym wedi cadw'r niferoedd yn agos iawn i'r targed etholiadol. Tynnwn sylw yn arbennig at Aberconwy, sy'n eithaf isel, ac rydym wedi gwneud hyn oherwydd daearyddiaeth yr ardal. Hefyd, yr etholaethau o amgylch Caerdydd lle mae maint y wardiau'n golygu ei bod yn anodd iawn dod â'r niferoedd mor agos i'r targed ag y byddem wedi hoffi. A dyna ddiwedd fy nghyflwyniad. Ac ni wasgaf yr un olaf rhag ofn bod gennych gwestiynau i mi.

Cadeirydd: Ga'i wirio gyda fy nghomisïynwyr cynorthwyol os..., Steve, oes gennych chi gwestiwn eglurhad?

[01:42:31]

SP: Oes, diolch. Mae gennyf ddau bwynt, mewn gwirionedd. A allech chi, yn gyntaf, a allech chi ymhelaethu ychydig yn fwy ar y sail resymegol dros gysylltu Ogwr â'r Rhondda? Ac yn ail, pwynt mwy cyffredinol, fe grybwyllloch fater aelodau seneddol yn rhyngweithio â sawl cyngor o bosibl, ond i ba raddau ydych chi'n credu bod hynny'n arwyddocaol o ystyried dyfodiad datganoli a'r ffaith bod y llwyth gwaith hwnnw'n cael ei rannu, o bosibl, gydag aelodau'r Senedd mewn rhai achosion?

PR: Iawn, o ran Ogwr a'r Rhondda, y brif sail resymegol iddo, mae'n ddrwg gen i ddweud, yw gwneud i'r niferoedd weithio. Pan fyddwch yn cymryd, pan fyddwch yn ceisio creu ffin o fewn Pen-y-bont ar Ogwr ei hun nad yw'n rhannu'r ardal drefol,



pan fyddwch yn edrych ar symud Aberhonddu a Sir Faesyfed tua'r gogledd er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon yn ardal Castell-nedd, mae'n allweddol dod o hyd i rywfaint o gydlynad. Ac un o'r materion a godwyd yn gyhoeddus yn gynnar pan ryddhawyd eich cynigion oedd bod pobl yn dweud bod hyn yn chwalu Ogwr, bod hyn yn dileu Ogwr fel hunaniaeth hanesyddol. Ac fe gydnabuom hynny ac roeddem yn teimlo bod cydnabod endid Cwm Ogwr a'i gysylltu â'r Rhondda gyda thraddodiadau glofaol yn y ddwy ardal, yn cynrychioli ymateb cydlynol i her, her rifyddeg, gwneud i'r rhifau weithio. Felly, mae'n gydbwysedd o bragmatiaeth, ond cyflawni pragmatiaeth sy'n cynnwys rhywbeth sy'n adnabyddadwy yn y byd go iawn, yn hytrach na dileu ward yma ac acw heb feddwl am gymuned.

SP: lawn.

PR: Roedd ail gwestiwn. Y...

SP: Llwyth gwaith Aelodau Seneddol...

PR: Aelodau Seneddol ac.... Un o'r pethau allweddol, yn fy marn i, yw sicrhau bod staff Aelodau Seneddol, yn arbennig, yn gallu ffurfio perthnasoedd cryf â'r cynghorau ac aelodau'r Senedd yn yr un ardal. Os gallwch leihau nifer y cynghorau y mae'n rhaid i Aelod Seneddol ryngweithio â nhw, rydych yn lleihau nifer y cysylltiadau unfath y mae'n rhaid i'w staff eu gwneud. Mae hyn yn llai o gymharu â Lloegr lle mae gennych un lefel o gynrychiolaeth seneddol yn unig. Yng Nghymru, mae gennych aelodau'r Senedd yn ogystal, a fyddai'n gweithredu gydag aelodau o'r cyhoedd hefyd ar faterion sy'n ymwneud â Senedd Cymru. Ond teimlaf, unwaith eto, ei bod yn ymwneud ag ymarferoldeb o ran datblygu perthnasoedd, ond hefyd o ran cynghorau pan fydd rhaid iddynt gynhyrchu dogfennau a dwyn pobl at ei gilydd, bydd lleihau nifer yr Aelodau Seneddol maen nhw'n gweithio gyda nhw o fudd i'w staff hefyd. Felly, yn y bôn..., mae'n ymwneud â cheisio lleihau nifer y rhyngweithiadau sy'n angenrheidiol i drefnu cyfarfod cydlynol, bron.

SP: Diolch.

Cadeirydd: Diolch. Andrew? Andrew, oes gennych chi... hoffech chi ddod â'ch microffon i lawr ychydig?

AC: A wnewch chi fy atgoffa ble mae ffin ddeheuol Aberhonddu a Maesyfed? Doeddwn i ddim wedi llwyr ddilyn ble ydyw.


[01:46:26]

PR: Ni fyddai ffin ddeheuol Aberhonddu a Maesyfed yn newid o gymharu â'r hyn ydyw ar hyn o bryd.

AC: Felly, fe allwch gadw'r ffiniau etholaethau presennol?

PR: Y ffin etholaeth bresennol, ie.

Cadeirydd: Diolch.



AC: Roeddwn i'n meddwl tybed, mae'n gwestiwn tebyg i'r cwestiwn ynghylch Ogwr rydych newydd ei ateb, beth yw'r sail resymegol dros roi St. Thomas a Bon-y-maen, sydd yn Rhanbarth Dwyrain Abertawe, os gallaf eu galw felly, yn Aberafan?

PR: Mae elfen rifyddeg iddo ond mae hefyd..., yn fy marn i, mae cysylltiad gweledol, os nad gwirioneddol, gan fod Abertawe'n ymestyn tua'r dwyrain i ardal Castell-nedd Port Talbot ar hyd Ffordd Fabian. Rydych wedi gweld datblygiad y brifysgol ar hyd y ffordd honno, sy'n dod o fewn Castell-nedd Port Talbot yn hytrach nag Abertawe, mewn gwirionedd. Felly, mae cysylltiadau yno, a hefyd mae gennych gysylltiad amlwg yr afon fel llinell rannu naturiol, ac os ydych yn symud wardiau canol y ddinas, Uplands, os ydych yn eu symud tua'r gorllewin, mae hynny'n gwneud rhaniad rhesymegol ac yn helpu i gydbwysu rhifyddeg dod â'r wardiau yng Nghastell-nedd i mewn i Gastell-nedd; y wardiau a oedd wedi'u neilltuo i Aberhonddu a Sir Faesyfed. Felly, mae'n gyfuniad, unwaith eto, o rywfaint o gysylltiad clir ar hyd glan y môr yn creu Bae Abertawe cydlynol i'r dwyrain o Afon Tywi ac angen pragmatig i gydbwysu'r niferoedd i wneud i bopeth weithio.

AM: Na, does gen i ddim cwestiynau, na.

Cadeirydd: Iawn, rwy'n hapus i agor hyn i'r..., unrhyw un. Aelodau'r cyhoedd? Na? Gwych. Diolch.

PR: Diolch.

Cadeirydd: Fe gawn ni'r ddarllenfa wedi'i diheintio ac yna fe gawn ni'r siaradwr nesaf, Roger Pratt, o'r Blaid Geidwadol.

SP: Diolch.

Cadeirydd: Diolch, Roger.

AM: Oes gennych chi gyflwyniad hefyd?


RP: Oes. Ie, Ac, wel, mae gennych chi gopi ohono o'ch blaen.

Gwryw anhysbys: O, rwy'n gwybod [anghlywadwy - 1:49:39] gweld y sgrin.

Cadeirydd: Roger, mae'n 10 munud wedi 10, felly, drosodd i chi.

[01:49:49]

RP: Iawn. Bore da. Diolch yn fawr iawn a diolch i'r Comisiwn am yr holl waith caled maen nhw wedi'i wneud ar hyn. Felly, mae'r cyflwyniad hwn yn ategu ein cyflwyniad ysgrifenedig, sef cyfeirnod 9809 ac, yn amlwg, rydym yn cefnogi dyrannu 32 o seddau i Gymru, y mae un ohonynt, wrth gwrs, wedi'i diogelu bellach, sef Ynys Môn. Felly, fe aeth y Comisiwn, ac yn wir ein hymateb, drwy'r etholaethau yn nhrefn yr wyddor. Y tro hwn, ac yn wir pan fyddwn yn ymateb yn ddiweddarach, rydym yn mynd i wneud hynny yn ôl awdurdodau lleol mewn grwpiau oherwydd dyna'r ffordd hawsaf o'i wneud, yn fy marn i. Felly, fe allwch weld bod gennym ni grŵp Gwent, yna grŵp Canol a De Morgannwg. Nawr, o dan gynigion y Comisiwn, mae'r ddau hyn wedi'u cyfuno mewn gwirionedd, ond maen nhw wedi cyfuno dim



ond oherwydd ward Nelson, yr ydym wedi clywed amdani, a byddwn yn datrys y broblem benodol honno, yn amlwg. Felly, y rhai eraill yw Gorllewin Morgannwg ac Aberhonddu a Maesyfed, Dyfed ac yna Gogledd Cymru a Sir Drefaldwyn. Felly, fe edrychwn arni yn ôl awdurdod lleol oherwydd dyna'r ffordd rwyddaf o'i wneud, yn fy marn i, a sylwais fod nifer o bobl eraill wedi gwneud hynny.

Felly, yn ein holl drafodaethau, fe wnaethom edrych a seilio'r hyn a wnawn, a'r hyn y mae Comisiwn yn ei wneud a'r hyn y mae unrhyw wrthgynigion yn ei wneud, ar sail y rheolau. Yn amlwg, mae'n rhaid i'r holl etholaethau, heblaw am Ynys Môn, fod o fewn terfyn y cwota, ond nid oes rhaid i chi ddod mor agos â phosibl at derfyn y cwota. Yna, mae angen i chi edrych ar y ffactorau eraill, ac mae'r Comisiwn yn egluro'n bendant dyna beth maen nhw'n ei wneud. Felly, rydym wedi ystyried y mater ar sail y rheolau, yn enwedig y ffiniau llywodraeth leol, etholaethau presennol, a chysylltiadau lleol. Credaf mai dyna'r tri pheth pwysicaf oll.

Felly, os edrychwn yn gyntaf ar Gwent, sy'n rychwantu pum awdurdod lleol Blaenau Gwent, Casnewydd, Caerffili, Sir Fynwy a Thorfaen, rydym yn cefnogi pump o'r etholaethau hynny yn eu cyfanrwydd. Nid ydym yn cefnogi Islwyn, ond hynny dim ond o ran ychwanegu un ward at Islwyn, sef ward Nelson o Ferthyr Tudful ac Aberdâr. Felly, mae cynnwys ward Nelson yn Islwyn yn sicrhau bod Merthyr Tudful a Rhymni yn cynnwys wardiau o ddau awdurdod lleol yn hytrach na thri. Mae hefyd yn sicrhau bod bwrdeistref sirol Caerffili wedi'i rhannu rhwng tair etholaeth yn hytrach na phedair ac mae cysylltu Nelson yn ôl â phedair ward arall Caerffili sydd yn yr un etholaeth ar hyn o bryd yn adfer cysylltiadau lleol, yn enwedig gyda, rhwng Nelson ac Ystrad Mynach. Ac os edrychwn ar y ddau ffactor hynny, yn amlwg, mae'r rheiny'n dod o dan Reol Pump Un B, a Phump Un D. Felly, mae'r rheiny'n bwyntiau pwysig pam y credwn y dylai Nelson gael ei chadw o fewn y grŵp hwnnw.

[01:53:16]

Mae cryn gefnogaeth i etholaethau cyffiniol Sir Fynwy a Thorfaen, gan gynnwys yr aelodau seneddol sy'n cynrychioli'r etholaethau presennol hynny sydd wedi'u newid. Mae hynny'n welliant ar y sefyllfa bresennol i'r ddau aelod seneddol hynny, mewn gwirionedd, ac mae'r ddau yn ei gefnogi. A chredaf o ran gwrthgynigion Cymru gyfan, dim ond y Blaid Werdd a Phlaid Cymru sy'n eu rhannu mewn gwirionedd. O ran Sir Fynwy, sylwn fod y Blaid Lafur yn amlwg yn cefnogi Sir Fynwy, ac felly hefyd y Democratiaid Rhyddfrydol. A'r pedwar grŵp yng Nghyngor Sir Fynwy. Mae Cynrychiolaeth 9893, rwy'n credu, yn arbennig o arwyddocaol oherwydd ei bod yn dangos bod y pedair plaid wleidyddol..., pob un o'r pedwar grŵp, hynny yw y Ceidwadwyr, y Blaid Lafur, y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Annibynwyr, i gyd yn cefnogi Sir Fynwy. Felly, mae cefnogaeth unfrydol o fewn Sir Fynwy i'r cynnig hwn ac mae cryn gefnogaeth i gadw Blaenau Gwent yn gyflawn a'i chysylltu â Rhymni; er enghraifft, yr Aelod Seneddol Llafur, Nick Smith, a dau wrthgynnig yn unig sy'n rhannu'r awdurdod lleol hwnnw mewn gwirionedd, awdurdod lleol bach iawn. Mae nifer o wrthgynigion yn dychwelyd Nelson i Islwyn yn hytrach na'i bod yn ward amddifad. Fe siaradom am wardiau amddifad. Mae'r ward hon yn ward amddifad glasurol y gellir ei dychwelyd i etholaeth Islwyn.

Mae rhywfaint o gefnogaeth i etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili y Comisiwn, ond mae cryn wrthwynebiad, yn amlwg, ac mae gwrthgynnig




penodol gan yr Aelod Seneddol Llafur dros Gaerffili, Wayne David, sy'n creu sedd Gorllewin Casnewydd a Threcelyn. Credwn fod hyn yn waeth o ran cysylltiadau ac yn waeth o ran symud etholwyr. Sylwn yng nghyflwyniad Mr David ei fod yn cwyno bod Caerffili yn cael ei rhannu rhwng pedair. Mae'n dal i'w rhannu rhwng tair gan nad yw'n mynd i'r afael â mater Nelson, a chredwn mai'r rhan waethaf o rannu Caerffili yw mater Nelson. Felly, ei gynnig ef a'n cynnig ni yw tair. Mewn gwirionedd, mae'n waeth o ran Islwyn ac yn wir, o ran y cynnig hwnnw, byddem yn dadlau bod gan Argoed a Phenmaen gysylltiadau â'r Coed-duon, sy'n gysylltiadau o bwys sy'n cael eu torri gan y cynnig hwnnw, a nodwn, yn amlwg, gefnogaeth Chris Evans, yr Aelod Seneddol Llafur dros Islwyn, ynghyd ag aelod y Senedd dros Islwyn a'r Blaid Lafur. Mae llythyr Chris Evans yn dweud bod y Blaid Lafur yn Islwyn yn cefnogi etholaeth Islwyn yn unfrydol. Mae cefnogaeth i etholaeth Dwyrain Casnewydd, sy'n gyfan gwbl o fewn awdurdod Casnewydd, gan gynnwys gan yr Aelod Seneddol, yr Aelod Seneddol Llafur, sy'n dweud ei bod yn ei derbyn â chalon drom iawn. Ond, yn amlwg, mae hi'n dangos bod cysylltiadau o fewn Casnewydd yn lle bod rhaid iddi gynrychioli dau awdurdod gwahanol, fel y mae'n ei wneud ar hyn o bryd. Felly, cefnogwn yr ardaloedd hyn yn gryf.

Felly, gadewch i ni symud i Ganol a De Morgannwg sy'n rhychwantu awdurdodau lleol Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Caerdydd a Bro Morgannwg. Cefnogwn gynigion y Comisiwn yn eu cyfanrwydd. O ran y Rhondda, ni sylwom ar lawer o wrthwynebiadau i'r Rhondda yn y cynrychiolaethau a gawsom. Nid ydym yn cefnogi'r saith sedd arall, ond nid ydym yn gwneud newidiadau mawr i'r saith sedd hynny. Y cyfan rydym yn ei wneud, mewn gwirionedd, yw symud 10 ward i gyd yn yr ardal benodol hon.

Felly, rydym yn rhoi'r gorau i 10 ward sydd wedi'u rhannu. O ran Caerdydd, nid oes llawer o gynrychiolaethau o Gaerdydd o gymharu ag ardaloedd eraill o'r wlad. Ond mae hynny'n rhannol oherwydd bod llawer o gynrychiolaethau o Bont-y-clun, Ffynnon Taf a Dinas Powys, sef y tair ward nad ydynt wedi'u cysylltu â Chaerdydd ar hyn o bryd sydd wedi'u cysylltu â Chaerdydd, a dyna ble mae'r gwrthwynebiadau ac mae'n amhosibl peidio â chael un o'r wardiau hynny. Ond dychwelwn ddwy o'r wardiau i'w hawdurdod lleol presennol, felly rydym yn gwella'r sefyllfa yno.

[01:58:05]

Felly, dyna ein mapiau o'r hyn y mae'r Comisiwn yn ei wneud a'r hyn rydym ni'n ei wneud. Ymddiheuraf, o ran map y Comisiwn, rwy'n credu fy mod wedi rhoi Llandaf a Gogledd Llandaf gyda'i gilydd, ac ymddiheuraf am hynny [mae'n chwerthin]. Dylai'r ddau yna fod ar wahân, er nad ydynt felly. Felly, dyma'r dewisiadau amgen sydd gennym yn ne'r ardal honno, a dyma'r dewisiadau amgen sydd gennym o ran y rhan ogleddol, yn enwedig rhan Rhondda Cynon Taf, ac fe welwch Nelson yn dychwelyd i Gaerffili ac Aberaman yn symud i Ferthyr Tudful ac Aberdâr. Felly, rydym yn lleihau nifer y seddau ym Mwrdeistref Caerffili o bedair i dair, rydym yn lleihau nifer y seddau ym Mwrdeistref Rhondda Cynon Taf o bump i bedair, rydym yn lleihau nifer yr ardaloedd cyngor sydd wedi'u cynnwys yng Ngogledd Caerdydd o ddwy i un, felly mae etholaeth arall yn gyfan gwbl o fewn Caerdydd. Rydym wedi lleihau nifer yr ardaloedd cyngor sydd wedi'u cynnwys ym Merthyr Tudful ac Aberdâr o dair i ddwy. Felly, mae hynny i gyd yn cydymffurfio'n llwyr â Rheol Pump Un B.



Felly, gwnaethom adfer Dinas Powys i Fro Morgannwg, gan olygu ei bod yn etholaeth sydd heb newid. Dyma'r unig etholaeth yng Nghymru sydd â'r nifer gywir o etholwyr a chredwn ei bod yn iawn, felly, i'w gwneud yn etholaeth sydd heb newid, gan gydymffurfio â Rheol Pump Un C. Fe sylwch hefyd fod llawer o wrthwynebiadau i Ddinas Powys yn cysylltu â Chaerdydd, ac yn dangos bod cysylltiadau â'r Barri a chysylltiadau â Wernfawr.

Felly, o dan gynnig y Comisiwn, nid oes cysylltiad tir rhwng y Sblot a Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth. Felly, credaf fod hyn yn rhywbeth, credaf fod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi'i amlygu yn eu cyflwyniad, ac mae eraill wedi'i amlygu hefyd. Felly, yn y canllaw, mae'n Baragraff 315, yn y llyfryn, mae'n Baragraff 23, peidio â chynnwys rhannau datgysylltiedig. Felly, un o nodau'r Comisiwn yw peidio â chynnwys rhannau datgysylltiedig. Credwn fod hyn yn rhan ddatgysylltiedig a dyna pam rydym wedi'i rhoi at ei gilydd. Felly, os edrychwch ar y Sblot a Trowbridge ar y map, fe allwch weld nad oes cysylltiad tir rhwng y Sblot a Trowbridge, ond trwy gynnwys Rhymni rydych yn gwneud dau beth; rydych yn sicrhau bod y cysylltiad hwnnw rhwng y Sblot a Trowbridge; ac mae gennych etholaeth, sef yr etholaeth fwyaf yng Nghymru, yr unig un uwch na'r cwota, felly yr hyn rydych yn ei wneud yw sicrhau bod yr etholaeth honno'n cynnwys wardiau o'r etholaeth bresennol yn unig. Felly, mae'n cydymffurfio llawer mwy â Rheol Pump Un C.

Rydym yn uno Llandaf a Gogledd Llandaf. Sylweddolaf ein bod yn torri cysylltiad yr afon fan hyn, ond mae Llandaf a Gogledd Llandaf yn mynd gyda'i gilydd yn amlwg, ac mae nifer o wrthgynigion yn awgrymu y dylai Llandaf a Gogledd Llandaf fynd gyda'i gilydd. Ac rydym wedi ychwanegu Glan yr Afon at Ganol Caerdydd. Unwaith eto, derbyniwn fod afon rhyngddynt, ond nid yw afonydd o reidrwydd..., gall afonydd uno yn ogystal â rhannu, ac yn yr ardal ganolog hon o Gaerdydd credwn fod y rhain yn mynd gyda'i gilydd. Ac rydym, fel y Democratiaid Rhyddfrydol, wedi rhoi Llanrhymni gyda Chaerdydd, gyda Gogledd Caerdydd. Ac rydym yn gwybod bod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn awgrymu cyfuno Llanrhymni â chymuned Pentref Llanelwyr, felly bydd hyn yn dda yn y dyfodol, er na allwch ystyried y wardiau sy'n dod i rym yn yr etholiadau a fydd yn digwydd ym mis Mai. Bydd yn golygu bod y ddwy ardal hyn gyda'i gilydd yn y dyfodol. Mae cefnogaeth gref iawn dros ychwanegu Aberaman at Ferthyr Tudful, a nodwn y cynrychiolaethau hynny a dychwelwn ward Ffynnon Taf o Rondda Cynon Taf i Bontypridd. Felly, dim ond un etholaeth sydd gennym sy'n croesi rhwng Caerdydd a Rhondda Cynon Taf, felly rydym yn gwella'r cysylltiadau yno.

[02:02:47]

Felly, mae rhai cynigion yn cynnig sedd Rhondda ac Ogwr. Maen nhw'n gyfyngedig iawn. Awgrymwn fod cysylltiadau cyfyngedig iawn rhwng y ddwy ardal hyn, a chredwn mai'r Rhondda, fel y'i cynigir gan y Comisiwn, yw'r Rhondda orau y gallwch ei chael, ac fe gefnogwn hynny. Nid ydym yn nodi llawer o gynrychiolaethau sy'n dadlau nad yw'r Rhondda yn iawn fel etholaeth.

Felly, mae rhai, mae'n flin gennyf, rhai etholae..., cynrychiolaethau'n creu sedd y Barri a Phenarth. Mae Plaid Cymru yn gwneud hyn, ond, mewn gwirionedd, maen nhw'n rhannu Penarth trwy wneud hynny. Felly, mae Penarth yn cael ei rhannu yn eu cynigion gan gysylltu yng ngorllewin Bro Morgannwg â naill ai Pen-y-bont ar



Ogwr neu Rondda Cynon Taf. Credwn fod hyn yn tarfu'n ddiangen. Ni welwn ddiben iddo. Fel y dywedwn, Bro Morgannwg yw'r unig etholaeth yng Nghymru sydd o'r maint iawn. Nid ydym yn gwneud unrhyw newid i'r Comisiwn, dim ond dileu Dinas Powys, ond credwn fod Dinas Powys yn gallu dod yn ôl ac rydym wedi dangos ffordd o wneud hynny.


Felly, os symudwn ymlaen i Orllewin Morgannwg a Phowys. Felly, awdurdodau lleol Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr a Phowys..., rhan Aberhonddu a Maesyfed o Bowys, credwn ei bod yn hollol iawn eich bod yn cymryd Powys ac yn edrych arni o safbwynt y tair sir hanesyddol; felly mae Aberhonddu a Maesyfed yn mynd i'r de ac mae Trefaldwyn yn mynd i'r gogledd. Mae'r niferoedd yn gweithio'n well yn yr achos hwnnw mewn gwirionedd, ac rydym yn llwyr gefnogi etholaeth Aberhonddu a Maesyfed fel y'i cynigiwyd, a byddaf yn dychwelyd i hynny mewn ychydig.

Cefnogwn y ffordd y mae'r Comisiwn wedi cyfansoddi'r tair sedd hyn, ond anghytunwn ag enwau'r seddau. Mae llawer o gynrychiolaethau ynglŷn â Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd. Credaf, mewn gwirionedd, fod mwy o gynrychiolaethau sy'n gwrthwynebu cysylltu Castell-nedd ag Abertawe na rhai sy'n gwrthwynebu cysylltu Castell-nedd ag Aberhonddu a Maesyfed. Mae mwy ynglŷn â hynny mewn gwirionedd, ac rydym yn cydymdeimlo, ond credwn fod gan Gastell-nedd gysylltiad ag Abertawe mewn rhyw ffordd. Ond credwn y dylai Castell-nedd gael ei chydabod oherwydd Castell-nedd yw'r rhan fwyaf o'r etholaeth honno. Dyna'r rhan fwyaf ohoni i raddau eithaf sylweddol, a chredwn, er na fyddai'n bodloni pobl yn llwyr, byddent yn hapusach yng Nghastell-nedd petai'n cael ei alw'n Gastell-nedd a Gorllewin Abertawe yn hytrach nag Aber..., Castell-nedd ac... Fe ddylai, mae'n flin gennyf, mae hynny'n gamgymeriad, fe ddylai fod yn Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe, nid Castell-nedd a Gorllewin Abertawe.

A Gŵyr. Yn yr un modd, Gŵyr yw'r rhan fwyaf, a nodaf yn arbennig y gefnogaeth i gyfansoddiad yr etholaeth ond dymuniad i newid yr enw gan Gymdeithas Gŵyr, sef cynrychiolaeth 9429. Mae Cymdeithas Gŵyr yn awgrymu y dylai fod..., mae ganddynt wahanol ddewisiadau amgen, ond dylai Gŵyr ddod yn gyntaf yn yr enw. A chredwn y dylai Canol a Gogledd Abertawe, sy'n cynnwys ardal wledig eithaf mawr, fod yn etholaeth fwrdeis..., etholaeth sirol yn hytrach nag etholaeth fwrdeistrefol. Nid ydym yn cefnogi seddau Aberafan, Porthcawl a Phen-y-bont ar Ogwr, ond byddwn yn siarad am aildrefnu hynny.

[02:06:14]

Felly, nid yw cynigion y Comisiwn a'n cynigion ni yn effeithio ar unrhyw..., nid ydynt yn cael unrhyw ôl-ffeithiau ar unrhyw etholaethau eraill. Y cyfan rydym yn ei wneud yw aildrefnu'r ddwy etholaeth hyn fel eu bod yn etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr a Phort Talbot ac Abera..., sedd gyda Maesteg, beth bynnag..., os caiff ei galw'n Bort Talbot, iawn, beth bynnag. A, a, a Maesteg, beth bynnag. Ond, yn y bôn, aildrefnu'r ddwy yna. A mantais hynny, rwy'n credu yr af i at hynny mewn gwirionedd, gan ein bod ni newydd gael..., ac yna mynd yn ôl at Aberhonddu a Maesyfed. Felly, 18,259 o etholwyr. Mae mwy o etholwyr yn cael eu cadw yn eu hetholaeth bresennol oherwydd ein bod ni wedi rhoi Pen-y-bont ar Ogwr gyfan yn ôl at ei gilydd eto, felly mae'n etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr. Felly, mae'n cydymffurfio llawer mwy â Rheol Pump Un C o ran etholaeth bresennol, a chymerwn Borthcawl. A nodwn fod nifer fawr iawn o gynrychiolaethau. Credaf, yn ne Cymru, mae'n amlwg bod gan Fangor fwy, ond yn ne Cymru, mae mwy o




gynrychiolaethau ynglŷn â'r ardal hon nag unrhyw le arall. Mae rhai yn dod o Bort Talbot sy'n gwrthwynebu, mae rhai yn dod o Borthcawl sy'n gwrthwynebu, mae nifer fawr yn dod o Ben-y-bont ar Ogwr sy'n gwrthwynebu, ac maen nhw'n dangos yn weledol sut mae cysylltiadau'n cael eu torri trwy rannu Pen-y-bont ar Ogwr o dan gynigion y Comisiwn. Felly, rydym yn ei haduno ym Mhen-y-bont ar Ogwr a nodwn sylwadau Jamie Wallace ar hynny hefyd. Felly, dyna Aberafan a Phen-y-bont ar Ogwr.

Felly, beth hoffwn ei wneud yw mynd yn ôl at Aberhonddu a Maesyfed. Felly, mae'r holl wrthgynigion yn cytuno y dylai fod sedd Aberhonddu a Maesyfed, ond yn anghytuno i ble y dylai'r sedd hon ymestyn iddo. Mae rhai yn ei hymestyn i Sir Drefaldwyn ac mae eraill yn ei hymestyn i Sir Fynwy. Credaf mai dyna'r ddau brif ddewis amgen a gynigir, er bod gwrthgynnig gan Blaid Lafur Castell-nedd sydd y tu allan i'r cwmpas. Mae'n awgrymu y dylai Aberhonddu a Maesyfed gael ei chadw ar ei phen ei hun ac y dylai Castell-nedd fod yn 90,000, felly, yn amlwg, ni allwch gymryd unrhyw sylw o hynny. Ac er bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cwyno a gwrthwynebu, nid yw'n cyflwyno gwrthgynnig. Ond mae rhai wrthgynigion, gan gynnwys gan y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru. Mae Plaid Cymru a'r Blaid Werdd yn ei hymestyn i Sir Fynwy, ac mae'r Democratiaid Rhyddfrydol ac eraill yn ei hymestyn i Sir Drefaldwyn. Nawr, mae Sir Drefaldwyn, fel y dywedodd gynrychiolydd o Blaid Cymru, rwy'n credu, yn sir hanesyddol sydd wedi bod yn sedd seneddol ers blynnyddoedd lawer. Nid wyf yn siŵr p'un ai honno yw'r sedd hynaf, ond pan fydd Craig Williams, rwy'n credu y bydd yn dod i Aberystwyth, byddaf yn gofyn iddo roi gwybod i chi p'un ai honno yw'r etholaeth hynaf yn y wlad. Ond mae'n sir hanesyddol iawn yn draddodiadol, a byddem yn gwrthwynebu rhannu Sir Drefaldwyn. Nodwn fod eithaf tipyn o lythyrau sy'n cefnogi cadw Sir Drefaldwyn yn gyfan yn y cynrychiolaethau. Ond cyfeiriwyd at y ffaith bod y Comisiwn, y tro diwethaf, o ran Sir Drefaldwyn, wedi cynnig rhannu Sir Drefaldwyn. Roedd y niferoedd yn wahanol, roedd nifer y seddau'n wahanol, roedd yr amgylchiadau'n wahanol. Ac roedd bonllef o wrthwynebiad o Sir Drefaldwyn yn yr arolwg hwnnw, ond ni allai'r Comisiwn, na ninnau ychwaith, ddod o hyd i ddatrysiad amgen. Mae yna ddatrysiad amgen y mae'r Comisiwn wedi dod o hyd iddo. Felly, nid ydym yn credu y dylai Sir Drefaldwyn gael ei rhannu. O ran Sir Fynwy, mae gennyf fuddiant personol. Rwy'n byw yn y Fenni, er nid. Fy nghyfeiriad post yw'r Fenni, ond rwy'n byw yn Llanelli Hill mewn gwirionedd, felly byddai Plaid Cymru yn fy symud i Aberhonddu a Maesyfed, byddai'r Blaid Werdd yn fy symud i Aberhonddu a Maesyfed ond yn fy ysgaru o'r Fenni lle mae ein cysylltiadau agosaf. Ond mae Plaid Cymru yn rhannu Sir Fynwy yn dair ac nid ydym yn credu bod hynny'n hyfyw. Mae hynny'n waeth na'r sefyllfa bresennol. Ar hyn o bryd, mae llawer o gefnogaeth i Sir Fynwy, fel rydym wedi'i ddangos, ac nid ydym yn credu ei bod yn iawn i chwala datrysiad synhwyrol iawn er mwyn ei gysylltu fel etholaeth sy'n cydffinio â'r cyngor.

[02:11:16]

Nawr, nodwn fod cefnogaeth i gynnig y Comisiwn gan Faye Jones, yr Aelod Seneddol dros Aberhonddu a Maesyfed, sy'n siarad yng ngwrandawriad Abertawe rwy'n credu, a chan y Blaid Lafur. Tynnaf eich sylw at wrthgynnig o Gastell-nedd. Nid ydym yn cefnogi'r gwrthgynnig hwnnw i gyd, ond mae'r gwrthgynnig hwnnw'n dod o rywun yng Nghastell-nedd, 10... 170... 10070 – ac mae'r unigolyn hwnnw'n dangos y cysylltiadau cryf rhwng Ystradgynlais ac Ystalyfera. Mae camenwad ynglŷn ag Aberhonddu a Maesyfed, a gallaf lwyr ddeall pam mae pobl yn Ystalyfera, Pontardawe, rhan o Gastell-nedd yn dweud eu bod wedi cael eu cysylltu ag Aberhonddu. Mae pobl yn dweud bod rhaid iddynt fynd i Aberhonddu ar gyfer eu




Haelod Seneddol. Ond ni fydd rhaid iddynt. Y dref fwyaf yn etholaeth bresennol Aberhonddu a Sir Faesyfed yw Ystradgynlais. Dyna'r dref fwyaf yn Aberhonddu a Maesyfed ar hyn o bryd. Ac Ystradgynlais, nid wyf yn credu bod unrhyw un yn amau bod gan Ystradgynlais gysylltiadau da ag Ystalyfera a chyda Phontardawe. Yn wir, os dangoswn..., mae cysylltiadau rhwng Ystradgynlais, Ystalyfera a Phontardawe, maen nhw wedi'u cysylltu ar hyd yr A4967 ac maen nhw wedi'u cysylltu ar hyd Afon Tawe. Credaf mai un o'r problemau yw enw etholaeth Aberhonddu a Maesyfed, ac mae nifer o bobl yn dweud, wel, rydyn ni'n credu y dylai'r ardal gael ei chydabod yn yr enw. Ac o gofio'r ffaith, o ran Ystradgynlais ac Ystalyfera, y bydd o leiaf draean o'r etholaeth yn y rhan honno mewn gwirionedd ac ni fyddai unrhyw Aelod Seneddol yn ei hanwybyddu, byddai Aelod Seneddol yn cynnal cymorthfeydd yn yr ardal honno ac mae'n eithaf posibl y bydd gan Aelod Seneddol swyddfa yn yr ardal honno. Felly, ni fyddai Ystalyfera, Pontardawe yn cael eu gwthio i'r ymylon drwy hynny, a chredaf y byddai'n werth chweil, ac fe siaradwn fwy am hyn yn Aberystwyth, ond byddai'n werth chweil edrych ar newid enw Aberhonddu a Maesyfed, o bosibl. Credaf, drwy ychwanegu'r ardaloedd hynny, fod camenwad ynglŷn â natur yr etholaeth, a chredaf y gallech gael enw a allai..., rwy'n credu bod rhywun wedi awgrymu Cwmtawe neu Gwm Tawe Uchaf, neu beth bynnag, wedi'i ychwanegu at Aberhonddu a Maesyfed. Credaf fod achos cryf dros hynny, a byddem yn sicr yn ei gefnogi. Mae'n amlwg bod y cynigion yn Sir Drefaldwyn yn rhannu'r Drenwydd a Threfaldwyn, ac yn torri cysylltiadau lleol ac, yn amlwg, rwyf wedi sôn yn helaeth am Sir Fynwy. Felly, rydym wedi delio â hynny.

Felly, nodwn y cynigion gan y Blaid Lafur i aildrefnu'r sedd, a gwrthgynigion eraill, ac rydym wedi cael gwrthgynnig gan y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd. Credwn fod y cynigion hyn yn torri cysylltiadau. Mae cynnig y Blaid Lafur yn rhannu Cyngor Cymuned y Mwmbwls, ac mewn arolygon blaenorol bu llawer o gefnogaeth dros uno Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn un etholaeth, a hynny oherwydd bod ward Mayals yn rhan o'r cyngor cymuned, ac mae'r wardiau eraill, Ystumllwynarth, ac ati, o fewn Gŵyr ar hyn o bryd. Felly, un o gryfderau cynnig y Comisiwn yw eu bod yn uno'r holl ardaloedd cyngor cymuned, y mae'r Mwmbwls yn un ohonynt. Maen nhw'n gwneud un yn ne-ddwyrain Cymru hefyd. Felly, maen nhw'n uno'r Mwmbwls. Credwn fod cefnogaeth gref i hynny a dyna pam nad ydym yn cefnogi dewis amgen y Blaid Lafur, ac mae cysylltiadau clir rhwng Gorseinon a Chasllwchr a Gŵyr, a fyddai'n cael eu torri o dan gynigion eraill.

[02:15:12]

Felly, os symudwn i Ddyfed, sy'n rhychwantu Ceredigion, Sir Benfro, a Sir Gaerfyrddin, rydym yn cefnogi seddau Ceredigion Preseli a Chanol a De Sir Benfro, a nodwn hefyd fod y Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi'r cynnig hwn. Credwn mai dyma'r ffordd resymegol o ymestyn etholaeth Ceredigion Preseli. Rwy'n gwybod y byddai eraill yn cynnig ffurfwedd ychydig yn wahanol, gan gynnwys Maenclochog, ond pan gynigiwyd cynnwys Maenclochog yng Ngheredigion yn flaenorol, roedd llawer iawn o wrthwynebiadau o Faenclochog, llawer mwy nag o Dyddewi a Solfach, dyweder, ynglŷn â'r cynnig hwn, lle nad oes llawer o gwynion mewn gwirionedd. Mae'n ymddangos bod y brif gŵyn yn dod o Geredigion, sydd eisiau i Geredigion aros ar ei phen ei hun, er nad yw hynny'n bosibl, yn amlwg. A sylwn ar eithaf tipyn o gefnogaeth i'r cynnig hwn. Felly, cefnogwn y ddau gynnig hyn. Nid ydym yn cefnogi'r ddwy sedd arall, ond dim ond un newid bach y byddem yn ei wneud, er y dychwelwn i hyn yn Aberystwyth oherwydd bod awgrymiadau eraill hefyd, ond cefnogwn newid bach a fyddai'n symud ward Llangynor o Lanelli i Gaerfyrddin. Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth arall mewn gwirionedd, mae'r




niferoedd yn iawn, mae'n gwneud y ddwy etholaeth yn iawn. Credwn fod cefnogaeth helaeth i hynny yn y cynrychiolaethau ac fe allwch weld pa mor agos yw Llangynor i Gaerfyrddin ar y map yna, er ei bod mewn etholaeth wahanol ar hyn o bryd, ond nid yw yn etholaeth Llanelli, mae yn etholaeth Dwyrain Caerfyrddin. Felly, credwn fod dadl gref dros gynnwys Llangynwr yng Nghaerfyrddin a byddwn yn siarad mwy yn Aberystwyth ynglŷn â ph'un a fyddwn, a fyddwch yn gwneud mwy na hynny. Byddem yn sicr yn llwyr yn erbyn awgrym Plaid Cymru o ddod â rhai ardaloedd sydd â chysylltiad amlwg â Chaerfyrddin i mewn i Lanelli. Felly, rydym yn cefnogi creu dwy etholaeth yn gyfan gwbl o fewn Sir Gaerfyrddin a dwy yn gyfan gwbl o fewn Ceredigion a Sir Benfro. Yn amlwg, dyma'r ffordd orau o adlewyrchu Rheol Pump Un B ac mae'n adfer y sefyllfa cyn 1997 pan oedd pedair sedd yn Nyfed ddiwethaf.

Mae'r pedair plaid gymwysedig yn cefnogi creu dwy etholaeth yn Sir Gaerfyrddin a dwy etholaeth ar gyfer Ceredigion a Sir Benfro, er bod gwahaniaethau o ran cyfansoddiad etholaethau Ceredigion a Gogledd Sir Benfro, neu Geredigion a Sir Benfro. Mae'r pedair yn cymhwyso. Mae hynny'n gefnogaeth gref iawn, byddwn i'n awgrymu, ac felly byddwn yn diystyru unrhyw wrthgynigion eraill sy'n rhannu Sir Gaerfyrddin mewn rhyw ffordd neu'n rhannu Ceredig..., nid wyf yn credu bod unrhyw rai'n rhannu Ceredigion, ond mewn gwirionedd yn rhannu Sir Gaerfyrddin neu'n rhannu Sir Benfro. Credwn fod y cynnig yn cydymffurfio'n dda â'r rheolau ac rydym yn ei gefnogi. Felly, mae gan ward Llangynor gysylltiadau â'r ddwy ward hynny, sy'n cael eu rhannu o dan gynigion y Comisiwn, ac rydym ni'n eu hadfer. Mae ganddi hefyd gysylltiad agos â Chaerfyrddin ac mae'n gweddu'n well i etholaeth, gan gynnwys y dref, ac yn cynnwys nifer o gyfleusterau Caerfyrddin a amlinellir mewn llawer o gynrychiolaethau: mae'r orsaf drenau a'r orsaf heddlu yn gwasanaethu Caerfyrddin hefyd. Felly, rydym yn cefnogi cynigion y Comisiwn i rannu Sir Gaerfyrddin rhwng dwy sedd ac, yn yr un modd, yn cefnogi rhannu Ceredigion a Sir Benfro rhwng dwy sedd, a gwrthwynebwn unrhyw gynnig arall sy'n rhannu'r tair sir hyn mewn ffordd wahanol. Crybwyllwyd y cyngor, cynrychiolaeth Cyngor Ceredigion, sy'n golygu mewn gwirionedd fod gennych sedd tri awdurdod lleol, a bod gennych sedd dau awdurdod lleol ychwanegol hefyd. Felly, credwn ei bod yn waeth o lawer o ran cysylltiadau llywodraeth leol, ond byddwn yn dweud mwy am hynny yn Aberystwyth.

[02:19:26]

Felly, os symudwn i Ogledd Cymru, ac rydym yn sôn am awdurdodau lleol Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam, Sir y Fflint ac, ynghyd â Sir Drefaldwyn, nid wyf yn mynd i siarad am Ynys Môn oherwydd credaf fod hynny'n glir. Yn yr awdurdodau lleol hyn, ni allech gael y niferoedd iawn trwy gymryd Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint yn unig oherwydd bod Ynys Môn wedi'i gwarchod. Ni allech gael, ni allech ei gael yn iawn, felly mae angen i chi ychwanegu Sir Drefaldwyn ac rydym yn cefnogi hynny'n gryf, yn gryf o blaid cadw Sir Drefaldwyn yn gyflawn. Cefnogwn gynigion y Comisiwn ar gyfer Aberconwy, Dwyfor Meirionnydd ac, yn amlwg, Ynys Môn. Nawr, o ran Aberconwy a Dwyfor Meirionnydd, rydym yn derbyn bod llawer o gynrychiolaethau o Aberconwy ac o Fangor. O ystyried rhai o'r cynrychiolaethau, ni fyddech yn meddwl y buont mewn etholaeth gyda'i gilydd tan hyd at 2010, rwy'n credu, felly nid mor bell yn ôl â hynny, ond derbyniwn fod rhai pryderon go iawn ynglŷn â rhannu Bangor. A chredaf fod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi gwneud cynnig diddorol, er na fyddem yn cytuno â nhw o gwbl ynglŷn â chymryd unrhyw beth allan o Aberconwy. Byddwn yn edrych yn agosach ar b'un a ddylai ward Pentir gael ei hychwanegu at




Aberconwy, a byddwn yn dweud mwy am hynny yn Aberystwyth. Ond, petai'r ward honno'n cael ei hychwanegu at Aberconwy, byddai Aberconwy a Dwyfor Meirionnydd yn iawn o ran y niferoedd o hyd. Ond byddwn yn edrych ar hynny ymhellach. Ond nid ydym yn cefnogi cynigion y Comisiwn ar gyfer Alyn a Glannau Dyfrdwy, Clwyd, Delyn, sydd..., ac rydym wedi ailenwi'r rhain yn Orllewin Clwyd a Dwyrain Clwyd. Sylwais fod gan y Democratiaid Rhyddfrydol Orllewin Clwyd fel sedd. Credwn ei bod yn adlewyrchu'r ardal yn well. Byddem yn ailenwi Sir Drefaldwyn a Glyndŵr yn Sir Drefaldwyn a De Clwyd. A chadw Wrecsam yn Wrecsam, yn amlwg.

Felly, dyna ein dewis amgen yng ngogledd Cymru, ac fe sylwch mai un o'r ffactorau allweddol yno yw bod ein sedd Sir Drefaldwyn a Glyndŵr, er y byddem yn ei hailenwi, yn llai o ran maint mewn gwirionedd. Mae llawer o wrthwynebiadau i'r sedd honno o ochr Wrecsam, ond maen nhw i gyd yn dweud ei bod yn sedd rhy fawr. Rydym yn ei lleihau o ran maint, felly credwn fod hynny'n beth da, ac mae gennym rai dewisiadau amgen, sy'n edrych ar yr ardal yn fanylach. Felly, byddem yn dod â'r Fflint a Bagillt i mewn i Alyn a Glannau Dyfrdwy ond yn cadw Alyn a Glannau Dyfrdwy gyda'i gilydd, yn cadw Wrecsam fel y mae, ond dychwelyd wardiau Brymbo a Mwynglawdd iddi, yr oedd llawer o bryder yn ei gylch. Felly, byddai Alyn a Glannau Dyfrdwy bresennol i gyd wedi'i chynnwys yn yr etholaeth newydd, rydym yn lleihau nifer y seddau ym Mwrdeistref Wrecsam o dair i ddwy, rydym yn lleihau nifer yr ardaloedd cyngor sydd wedi'u cynnwys yn Alyn a Glannau Dyfrdwy o ddwy i un. Felly, unwaith eto, gwella Rheol Pump Un B.

Rydym yn parchu'r cysylltiadau agos. Mae cysylltiadau agos rhwng Argoed, Coed-llai a New Brighton. Rydym yn parchu'r cysylltiadau sydd gan y rhain â'r Wyddgrug o fewn etholaeth arfaethedig Delyn. Mae ein cynnig yn parchu'r cysylltiadau rhwng y Fflint, Bagillt a Chei Connah. Mae ein cynnig yn adfer y cysylltiadau agos rhwng Brymbo a Mwynglawdd â rhannau eraill o Wrecsam, nodwn lawer iawn o gynrychiolaethau ynglŷn â hynny, ac adlewyrchwn y cysylltiadau rhwng Pant, Johnstown a Rhos gyda Rhiwabon a Phen-y-cae, a nodwn yr hyn a ddywedodd y Democratiaid Rhyddfrydol mewn nifer o gynrychiolaethau ynglŷn â hynny.

[02:23:24]

Felly, mae nifer o gynigion yn creu sedd Trefaldwyn a Meirionnydd ac, yn wir, mae'r Blaid Werdd yn creu sedd sy'n mynd o'r ffin â Lloegr yr holl ffordd drwy Benrhyn Llŷn, sy'n sedd ryfeddol. Ond, maen nhw i gyd, unrhyw sedd Sir Drefaldwyn a Meirionnydd, yn fwy o lawer na'r sedd arfaethedig. A'r gwrthwynebiad mawr, unrhyw wrthwynebiad i sedd Trefaldwyn oedd ei maint, a byddai hon hyd yn oed yn fwy. Felly, credaf fod mwy o wrthwynebiadau i hyn. Mae rhai'n cyfuno Trefaldwyn a Meirionnydd â naill ai Eryri neu dde Sir Ddinbych, ac mae'r Blaid Werdd, fel y mae'n dweud, am y Blaid Werdd, cynnig y Blaid Werdd. Felly, y seddau canlyniadol hyn fyddai'r sedd ddaearyddol fwyaf o bell ffordd, byddent yn ddiffygiol o ran cysylltiadau cyfathrebu mewnol ac nid ydym yn credu bod hynny'n iawn. Nawr, mae rhai yn gwneud hynny trwy greu Sir Ddinbych fel awdurdod lleol unedol, fel awdurdod lleol sy'n gydffiniol, ac rydym yn cydymdeimlo â hynny i raddau oherwydd yn ddelfrydol, byddai'n beth da i Sir Ddinbych fod ar ei phen ei hun. Ond, yn anffodus, ôl-effaith gwneud hynny gyda Sir Ddinbych yw bod gennych etholaeth fawr iawn, a chredwn y byddai'n rhy fawr ac anhydrin, a dyna pam rydym yn cefnogi ein Sir Drefaldwyn ni sydd wedi'i newid ychydig a'r hyn y byddem yn ei



alw'n Dde Clwyd. Mae rhai yn creu sedd Arfordir Gogledd Cymru. Mae'r cynigion hyn yn anwybyddu'r cysylltiadau rhwng trefi arfordirol a'u cefnwledydd gwledig yng Nghonwy a Sir Ddinbych, a nodwn gynnig Plaid Cymru sydd ag un sedd gyda phedwar awdurdod lleol yn ffurfio rhan o Wynedd, rhan o Bowys, rhan o Gonwy a rhan o Sir Ddinbych. Credwn fod hynny nid yn unig yn anhydrin iawn, ond mae hefyd yn sedd pedwar awdurdod lleol. Nid oes gan unman yng Nghymru, dim ond dau y mae'r Comisiwn wedi'u hawgrymu, rydym ni'n awgrymu un, y tri. Nid oes neb arall wedi awgrymu pedwar awdurdod lleol, ac maen nhw'n anghyffredin iawn, iawn yn Lloegr.


Felly, dim ond i atgoffa bod ein holl farn wedi'i seilio ar y ffactorau hyn. Rydym yn cadw un etholaeth yng Nghymru, sef Bro Morgannwg, sydd eisoes yn cydymffurfio â Rheol Dau, heb ei newid, ac rydym yn cefnogi'r chwe chyngor sydd wedi'u cynnwys yn gyfan gwbl o fewn etholaethau newydd. Mae Plaid Cymru, mewn gwirionedd, yn rhannu pedwar ohonynt, felly maen nhw ond yn cefnogi dau cyngor sydd wedi'u cynnwys yn gyfan gwbl, ac rydym yn gwella'r sefyllfa'n sylweddol o dan Reol Pump Un B, mae tri awdurdod lleol yn cynnwys un etholaeth yn llai ac mae tair etholaeth yn cynnwys un awdurdod lleol yn llai. Felly, mae hynny'n well o lawer o dan Bump Un B. Rydym yn symud mwy na 12,000 yn llai o etholwyr na'r Comisiwn, felly rydym yn well o dan Reol Pump Un C, ac rydym hefyd yn adfer nifer o gysylltiadau lleol. Felly, rhwng Nelson ac Ystrad Mynach, Dinas Powys a'r Barri, Caerfyrddin, rhwng Aberdâr ac Aberaman, rhwng Brymbo a Mwynglawdd a Choedpoeth, yn Wrecsam rhwng yr Wyddgrug a Mynydd Isa, roedd cynrychiolaeth o Fynydd Isa yn gwrthwynebu, ac rydym yn adfer hynny.

Felly, yn amlwg, byddaf yn ymddangos yn Aberystwyth, am wyth o'r gloch y bore rwy'n credu, yn Aberystwyth, a byddwn yn rhoi mwy o safbwyntiau i chi, yn enwedig ar y cynrychiolaethau a dderbyniwyd, ond hefyd sut gallem ystyried newid ein safbwynt ychydig, efallai o ran Aberconwy a Bangor, efallai o ran Caerfyrddin. Ond edrychwn ar y rheiny a siarad â chi ymhellach ynglŷn â hynny. Unwaith eto, diolch yn fawr iawn i'r Comisiwn am eu holl waith, ac rwy'n hapus iawn i ateb unrhyw gwestiynau a allai godi.

Cadeirydd: Fe af yn gyntaf at fy nghomisiynwyr cynorthwyol. Steve?

[02:27:25]

SP: Ie, diolch. A diolch am y cyflwyniad. Dau sylw neu gwestiwn, mewn gwirionedd. Mae'r un cyntaf yn ymwneud â rhywbeth a grybwyllodd chi tua'r diwedd. Os ydw i wedi deall yn iawn, nid ydych o blaid rhyw fath o gyfuniad Sir Drefaldwyn Meirionnydd, ond fe ddywedoch fod hynny ar sail cysylltiadau cyfathrebu mewnol, yn y bôn. A allech chi esbonio pam maen nhw'n waeth na rhannau eraill o Gymru wledig lle y bydd yr un peth yn wir, yn sicr. Nid wyf yn gwneud rhagfynegiad, ond mae'n edrych yn debygol y bydd etholaeth wledig fawr yn rhywle, neu fwy nag un, o ganlyniad i deneurwydd poblogaeth. Felly, dyna'r pwynt cyntaf. Mae'r ail bwynt yn ymwneud ag Aberhonddu a Maesyfed. Nid wyf yn credu bod unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r cysylltiadau agos rhwng Ystradgynlais ac Ystalyfera, ond roedd y rhan fwyaf o'r cynrychiolaethau a ddarllenais o ardal Cwm Tawe yn pryderu mwy am bellenigrwydd y cymunedau hynny o leoedd fel Rhaeadr, Llanfair-ym-Muallt, Llandrindod ac yn y blaen. A allech chi wneud sylwadau ar hynny neu ymhelaethu ar eich ffordd o feddwl yn hynny o beth?



RP: Gallaf, yn sicr. Ie, rydych yn hollol iawn. Mae'n rhaid i chi gael rhai etholaethau mawr, does dim dwywaith am hynny. O dan y cynigion, Aberhonddu a Maesyfed yw'r etholaeth arfaethedig fwyaf yng Nghymru, a byddai hynny'n wir o hyd, mae'n wir ar hyn o bryd a byddai'n parhau i fod yn wir. Trwy ychwanegu'r ardal y mae'r Comisiwn wedi'i hychwanegu, rydych yn ychwanegu'r rhan leiaf mewn gwirionedd. Mae unrhyw gynnig arall yn fwy o ran arwynebedd, felly bydd yn sedd hyd yn oed yn fwy nag ar hyn o bryd. O ran y cysylltiadau, rydym ni, mae llawer o bobl yn credu, ei henw yw Aberhonddu a Maesyfed ac felly, chi'n gwybod, bydd rhaid i mi fynd i Aberhonddu ar gyfer fy Aelod Seneddol. Ydy, mae'n cynnwys Rhaeadr ac Aberhonddu a phobman arall, ond y dref fwyaf yn yr etholaeth yw Ystradgynlais. Nid wyf yn credu y byddai unrhyw un yn amau bod cysylltiadau cryf rhwng Ystradgynlais ac Ystalyfera. Mae cysylltiadau cryf iawn, maen nhw wedi'u cysylltu ar hyd Afon Tawe, does dim dwywaith am hynny. Felly, rwy'n parchu safbwyntiau pobl, ond nid wyf yn credu bod pobl yn deall, nid yw rhai pobl yn deall, mewn gwirionedd, bod Ystradgynlais yn rhan ohoni ac y byddai unrhyw Aelod Seneddol yn cynnal cymorthfeydd ym Mhontardawe neu.... Yn wir, mae'r Aelod Seneddol presennol yn cynnal cymorthfeydd yn Ystradgynlais ar hyn o bryd, a byddai'n rhaid i unrhyw Aelod Seneddol gynnal cymorthfeydd yno. Mae'n bosibl y bydd ganddo swyddfa yno hyd yn oed. Mae'r ardal Ystradgynlais yna a ddylai, yn fy marn i, gael ei pharchu yn yr enw, yn cynrychioli tua thraean o'r etholaeth, rwy'n credu. Felly, mae'n rhan bwysig o'r etholaeth. Yna, mae gennych chi rai ardaloedd gwledig mawr. Mae hynny'n anochel.

O ran Sir Drefaldwyn, ie, bydd beth bynnag a wnewch chi gyda Sir Drefaldwyn yn fawr, a chredwn fod gennym ni'r ardal leiaf posibl i'w chysylltu â hi. Ac roedd y rhan fwyaf o'r cwynion yn ymwneud â'r maint, a chredaf fod y cysylltiadau cyfathrebu rhwng, dyweder, Trefaldwyn a Phorthmadog, i gymryd un enghraifft yn unig, ac yn amlwg mae'n dibynnu ar ba ardaloedd sydd wedi'u cynnwys, ni fyddaf yn mynd i lawr Penrhyn Llŷn oherwydd ei fod yn gynnig mor wirion [mae'n chwerthin]. Rwy'n siŵr na fyddai hynny'n digwydd. Ond, dyweder, i Borthmadog, Meirionnydd a... cyfathrebu..., byddai'n anodd cael cysylltiadau cyfathrebu da o Drefaldwyn i Borthmadog, tra byddai Trefaldwyn i dde Wrecsam, i Riwabon, yn haws o lawer. Felly, mae'r cysylltiadau'n well o lawer yn yr etholaeth arfaethedig, neu'r etholaeth ychydig yn wahanol sydd gennym ni, nag y byddent gyda Meirionnydd gyfan yn mynd yn syth trwodd i Borthmadog, efallai, neu ble bynnag yr ydoedd. Byddai'r cysylltiadau hynny'n waeth, ond credaf, mewn gwirionedd, ni fyddai'r cysylltiadau cynddrwg i leoedd fel Rhiwabon a'r Waun, ac yn sicr o'r Trallwng, neu o'r Drenewydd neu o Drefaldwyn. Mae'r cysylltiadau hynny'n eithaf da i fyny tuag at dde Wrecsam.


SP: Diolch.

Cadeirydd: Unrhyw beth arall? A oes unrhyw un sy'n eistedd i fyny yno a hoffai ofyn cwestiwn eglurhad? Un eiliad, a wnewch chi aros am y microffon?

[02:31:52]

T: Helô, hoffwn ofyn cwestiwn cyflym am...

Cadeirydd: Sori, a wnewch chi gyflwyno'ch hun gan roi eich enw a'ch cysylltiad, os oes gennych un?



T: Helô, fy enw i yw Tristan. Rwy'n gweithio yng Nghaerffili i'r Aelod Seneddol. Roeddwn eisiau egluro, yn amlwg rydych chi'n cefnogi'r gwrth-... y cynnig i gyfuno Caerffili â Gorllewin Casnewydd. Fe ddywedoch, chi'n gwybod, o ran y gwrthgynigion a gynigiwyd gan, er enghraifft, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru neu gan Wayne David, yr Aelod Seneddol dros Gaerffili, fod cysylltiadau gwaeth yn eu gwrthgynigion, sy'n cynnal cyfanrwydd Cwm Rhymni, y cymunedau, y diwylliant. Beth yw'r cysylltiadau cryfach rydych chi'n eu hawgrymu rhwng Caerffili a Chasnewydd? Oherwydd fe ddywedoch fod cysylltiadau gwaeth yn y gwrthgynigion, ond ni wnaethoch grybwyll beth oedd y cysylltiadau cryfach. Diolch.


Cadeirydd: At ddibenion y ffrwd fyw, mae'r pwynt eglurhad yn gofyn i Roger ymhelaethu ar y cysylltiadau rhwng Casn..., y cysylltiadau cryfach rhwng Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

RP: Derbyniais nad yw'n rhwydd. Rwy'n credu bod y cysylltiadau rhwng Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn well na'r cysylltiadau rhwng, er enghraifft, Argoed neu Ben-y-Maen a Chasnewydd. Ac mae ganddynt gysylltiad cryf â'r Coed-duon, sy'n cael ei dorri o dan y cynigion, a dyna beth oeddwn yn ei wrthwynebu. O ran y cysylltiadau rhwng Gorllewin Casnewydd a Chaerffili, mae'n hawdd iawn gyrru i fyny, yr A4067 rwy'n credu, ond maddeuwch i mi os yw hynny'n anghywir, ond, yn y bôn, os ewch chi o Gaerffili trwy ward Bedwas Tretomas, rydych yn mynd yn syth i mewn i Orllewin Casnewydd, ar hyd y ffordd honno. Mae'n brif ffordd A, mae'n gysylltiad da. Rwyf wedi'i defnyddio sawl gwaith. Fel mae'n digwydd, fy ngwraig oedd yr ymgeisydd Ceidwadol yng Nghaerffili ar dri achlysur ac rwyf wedi gyrru ar hyd y ffordd honno nifer o weithiau i Gasnewydd, mae'n ffordd dda iawn, mae'n iawn. Felly, mae cysylltiadau da iawn rhwng Gorllewin Casnewydd a Chaerffili. Nid yw'n ddelfrydol pan fyddwch yn cyfuno dau gyngor. Mae'n rhaid i chi gyfuno dau gyngor yn rhywle; rwy'n digwydd credu bod Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn well na Gorllewin Casnewydd yn mynd yr holl ffordd i fyny i Argoed.

Cadeirydd: A oes unrhyw bwyntiau eglurhad eraill? Diolch, Roger. Diolch.

Rwyf yn ymwybodol ein bod wedi neilltuo sesiwn y bore i'r pleidiau gwleidyddol cymwys, ac rydym wedi gorffen cyn pryd. A oes unrhyw un yma a hoffai gael slot 10 munud i gyfrannu at y gwrandawliadau cyhoeddus? Fel arall, gyda chytundeb y pleidiau gwleidyddol, awgrymaf ein bod yn gorffen sesiwn y bore yn awr ac ailddechrau ar ôl cinio am 1pm. Bydd y Comisiynwyr Cynorthwyol a staff yr ysgrifenyddiaeth o gwmpas, felly os oes unrhyw beth rydych ei angen neu rywun, aelod..., chi'n gwybod, os ydych yn gwybod am rywun sydd wedi cyrraedd i wneud cyfraniad, rhowch wybod i ni ac fe allwn ailddechrau'r sesiwn. Felly, os nad oes unrhyw faterion eraill, fe welwn ni chi eto am 1pm, dyweder, yn yr ystafell eto. Diolch.

[Diwedd y Trawsgrifiad 02:35:15]



Caerdydd PRYNHAWN

Allwedd

David:	David	RJ:	Ruth Jones
Cadeirydd:	Cadeirydd	JS:	Jo Stevens
SP:	Steven Phillips	AC:	Andrew Clemes
CE:	Chris Elmore	PR:	Pete Roberts
SB:	Siân Boyles	CEv:	Christopher Evans
RP:	Roger Pratt	NTS:	Nick Thomas-Symonds
AR:	Andrew Rice	JC:	John Child
THJ:	Thomas Henry-Jones	SM:	Steven Mayfield
KH:	Katherine Hughes	JudithC:	Judith Child
JC:	Jeff Cuthbert	CEv:	Clive Evans
LW:	Lindsay Whittle	DD:	David Davies
ARTD:	Andrew RT Davies	JM:	Jessica Morden
VD:	Vincent Driscoll	AM:	Anna McMorran
GC:	George Carrol		


[Trawsgrifiad yn dechrau am 00:00:00]

David: ... Dychwelaf i'm datganiad cynharach, sef fy mod yn credu bod set o wrthgynigion sy'n cynnal cyfanrwydd y cwota etholiadol yn llwyr, ond sy'n mynd i'r afael â'r ystyriaethau eraill sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Comisiwn mewn ffordd fwy ystyrlon o lawer. A'r rhain yw'r cynigion a gyflwynwyd gan Wayne David AS. Byddai hyn yn gweld wardiau presennol Islwyn, sef Dwyrain Risga, Gorllewin Risga, Crosskeys, Ynys-ddu, Aber-carn, Trecelyn a Chrymlin, yn cael eu cysylltu â Gorllewin Casnewydd. Byddai wardiau presennol Caerffili, sef St James, Bedwas, Tretomas a Machen, Morgan Jones, St Martins, Penyrheol, Cwm Aber, Llanbradach, Ystrad Mynach, Hengoed a St Catwg, yn cael eu huno â wardiau presennol Islwyn, sef Maesycwmer, Pengam, Cefn Fforest, y Coed-duon a Phontllan-fraith.

Roeddwn wedi bwriadu canolbwyntio ar fy nghyflwyniad ysgrifenedig yn unig, ond credaf ei bod yn werth gwneud un arsylwad ar y llythyr ar y cyd a gyflwynwyd i'r Comisiwn gan Chris Evans, yr Aelod Seneddol dros Islwyn, a Rhianon Passmore, aelod y Senedd dros Islwyn. Mae'r llythyr hwn yn amlygu cysylltiadau rhwng Hengoed, Ystrad Mynach a Llanbradach a thrwy'r draphont sy'n uno Maesycwmer a Hengoed. Mae hefyd yn cyfeirio at y ffaith bod ward St Cattwg yn ffinio â ward Pengam. Ac yn drydydd, mae'n sôn bod y ward newydd yn defnyddio cyfleusterau siopa'r Coed-duon. Cyfeirir at y rhain fel rhesymau cryf dros gadw cynigion y Comisiwn heb eu diwygio.

[00:01:23]

Awgrymwyd mewn rhai cyflwyniadau bod cysylltiadau ffyrdd da rhwng y cymunedau sydd i'w cysylltu â Chasnewydd o dan gynigion cychwynnol y Comisiwn. Mae 'da' yn derm eithaf goddrychol ac mae graddau amrywiol o 'dda' yn gallu bodoli. Yr hyn sy'n ddiamheuol, yn fy marn i, yw os edrychwch ar y cymunedau ym masn Caerffili, yn y rhan fwyaf o achosion y ffyrdd sy'n cysylltu â Chaerdydd yw'r rhai y gellid dweud eu bod yn fwy 'da', h.y., yn well na'r rhai sy'n cysylltu â Chasnewydd, e.e. Dwyrain Risga, Gorllewin Risga, Crosskeys, Ynys-ddu, Aber-carn, Trecelyn a Chrymlin. Yn wir, wrth deithio mewn car o nifer o'r wardiau



ym masn Caerffili i Gasnewydd, fe allech yrru trwy'r union wardiau hynny yn Islwyn yr wyf newydd eu rhestru.

Felly, roeddwn eisiau dychwelyd i un pwynt, o ran y mater ynglŷn â'r llythyr gan Chris Evans, yr Aelod Seneddol, a Rhianon Passmore, yr aelod o'r Senedd, lle maen nhw'n dweud bod rhesymau cryf, mewn gwirionedd, dros gadw cynigion cychwynnol y Comisiwn ar sail y cysylltiadau hynny. Wel, hoffwn ddweud bod y gwrthgynnig a gyflwynwyd gan Wayne David AS, yn cynnal yr union gysylltiadau hynny y cyfeirir atynt yn y llythyr gan Chris Evans, yr Aelod Seneddol, a Rhianon Passmore, yr aelod o'r Senedd. Felly, i grynhoi, byddai'r gwrthgynnig a gyflwynwyd gan Wayne David AS, yn fy marn i, yn gwarchod llawer o'r cysylltiadau hanesyddol rhwng wardiau ym masn Caerffili a'r ardal amgylchynol, ac mae cysylltiadau daearyddol mwy naturiol â Chaerdydd, ar yr un pryd ag alinio â Chasnewydd nifer o wardiau yn Islwyn sydd â chysylltiadau daearyddol a thrafnidiaeth agosach o lawer â Chasnewydd.

Gofynnaf yn barchus i'r Comisiwn ailedrych ar ei gynigion yng ngoleuni'r nifer sylweddol o gynrychiolaethau y mae wedi'u derbyn sy'n mynegi pryderon ynglŷn ag uno wardiau yn ardal Caerffili â Gorllewin Casnewydd, a chydabyddaf y dewis amgen mwy rhesymegol i'r cynigion a gyflwynwyd gan Wayne David AS.

Ac yn olaf, hoffwn atgoffa'r Comisiwn, er y bydd yn ymwybodol o hyn rwy'n siŵr, fod y gwrthgynnig a gyflwynwyd gan Wayne David AS, yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r cyflwyniadau eraill a wnaed ledled Cymru gyda gwrthgynigion, os nad pob un ohonynt, mae'r cyflwyniad gan Wayne David AS yn cynnal cyfanrwydd y cwota etholiadol.

Felly, diolch unwaith eto am y cyfle i'ch annerch heddiw, y prynhawn 'ma, a dymunaf y gorau i chi ar gyfer eich trafodaethau parhaus. Diolch yn fawr.

Cadeirydd: David, ga'i ofyn i chi aros am eiliad fel y gallwn weld a oes gan unrhyw un gwestiynau eglurhad. Unrhyw gwestiynau eglurhad, Steve?


SP: Diolch. A diolch am y cyflwyniad. Un cwestiwn yn unig er mwyn egluro, mewn gwirionedd. A fyddai'n deg dweud mai eich blaenoriaeth gyffredinol, fel y dywedoch, yw'r cysylltiadau â, rhwng Caerffili a Chaerdydd a chydlyniant y wardiau ym masn Caerffili o gymharu â lle y gallai'r rhaniad rhwng etholaethau..., gael ei wneud yng Nghaerffili?

David: Rwy'n credu bod hynny'n sylw teg, ydy. Hynny yw, mae basn Caerffili, wrth ddweud basn Caerffili rwyf hefyd yn cynnwys, efallai, yn ymestyn y tu hwnt i'r hyn a ystyrir yn fasn Caerffili yn draddodiadol i Ystrad Mynach a Hengoed. Rwy'n credu yr ystyrir weithiau ei fod yn diweddu yn Llanbradach, ond ie.

SP: Oherwydd rydym wedi cael trafodaethau y bore 'ma am ward Nelson, er enghraifft, ac yna amryw drynewidiadau posibl rhannu Islwyn oddi wrth Gaerffili.

[00:04:52]

David: Rwy'n golygu os nad oedd y Comisiwn yn gweithredu o fewn y cyfyngiadau llym iawn y cyfeiriais atynt, yna rwy'n siŵr efallai byddai fy nghyflwyniad heddiw wedi



bod. Ond, yn amlwg, wyddoch chi, ar ddiwedd y dydd, yn realistig, er mwyn cyflwyno cynigion y gallwch eu hystyried, roedd rhaid i gyfyngiadau'r cwota etholiadol gael eu bodloni a byddai ystyried y materion o amgylch Nelson neu Fargoed wedi gwneud hynny'n amhosibl, yn amlwg.

SP: Diolch.

Cadeirydd: Diolch. A oes unrhyw gwestiynau eglurhad? Hugh, a wnewch chi drosglwyddo'r microffon?

RP: Diolch yn fawr. Roger Pratt o'r Blaid Geidwadol. Fe grybwylloch chi'r wardiau y cynigir eu cynnwys gyda wardiau Casnewydd neu Orllewin Casnewydd o dan gynnig Mr David yn hytrach na chynigion y Comisiwn. Ni chrybwylloch chi ddwy ward Argoed a Phenmaen. A wyf yn iawn i ddweud y byddai'r ddwy ward hynny wedi'u cysylltu â Gorllewin Casnewydd hefyd o dan y gwrthgynnig?

David: Nid yw hynny'n rhan o'r gwrthgynnig, na. Os edrychwch chi ar y gwrthgynnig, nid yw hynny'n rhan ohono.

RP: Felly, ga'i ofyn i ble y byddai wardiau Penmaen ac Argoed yn mynd, o dan y cynnig hwn?

David: O'r hyn rwy'n ei gofio, ni fyddai unrhyw un o'r newidiadau a gynigiwn yn effeithio arnynt.

RP: Felly, ble bydden nhw wedi'u cysylltu ag ef?

David: Heb fynd yn ôl at yr adroddiad, byddai'n rhaid i mi wirio ble maen nhw wedi'u lleoli ar hyn o bryd, ond....

SW: Diolch.

David: Iawn.

Cadeirydd: A oes gennym ni fwy o gwestiynau ar gyfer eglurhad? Na? Iawn. Diolch, David.


David: Diolch yn fawr.

Cadeirydd: Fe gawn ni'r ddarllenfa wedi'i diheintio cyn i ni alw'r siaradwr nesaf. Galwch Rhydian am eiliad, a gofynnwch a oes unrhyw un arall yn... [Anghlywadwy 00:06:43]

A yw Clayton Jones yma? Ydy? Nac ydy? Iawn. Ga'i wahodd Chris Elmore AS i'n hannerch ni? Diolch. Chris, fe golloch chi'r sesiwn gynharach. Felly, mae gennych 10 munud. Pan fydd wyth munud wedi mynd heibio, bydd Tom yn rhoi arwydd i chi a bydd gennych ddwy funud i orffen. Os na fyddwch yn gorffen, bydd rhaid i mi dorri ar eich traws [chwerthin] a gadael i chi....

CE: Mae hynny'n iawn, rwy'n gobeithio na fydd yn cymryd mwy na deg munud.

[00:07:40]



Cadeirydd: Os gwnewch chi gyflwyno'ch hun. Yn amlwg, rydych yn siarad yn rhinwedd eich swydd fel aelod etholedig. A byddwn, gofynnir i chi aros ar ôl eich cyflwyniad fel y gallwn ofyn unrhyw gwestiynau eglurhad.

CE: lawn.

Cadeirydd: Diolch.


CE: Chris Elmore ydw i, rwy'n Aelod Seneddol ar ran etholaeth bresennol Ogwr. Rwy'n siarad fel Aelod Seneddol. Mae tasg y Comisiwn Ffiniau yn un anodd o ystyried caethder y Ddeddf, ac mae'r Comisiwn yn rhwym wrth y cylch gorchwyl a osodwyd, gan gynnwys anallu i osgoi etholaethau sy'n rhychwantu mwy nag un ffin awdurdod lleol. Mae heriau topograffeg a daearyddiaeth Cymru yn ychwanegu cymhlethdod at argymhellion y Comisiwn. Croesewir y ffaith, ym mhob arolwg diweddar, bod y Comisiwn wedi cydnabod nad yw'n ddoeth mwyach torri cymunedau'r cymoedd yn llorweddol, gan gydnabod bellach, lle y bo'n ymarferol, bod ffiniau o fewn ardaloedd y cymoedd yn fertigol neu'n dilyn topograffeg naturiol y cwm. Mae hyn yn osgoi holli cymunedau.

Croesewir cynigion y Comisiwn mewn perthynas ag etholaeth bresennol Ogwr ac etholaethau Pen-y-bont ar Ogwr. Mae newid yr enw i Ben-y-bont ar Ogwr yn cydnabod maint y dref sydd, unwaith eto, i'w groesawu. Mae'r cynnig yn cydnabod cysylltiadau lleol hirsefydlog rhwng y ddwy etholaeth ac yn sicrhau bod yr etholaeth newydd yn rhychwantu ardal un sir gyda chysylltedd trafniadaeth da, yn ogystal â chysylltiadau economaidd, diwylliannol a hanesyddol cryf. O ran llywodraeth leol, mae'r etholaeth awgrymedig yn dangos bod rhannau mawr o ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn aros o fewn un etholaeth, sydd i'w groesawu. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod preswylwyr sy'n byw yng nghymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr, ynghyd â chymuned Evanstown yng Nghwm Gilfach yn ogystal ag ardaloedd porth y cymoedd o amgylch Sarn, Abercynffig a thref Pencoed, yn defnyddio gwasanaethau awdurdod lleol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Felly, mae'r ffin newydd awgrymedig, sy'n symud llawer o dref Pen-y-bont ar Ogwr ynghyd â'r cymunedau sy'n ffinio ag etholaeth bresennol Ogwr, fel Pen-y-fai, Coety a Bracla, i un etholaeth, yn gwneud synnwyr.

Mae cadw cymunedau Llynfi, Garw ac Ogwr gyda'i gilydd yn cydnabod y cysylltiadau hanesyddol tymor hir rhwng y cymunedau trwy ddiwydiant trwm fel cloddio am lo neu haearn. Gall hyn fod yr un mor berthnasol i'r cymunedau o amgylch Sarn a Phencoed, a weithiodd mewn pyllau lleol yn gyntaf ac a dyfodd i ddod yn aneddiadau mwy yn sgil ehangiad diwydiant yn y tri chwm, felly mae cysylltiad rhyngddynt o ganlyniad i'w hanes cyffredin. Mae tref Pen-y-bont ar Ogwr, a arferai fod yn rhan o etholaeth wreiddiol Ogwr cyn 1983, yn olrhain llawer o'i hanes trwy'r tri chwm, felly mae eu hadfer mewn un etholaeth yn gynnig rhesymegol.

[00:09:56]

Mae'r cymunedau yn etholaeth bresennol Ogwr, a awgrymir ar gyfer etholaeth newydd Pen-y-bont ar Ogwr, yn edrych tuag at ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr fel



ardal siopa, gan gynnwys ar gyfer gwasanaethau bancio. Mae ardaloedd cymoedd Garw ac Ogwr, ynghyd â'r cymunedau ym mhyrth y cymoedd, fel Sarn, Abercynffig a Phencoed, yn profi, yn rhannol, lefelau uchel o amddifadedd ac mae gwasanaethau hanfodol fel y Ganolfan Byd Gwaith, wedi'u lleoli yn nhref Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer yr holl gymunedau hyn. Mae cynnig awgrymedig y Comisiwn yn cadarnhau'n ffurfiol safbwynt hirsefydlog preswylwyr yr ardal mai tref Pen-y-bont ar Ogwr yw eu canolfan ar gyfer gwasanaethau economaidd-gymdeithasol.


Mae gan y wardiau ar draws cymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr, ynghyd â wardiau porth y cymoedd a Phencoed, wasanaethau trafndiaeth sydd wedi'u hen sefydlu i Ben-y-bont ar Ogwr. Mae'r brif orsaf fysiau'n cysylltu â phob cymuned ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac mae gan yr orsaf fysiau lai ym Maesteg, unwaith eto, gysylltedd uniongyrchol â gorsaf fysiau Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r holl breswylwyr yn etholaeth bresennol Ogwr yn defnyddio gorsaf drenau Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer gwasanaethau prif linell, gan atgyfnerthu'r cysylltiad hirsefydlog rhwng y ddwy etholaeth. Yn achos cymoedd Garw ac Ogwr, mae gwasanaethau bysiau'n defnyddio gorsaf Pen-y-bont ar Ogwr fel canolfan ar gyfer teithio ymlaen gyda gwasanaethau cyfyngedig iawn yn uniongyrchol i gyrchfannau eraill.

Mae darpariaeth iechyd, gan gynnwys Adran Damweiniau ac Achosion Brys, ar gyfer cymunedau presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn etholaeth Ogwr, wedi'i lleoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae hyn yn cynnwys y brif ddarpariaeth ysbyty a'r gwasanaethau iechyd cymunedol ehangach fel gwasanaethau mamolaeth ac ôl-enedigol. Byddai cynnig y Comisiwn yn cyfnerthu cysylltiadau chwaraeon, diwylliannol a chymunedol hirsefydlog yn rhesymegol.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r cynnig cychwynnol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr a sedd gymdogol newydd Aberafan Porthcawl, rwyf yn ymwybodol o nifer fach o wardiau sy'n ffurfio rhan o dref Pen-y-bont ar Ogwr a fydd yn ymuno ag Aberafan a Phorthcawl ac nid etholaeth newydd Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n achos pryder y byddai'r cynnig amgen a gyflwynwyd gan y Blaid Geidwadol yn cynnwys cymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr, yn ogystal â chwalu'r ward i ardal y porth, h.y. rhannu Abercynffig oddi wrth wardiau Sarn ac Ynysawdre a'i hychwanegu at yr 13 o wardiau o etholaeth bresennol Aberafan. Byddai hyn yn creu cymuned hollt gyda chysylltiadau trafndiaeth anodd neu rai nad ydynt yn bodoli ac, yn y pen draw, nid yw'n cydnabod y pellter y bydd rhaid i breswylwyr deithio pan fyddant eisiau cael cymorth gan eu Haelod Seneddol. Trwy ddileu ward Abercynffig, rydych yn rhannu cymunedau Abercynffig, Ton-du a Goetre-hen oddi wrth Sarn, Ynysawdre a Bryncethin a'r pentrefi amgylchynol. Mae'r cymunedau hyn yn rhannu gwasanaethau addysgol cynradd ac uwchradd, a gwasanaethau iechyd. Maen nhw'n rhannu gwasanaethau hamdden, gan gynnwys canolfan chwaraeon, maes criced a chyfleusterau chwarae lleol.

[00:12:26]

Mae'r ardal yn gymuned hirsefydledig. Byddai dileu'r ward yn creu anghysondeb arall yn ffiniau'r cynnig awgrymedig yn yr ystyr y byddai dileu ward Abercynffig yn golygu bod cymuned Goetre-hen wedi'i gwahanu. Er enghraifft, pe byddai'r gwrthgynnig yn symud ymlaen, byddai preswylwyr sy'n byw yn Goetre-hen yn teithio trwy etholaeth newydd Aberafan ddwywaith er mwyn cyrraedd etholaeth awgrymedig Pen-y-bont ar Ogwr, oherwydd byddai wardiau cymdogol Ynysawdre



a Sarn yn..., yn etholaeth newydd Aberafan Maesteg. Dylid nodi ymhellach y byddai hyn yn golygu na fyddai'r cymunedau ymhellach i fyny Cwm Llynfi, sef Llangynwyd, Maesteg a Chaerau, wedi'u cysylltu trwy'r rhwydwaith prif ffyrdd o ran ffiniau i'r gwrthgynnig awgrymedig. Mae hynny'n cynnwys cymoedd Garw ac Ogwr ynghyd â chymuned Evanstown yng Nghwm Gilfach, gan ddibynnu yn lle hynny ar ffyrdd trac sengl a ddefnyddir yn aml ar gyfer amaethyddiaeth a mynediad i ffermydd anghysbell yn unig, neu yrru i lawr Cwm Afan ac yna'n ôl ar draws yr M4 neu i fyny Cwm Afan i gyrraedd Cwm Ogwr ac yna Cwm Garw er mwyn peidio â gadael yr etholaeth awgrymedig. Ni all fod yn gydnaws ag uchelgeisiau'r Comisiwn i gael cymunedau cyfan wedi'u datgysylltu, fel yr awgrymir yn y gwrthgynnig.


Er bod gwasanaethau'n rhedeg rhwng y cymunedau o fewn ac o amgylch Maesteg i lawr Cwm Afan, prin neu ddim gwasanaeth sydd rhwng cymoedd Garw ac Ogwr, yn ogystal â chymuned Evanstown. Er enghraifft, mae bws o Gwm Garw i Bort Talbot yn cymryd awr a 40 munud, sy'n cynnwys newid ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Byddai'n peri dryswch i breswylwyr pam mae eu hetholaeth seneddol yn cysylltu ag Aberafan er nad oes ganddi lawer o gysylltiad ffisegol na hanesyddol â'r ardal honno. Byddai amser teithio ar draws y gwrthgynnig awgrymedig, o ystyried y diffyg rhwydweithiau ffyrdd ffisegol sy'n cysylltu Cwm Garw â naill ai Llynfi, Ogwr, Afan ac unrhyw ardaloedd eraill o amgylch Port Talbot, yn golygu bod angen teithio hyd at awr yn y rhan fwyaf o achosion, sy'n ymddangos yn afresymegol o ystyried amcan y Comisiwn o gadw cysylltiadau cymunedol lle y bo'n bosibl.

Mae llawer wedi cael ei ddweud am hygyrchedd gwleidyddion cyn ac ers y pandemig. Mae'n bwysig bod unrhyw wrthgynnig awgrymedig yn dwyn ardaloedd sydd â chysylltiad rhesymegol ynghyd. Os oedd y gwrthgynnig yn cael ei gefnogi gan y Comisiwn, gallai ymgysylltu â dwy gymuned wahanol heb gysylltiad rhyngddynt fod yn anodd, yn enwedig o ran cymunedau pellach i'w cyrraedd fel y rhai hynny yng nghymoedd Garw ac Ogwr, y mae cadwyni o fynyddoedd yn eu gwahanu oddi wrth yr ardaloedd o fewn ac o amgylch Port Talbot ac a gyrhaeddir trwy Ben-y-bont ar Ogwr, a fyddai mewn etholaeth wahanol.

Mae'r gwrthgynnig a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn awgrymu chwalu cymunedau sydd â chysylltiadau hirsefydlog, gan gynnwys cymunedau gogleddol y cymoedd sy'n rhannu darpariaeth iechyd ac addysg, er enghraifft. Amlinellaf gyfres o bryderon ynglŷn â'r cynigion hyn isod.

Yn gyntaf, mae gwrthgynnig Aberafan gyda Maesteg a de-ddwyrain Cymru yn anwybyddu cymuned sefydledig Llangynwyd yn rhan o gymuned Cwm Llynfi. Mae Llangynwyd yn rhannu cysylltiadau addysgol, iechyd a diwylliannol â Maesteg. Byddai chwalu'r cymunedau hyn, o ystyried pa mor rhyng-gysylltiedig yw eu ffiniau, yn golygu rhannu cwm yn ddwy, a fyddai'n mynd yn erbyn egwyddorion y Comisiwn i beidio â rhannu cymunedau lle y gellir osgoi hynny. Yn yr un modd, nid yw etholaeth sy'n rhychwantu tair ardal bwrdeistref sirol yn dilyn uchelgais y Comisiwn i gadw ffiniau etholaethau i leiafswm nifer o ardaloedd cyngor, ac fe allai adael cymunedau fel Maesteg wedi'u gwahanu o ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â chynrychioli etholaeth sy'n cynnwys dinas.

[00:15:37]



Nid yw gwrthgynnig awgrymedig Pen-y-bont ar Ogwr yn cydnabod cysylltiadau hirsefydledig cymuned Betws â Chwm Garw, gan gynnwys y ward sy'n ffurfio rhan o Gyngor Cymuned Cwm Garw. Mae rhannu ffiniau cymunedol fel hyn yn anghynorthwyol gan nad yw'n cydnabod cysylltiadau hanesyddol cymunedau Blaengarw, Pontycymer a Llangeinor â Betws. Mae hefyd yn anwybyddu gwasanaethau meddyg teulu a rennir a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a adeiladwyd yn ddiweddar i wasanaethu Cwm Garw i gyd sydd i'w lleoli ym Metws.

O ran cynnig Gorllewin Caerdydd, nid yw ychwanegu wardiau Brynnau, Llanhari a Llanharan yn adlewyrchu unrhyw gysylltiad â'r cymunedau hyn o gwbl, a byddai pobl yn rhyfeddu y gallent fyth fod yn rhan o etholaeth Gorllewin Caerdydd. Yn olaf, nid yw'r cynnig ar gyfer etholaeth y Rhondda yn cydnabod y ffaith bod tref Pencoed neu Fryncethin yn defnyddio'r holl wasanaethau sy'n gysylltiedig â Phen-y-bont ar Ogwr.

O ystyried y pryderon yn yr ymateb gan etholwyr gan gynnwys..., ynglŷn â chynnwys wardiau sy'n ffurfio rhan o dref Pen-y-bont ar Ogwr yng nghynnig Aberafan Porthcawl, fe allai'r Comisiwn ddymuno ystyried cynnig cychwynol ar gyfer newid bach. O ystyried y cysylltiadau cymunedol agos sydd gan yr ardaloedd preswyl hyn â thref Pen-y-bont ar Ogwr, addasiad llai fyddai cynnwys ward Llangennith a Brynhyfryd a ward Cefn Glas yn rhan o etholaeth arfaethedig Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r ddwy ardal wedi'u rhyng-gysylltu gydag ystadau tai mawr wedi'u hadeiladu dros nifer o flynyddoedd ac wedi'u cysylltu trwy wasanaethau addysg, iechyd a chymunedol.

Er y deëllir na fydd y Comisiwn yn ystyried ffiniau wardiau, dylid nodi y byddant yn dod yn un ward ar ôl mis Mai 2022. Byddai hyn yn golygu bod gan etholaeth Aberafan 73,554 o bobl ar ben isaf y cwota a bod gan Ben-y-bont ar Ogwr ychydig dros 77,626. I ddarparu ar gyfer hyn, gallai ward Cefn Cribwr symud o etholaeth arfaethedig Pen-y-bont ar Ogwr i etholaeth arfaethedig Aberafan Porthcawl i gynyddu ac ailgydbwysu'r niferoedd. Mae Cefn Cribwr eisoes yn rhannu gwasanaethau â Mynyddcynffig a'r Pîl, a bydd y Comisiwn yn ymwybodol bod Mynyddcynffig a'r Pîl eisoes yn rhan o etholaeth arfaethedig Aberafan a Phorthcawl.

Cadeirydd: Cael a chael! [mae'n chwerthin]


CE: Fe ddechreuoch chi ddweud, diolch, diolch.

Cadeirydd: Diolch, Chris. Ga'i ofyn i fy Nghomisiynwyr Cynorthwyol a oes ganddynt unrhyw gwestiynau ar gyfer eglurhad? Da iawn. A hoffai unrhyw un yn y gynulleidfa ofyn unrhyw gwestiynau at ddibenion egluro? Na? Wel, diolch, Chris. Ga'i ofyn i hynny gael ei....

CE: Rydym wedi anfon y nodiadau trwy neges e-bost. Rydym wedi gwneud hynny y bore 'ma. Fe ddylai fod gennych chi.

Cadeirydd: Gwych. Diolch.

CE: Iawn. Diolch.



Cadeirydd: Diolch.

CE: Diolch yn fawr.

[00:17:54]

Cadeirydd: lawn. Ie. Ein cyfrannwr nesaf yw Siân Boyles, sy'n cyfrannu fel unigolyn.

SB: Diolch. Diolch am y cyfle i'ch annerch y prynhawn 'ma. Fe ddechreuaf eto. Diolch am y cyfle i'ch annerch y prynhawn 'ma. Fy enw i yw Siân Boyles ac rwy'n cynrychioli preswylwyr Hengoed yn bersonol.

Cyfeiriaf at y cynigion cyhoeddedig, y cynigion cychwynnol ar gyfer ail-lunio ffiniau'r etholaeth a hoffwn wneud y sylwadau canlynol, i'r sylwadau canlynol gael eu hystyried yn rhan o'r broses ymgynghoriad cychwynnol.


A minnau'n byw yn Hengoed, rwy'n pryderu am y cynnig cychwynnol i rannu etholaeth bresennol Caerffili rhwng pedair etholaeth newydd, ond rwy'n pryderu'n arbennig am yr awgrymiadau ynglŷn â chysylltu rhan isaf etholaeth bresennol Caerffili â rhan orllewinol etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd i greu etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili, ac ardaloedd presennol canol etholaeth Caerffili i ffurfio etholaeth newydd Islwyn.

Mae'r gwrthgynnig a gyflwynwyd gan Wayne David AS ar gyfer Caerffili i greu etholaeth newydd Caerffili â 75,092 o etholwyr ac etholaeth newydd Gorllewin Casnewydd ac Islwyn â 70,031 o etholwyr yn cyd-fynd â meini prawf y Comisiwn, heb gael unrhyw effaith weddilliol ar yr etholaethau cymdogol.

Rwyf wedi byw yng Nghwm Rhymni ar hyd fy oes ac nid wyf erioed wedi teimlo bod gennyf gysylltiad â Chasnewydd ar gyfer unrhyw weithgareddau hamdden na busnes; mae fy nghysylltiad â Chaerdydd yn bennaf. Un o'r prif resymau dros hyn yw'r cysylltiadau teithio gwell o lawer rhwng fy nghartref a Chaerdydd, boed hynny yn y car neu drwy drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r cysylltiadau ffyrdd â Chaerdydd yn well o lawer nag â Chasnewydd, ac i deithio i Gasnewydd ar y trê'n byddai'n rhaid i mi adael y sir, a mynd i Gaerdydd yn gyntaf. Ac wrth deithio ar y bws, i gyrraedd rhan o'r etholaeth newydd arfaethedig, byddai'n rhaid i mi fynd i ganol dinas Casnewydd yn gyntaf ac yna teithio allan. Mae hyn hefyd yn wir i breswylwyr Cwm Rhymni sy'n teithio ar gyfer cyflogaeth, gan eu bod yn fwy tebygol o deithio tua'r de i Gaerdydd ar gyfer cyflogaeth yn hytrach na thua'r dwyrain i Gasnewydd.

[00:20:28]

Mae'r gwrthgynnig yn amgenach na chynnig cychwynnol y Comisiwn Ffiniau mewn sawl ffordd. Mae'n ystyried yr ystyriaethau daearyddol arbennig, yn nodedig y bwlch gwledig mawr rhwng cymunedau Machen yn etholaeth Caerffili a Rhiwderyn yn ward Graig yng Ngorllewin Casnewydd. Agoswydd cymunedau Risga a Crosskeys yn etholaeth Islwyn i Dŷ-du yn etholaeth Gorllewin Casnewydd, a'r cysylltiadau naturiol agos rhwng wardiau'r Coed-duon, Pontllan-fraith, Cefn Fforest, Pengam a Maesycymer, sydd oll yn etholaeth Islwyn. Maen nhw wedi'u cysylltu â wardiau Llanbradach, Ystrad Mynach, Hengoed a St Cattwg sydd yn etholaeth Caerffili. Ac roedd Maesycymer yn etholaeth Caerffili tan yn ddiweddar,



mewn gwirionedd. Yn y rhan hon o dde Cymru, mae'r cymoedd yng Nghwm Rhymni a Dyffryn Sirhywi yn gymharol eang, ac mae cyfathrebu rhwng cymunedau yn yr ardal hon yn syml ac yn rhwydd.

O ran cysylltiadau lleol, daearyddiaeth, hanes a hunaniaeth, mae cysylltiadau cryfach o lawer rhwng yr etholwyr yn y ddwy etholaeth yn y cynnig hwnnw nag yng nghynnig cychwynnol y Comisiwn Ffiniau. Yn y bôn, mae'r cymunedau ger Cwm Rhymni wedi tueddu i edrych tuag at ddinas Caerdydd, tra bod y cymunedau yn nwyrain Dyffryn Sirhywi yn edrych tuag at Gwent, wedi edrych tuag at Gwent ac yn dal i edrych tuag at Gwent a dinas Casnewydd.

Un ffactor mawr ar gyfer daearyddiaeth newydd Cwm Rhymni yw Afon Rhymni sy'n llifo trwy fwyafrif y pentrefi a gynigir yn y newidiadau hyn, sef Pengam, Hengoed, Ystrad Mynach a Llanbradach, ac mae afonydd pentrefi fel Senghenydd ac Abertridwr yn llifo i Afon Rhymni yng Nghaerffili, ymlaen trwy Fedwas a Thretomas a Machen ac yna allan i Afon Hafren. Yn ddaearyddol, ers cannoedd o flynyddoedd a chenedlaethau, mae cymunedau a diwydiannau yng Nghwm Rhymni wedi tyfu a datblygu o amgylch Afon Rhymni.


Mae Cwm Rhymni wedi bod dan ddylanwad y diwydiant glo ers cenedlaethau ac mae'r cymunedau wedi tyfu trwy hynny. Roedd y gweithwyr yn croesi'r cwm o'r gogledd i'r de i ddod o hyd i waith ac wedi ymgartrefu mewn amryw bentrefi, gan wneud cysylltiadau sy'n ymestyn o Senghenydd yn y de i Benallta yn y canol, Llanbradach ac yna i fyny i Dderi ym mhen gogleddol pellaf y cwm. Er bod y diwydiannau glo wedi hen fynd, mae cymunedau'r cymoedd, gyda'u clymau a'u hanesion, yn parhau i fod yn gryf hyd heddiw yn y cymunedau hyn.

Mae hanes diwylliannol sy'n cysylltu'r pentrefi a'r cymunedau hyn hefyd trwy'r iaith Gymraeg a'r ysgolion yn yr ardal leol, ac mae'r plant yn hidlo i mewn ar gyfer ysgolion amrywiol o Senghenydd i Abertridwr, Caerffili, Hengoed, Ystrad Mynach, Maesycymer – i enwi ond ychydig – maen nhw i gyd yn bwydo i'r unig ysgol gyfun Gymraeg yn y sir sydd wedi'i lleoli ar ddau safle, sef Gwyndy yng Nghaerffili a Gelli Haf yn Fleur-de-lis. Gellir hefyd ychwanegu'r cysylltiadau chwaraeon cryf o Gwm Rhymni y mae'r holl bentrefi'n bwydo iddo.... Gan gymryd rygbi fel enghraifft, mae'r holl rygbi llawr gwlad yn bwydo i mewn o dimau pentref i'r clybiau mwy fel Penallta, Bedwas, y Coed-duon a Chaerffili.

Felly, mae Rheol Pump yn Atodlen Dau y Ddeddf yn pennu nifer o ffactorau y caiff y Comisiwn eu hystyried. Yn arbennig, maint, ffurf a hygyrchedd etholaethau a chysylltiadau lleol, a byddai'r rheiny'n cael eu torri gan newidiadau i'r etholaethau hyn. Mae'r Comisiwn o'r farn bod ffiniau cymunedol presennol yn debygol o fod wedi cael eu creu gan gydnabod y cysylltiadau lleol hyn, ac felly'n debygol o adlewyrchu cysylltiadau lleol. Felly, polisi'r Comisiwn yw peidio â rhannu cymunedau presennol. Oni bai nad oes datrysiadau eraill ar gael a fydd yn galluogi cydymffurfio â'r ystod statudol o ran nifer yr etholwyr, credaf fod hynny'n hyfyw yn y cynnig hwn.

[00:24:00]

Mae'r gwrthgynnig, fel cynnig cychwynnol y Comisiwn, yn rhannu dinas Casnewydd, ond gwnaethom osod wardiau hunaniaeth Gorllewin Casnewydd



gydag etholaeth Islwyn sydd wedi'i chwtdogi yn hytrach na chyda thref Caerffili a'i chyffiniau. Mae'r gwrthgynigion a'r cynnig cychwynnol ill dau yn rhychwantu ardal dau awdurdod lleol. Ni fyddai'r cynnigion hyn yn cael ôl-ffaith ar etholaethau eraill y tu allan i'r tair etholaeth berthnasol. Mewn geiriau eraill, mae'r gwrthgynnig yn adleoli'r wardiau o fewn ffin y Comisiwn Ffiniau ar gyfer Casnewydd, Caerffili ac Islwyn. Fel rhywun sy'n byw yn etholaeth Caerffili, credaf yn bendant bod cymuned ac ymddiriedaeth gryfach o lawer yn y ddwy etholaeth a amlygwyd yng ngwrthgynnig Wayne David AS, a gofynnaf i chi roi ystyriaeth ofalus i'r cynnig hwn. Diolch yn fawr am eich amser.

Cadeirydd: Diolch. Siân, ga'i ofyn i chi egluro? Ar y dechrau, fe ddywedoch eich bod yn siarad fel preswylwr yn Hengoed ac yna fe ddywedoch eich bod yn siarad ar ran preswylwyr Hengoed. Pa un ydyw, er mwyn....?

SB: Fel preswylwr yn Hengoed, ie, sori.

Cadeirydd: Fel preswylwr. Iawn.

SB: Ychydig yn nerfus, dyna'i gyd. [mae'n chwethin]

Cadeirydd: Na, popeth yn iawn. [mae'n chwethin] Roeddwn i eisiau gwneud yn siŵr nad oeddech yn siarad ar ran grŵp. Iawn, diolch. Oes gan fy Nghomisiynwyr Cynorthwyol unrhyw gwestiynau?

Gwryw anhysbys: Nac oes.

Cadeirydd: Huw?

RP: Diolch yn fawr. Roger Pratt, o'r Blaid Geidwadol. Rydych chi newydd gadarnhau wrth Ysgrifennydd y Comisiwn eich bod yn breswylwr yn Hengoed ac fe siaradoch am beidio â rhoi Hengoed yng Nghasnewydd a bod dim cysylltiad â Chasnewydd. Nid yw cynnigion y Comisiwn yn eich rhoi mewn sedd gyda Chasnewydd, on'd ydynt?

SB: Na, fe ddywedais y byddai Caerffili yng Nghasnewydd ac y byddai Hengoed yn Islwyn. Mae'r cysylltiadau gydag Islwyn.

RP: O, iawn. Ond ni fyddech chi'n etholwr mewn gwirionedd. Ni fyddech chi, yn bersonol, yn etholwr.

SB: Na, ni fyddwn i, yn bersonol. Ond byddai'r cysylltiadau cymunedol.


RP: Iawn, diolch.

SB: Diolch.

Cadeirydd: A oes rhagor o gwestiynau gan y gynulleidfa? Na? Diolch, Siân.

[00:25:58]

SB: Diolch.



Cadeirydd: Diolch. Iawn, faint o'r gloch yw hi? A yw'n hanner awr wedi un?

Gwryw anhysbys: Ydy, mae'n hanner awr wedi un, yn union.


Cadeirydd: Nid yw ein siaradwr nesaf wedi'i drefnu tan ugain munud i ddau, ond ga'i ofyn a yw Andrew Rice yma? O, dyna ni. Un eiliad. Ydych chi'n fodlon dod i fyny wedi hynny? Ie. A yw Thomas Henry-Jones yma? O, perffaith. Felly, fe ddewch chi ymlaen ar ôl Andrew, os yw hynny'n iawn. Ie? Iawn, ein siaradwr nesaf fydd Andrew Rice, sydd yma fel cyfrannwr unigol. Diolch.

AR: Diolch. A diolch am roi'r cyfle i mi siarad y prynhawn 'ma. Fel y dywedwch, rwyf yma fel preswylwr ym Mro Morgannwg mewn rhinwedd bersonol. Rwyf wedi byw ym Mro Morgannwg ers 1993 ac wedi bod yn gweithio ym Mro Morgannwg ers 1991. Tan yr adeg hon y llynedd, roeddwn yn heddwys ym Mro Morgannwg ac, yn berthnasol i'r materion yr hoffwn eu trafod heddiw, sef y cynnig arfaethedig i symud ward Dinas Powys o Fro Morgannwg i Dde Caerdydd a Phenarth, roeddwn hefyd yn gomander yr heddlu ar gyfer Penarth a'r fro wledig, heb gynnwys y Barri, rhwng 2018 a 2020. Rwyf bellach yn gweithio fel gweithiwr achos ar gyfer Alun Cairns, AS Bro Morgannwg, ond nid wyf yma ar ran Mr Cairns, nid wyf yma ar ran y Blaid Geidwadol. Rhaid i mi bwysleisio fy mod yn siarad o safbwynt personol. Fy safbwyntiau i yw unrhyw rai a roddir, ac nid ydynt yn adlewyrchu'r Blaid Geidwadol nac, a rhaid i mi bwysleisio hyn, Heddlu De Cymru. Nid wyf yma i gynrychioli Heddlu De Cymru nac unrhyw safbwyntiau a allai fod ganddynt ar y materion hyn.

Felly, y cynnig, fel y'i deallaf, yw y bydd ward Dinas Powys yn symud o'i safle presennol yn etholaeth Bro Morgannwg i etholaeth De Caerdydd a Phenarth. Ni allaf weld synnwyr hynny. Os edrychwn ar ddaearyddiaeth yr etholwyr ar hyn o bryd, mae Dinas Powys yn ward, mae'n ardal ddaearyddol fawr. Nid yw'n ffinio â Chaerdydd heblaw yn rhan ogleddol daearyddiaeth y ward, ac yn y man hwnnw ceir rhwystr ffisegol yn llythrennol ar ffurf ffordd ddeuol yr A4232. Er mwyn teithio o Ddinas Powys i Gaerdydd, mae'n rhaid i chi fynd trwy Landochau neu drwy Benarth, fel arfer. Felly, nid oes cyfatebiaeth naturiol yn ddaearyddol, a byddai rhai yn dweud, byddai rhai yn ystyried bod Dinas Powys yn faestref o Gaerdydd, yn faestref gymudo o Gaerdydd. Efallai bod hynny'n wir am rai o'r ystadau ym mhentref Dinas Powys, ond mae Dinas Powys ei hun, sef y ward, yn ward wledig. Fe allwch weld maint y ward trwy edrych ar y map, ac mae pentref Dinas Powys ei hun yn rhan fach yn unig o'r ward honno. Ward wledig ydyw sydd â nifer fawr o ffermydd a chymunedau gwledig, ac mae'n gweddu'n naturiol i Fro Morgannwg ehangach, sef etholaeth wledig arall. I mi, nid yw'n gwneud synnwyr symud yr hyn sy'n gymuned wledig, i bob pwrpas, i gymuned drefol De Caerdydd a Phenarth.

[00:29:36]

Ac fel rhywun sy'n byw yn y Fro, rwy'n pryderu am yr hyn y byddwn i'n ei alw'n golli hunaniaeth ar gyfer Bro Morgannwg. Bydd Bro Morgannwg yn dioddef, yn naturiol, a hithau ar gyrion Caerdydd, gan fod y buddsoddiad, y buddsoddiad economaidd, y sylw a'r seilwaith yn tueddu i gael eu canolbwyntio ar Gaerdydd. Ac, yn fy marn i, mae angen i gymunedau Bro Morgannwg, gan gynnwys Dinas Powys, gael eu cynrychiolydd eu hunain i weithredu ar eu rhan a pheidio â dioddef o bosibl o gael eu hystyried yn rhan o Gaerdydd. Nid wyf yn breswylwr Dinas Powys, yn sicr, ac fe ddylwn fod wedi pwysleisio hynny ar y dechrau. Rwy'n breswylwr y Rhws ac yn



breswylwr Bro Morgannwg. Rwy'n teimlo i'r byw bod Bro Morgannwg yn endid ar wahân; mae'n awdurdod unedol ar wahân ac mae ar wahân i Gaerdydd. Ac mae'r cynigion hyn, o ran newidiadau i ffiniau, yn cymryd rhan ddaearyddol sylweddol o Fro Morgannwg a'i gosod o fewn etholaeth Caerdydd. Fel preswylwr Bro Morgannwg, credaf fod hynny'n erydu hunaniaeth Bro Morgannwg. Ac, yn sicr, credaf fod unigolion sy'n byw yng nghymunedau gwledig ward Dinas Powys yn debygol o feddwl yr un peth. Ac rwy'n amau p'un a fydd, pwy bynnag yw'r cynrychiolydd etholedig ar gyfer y ward newydd, os bydd yn cael ei chreu, ac nid yw hyn yn feirniadaeth ar unrhyw unigolyn a allai ymgymryd â'r rôl honno, mae'n anochel y bydd ei sylw'n canolbwyntio ar Gaerdydd. Mae llawer o broblemau cymdeithasol yn Ne Caerdydd. Roeddwn yn ymwybodol o hyn pan oeddwn yn heddwac ac roedd y sylw'n sicr yn canolbwyntio ar Gaerdydd, ac roedd y Fro weithiau'n cael ei gweld fel ôl-ystyriaeth. Nawr, nid wyf yn awgrymu am eiliad nad yw'r problemau a'r materion cymdeithasol yn etholaeth De Caerdydd yn arwyddocaol, ond os oeddwn yn breswylwr Bro..., Dinas Powys, byddwn eisieu i'm cynrychiolydd etholedig fod yn cadw llygad ar faterion sy'n berthnasol i mi. A thrwy symud y ward i Dde Caerdydd a Phenarth, credaf y bydd y pwyslais ar y rhan De Caerdydd ohoni. A hyd yn oed os nad yw hynny'n wir, mewn gwirionedd, gallai pleidleiswyr a phreswylwyr yn y ward gredu hynny, a theimlaf ar lefel bersonol bod hyn yn anghywir. Nid yw'n edrych go iawn ar y cymeriad, nid yw'n edrych ar y ddaearyddiaeth ac, os deallaf y cynigion yn iawn, mae'n gam a gymerir dim ond ar sail nifer y preswylwyr yn hytrach na chyfanrwydd gwirioneddol cymunedau. Dyna sut rydw i'n ei weld. Gofynnaf i'r Comisiwn ystyried y sylwadau hyn wrth wneud eu penderfyniad terfynol. Diolch.

Cadeirydd: Diolch. A oes gan fy Nghomisiynwyr Cynorthwyol...? Steven?

SP: Oes, diolch. A diolch am y cyflwyniad. Rwy'n credu y buoch yn glir iawn ynglŷn â'r safbwynt o Ddinas Powys, fel petai. Ond ga'i ofyn a ydych wedi myfyrio ar y ffaith, os oedd Dinas Powys yn cael ei dileu o Dde Caerdydd a Phenarth, byddai hynny'n golygu bod yr etholaeth honno'n fyr iawn o'r lleiafswm statudol ac fe allai arwain at rai newidiadau eithaf cynhwysfawr o bosibl neu olygu bod rhaid gwneud rhai newidiadau cynhwysfawr mewn manau eraill yng Nghaerdydd?

AR: Sori, fe allwch weld... nid yw'r etholaeth yn rhan o etholaeth De Caerdydd a Phenarth ar hyn o bryd. Rydych yn awgrymu trwy beidio â'i symud i'r etholaeth honno, y bydd y niferoedd yn...?


SP: Os byddwch yn dileu Dinas Powys o'r ffurfwedd yn y cynigion cychwynol, mae hynny'n golygu, yn ôl fy nghyfrifiadau, bod De Caerdydd a Phenarth ryw 6,000 o etholwyr yn fyr o'r lleiafswm.

[00:33:52]

AR: Ni allaf wneud sylwadau ar y niferoedd ac ni allaf ddadlau'r pwynt hwnnw, ond soniais tua diwedd fy nghyflwyniad fod y cynigion wedi'u seilio ar niferoedd yn unig, nid ydynt yn edrych ar hunaniaeth...

SP: Iawn.

AR: Y ward ac anghenion y preswylwyr yn y ward honno.



AC: lawn. Ga'i wirio, ydych chi'n ystyried hunaniaeth ddiwylliannol Dinas Powys ynddi'i hun neu'n ystyried bod angen i'r hunaniaeth honno gael ei chysylltu â Bro Morgannwg? Oherwydd os caiff ei lleoli'r naill ffordd neu'r llall, bydd yn cadw ei hunaniaeth ddiwylliannol ei hun o hyd.

AR: Mae Dinas Powys yn rhan o Fro Morgannwg ar hyn o bryd, a chredaf drwy ei symud, yn fy marn i'n bersonol, drwy ei symud i Dde Caerdydd a Phenarth, rydych yn lleihau hunaniaeth Dinas Powys oherwydd eich bod yn ei hystyried yn rhan o Gaerdydd, fel maestref o Gaerdydd. Ac nid yw'n faestref o Gaerdydd yn fy marn i, mae'n dref ar wahân, yn ward ar wahân ac mae'n rhan o Fro Morgannwg.

AC: lawn.

Cadeirydd: A oes unrhyw un yn y gynulleidfa a hoffai ofyn unrhyw gwestiynau ar gyfer eglurhad? Os na? Diolch, Andrew.

AR: Diolch.


Cadeirydd: Diolch. Diolch, Hugh. Ga'i wahodd Thomas Henry-Jones i ddod i fyny, os gwelwch yn dda?

THJ: Prynawn da, fy enw i yw Tom ac rwy'n siarad fel preswylwr Caerdydd sy'n gweithio ym Mro Morgannwg, a byddaf yn siarad am y rhesymau pam rwyf yn credu y dylai Dinas Powys aros yn rhan o Fro Morgannwg. Credaf y dylai aros yn rhan o Fro Morgannwg oherwydd ffactorau daearyddol, cymdeithasol a chymunedol, yn ogystal â hunaniaeth gref sydd gan Ddinas gyda Bro Morgannwg, yn fy marn i. Credaf yn reddfod fod Dinas yn gymuned wledig. Mae'n bentref, mae'n gymuned fach, ac mae mewn perygl o gael ei llyncu gan ganolfan drefol Fetropolitan De Caerdydd. Credaf nad oes ganddi unrhyw gysylltiadau â Chaerdydd mewn gwirionedd ac nad yw'n edrych tuag at Gaerdydd yn yr un fath o ffordd ag y mae Penarth. Ie, rwy'n credu bod perygl y gallai hunaniaeth gymunedol gref Dinas gael ei llyncu gan ganolfan drefol Caerdydd.

Yn ddaearyddol, mae Dinas wedi bod yn rhan o'r Fro am gannoedd o flynyddoedd, ac rwy'n credu ei bod yn adnabod, rwy'n credu ei bod yn ei gweld ei hun yn rhan o'r Fro. Ei chanolfan weinyddol yw'r Barri. Nid yw hynny'n mynd i newid. Credaf fod pobl yn edrych tuag at y Barri am ofal iechyd, am swyddi, am resymau economaidd a chymdeithasol, ac nid wyf yn credu y bydd hynny'n newid yn sgil y cynnig. Os caiff hyn ei roi ar waith, credaf y bydd Dinas bob amser yn edrych tuag at y Barri yn hytrach na Chaerdydd neu Benarth.

[00:36:55]

Un rheswm cryf arall yw fy mod yn credu y gallai'r newidiadau arfaethedig hyn ddrysu etholwyr. Yn Dinas Powys, os cânt eu symud i Benarth a Chaerdydd, mae preswylwyr Penarth yn drysu'n rheolaidd ynglŷn â phwy yw eu Haelod Seneddol oherwydd ffiniau cyngor unedol y Fro. Credaf y bydd y symudiad arfaethedig hwn yn creu mwy o ddryswch.



Os bydd Dinas yn dod yn rhan o Benarth, eu Haelod Seneddol fydd Steven Doughty ond eu hawdurdod unedol a'u cyngorwyr lleol fydd Cyngor y Fro, a'u haelod o'r Senedd fydd Jane Hutt, sydd yn y Fro. Wn i ddim a yw hynny'n newid mor fawr, ond credaf y bydd symudiadau arfaethedig o'r math yma yn achosi mwy o ddryswch i etholwyr sy'n ceisio cymorth, ac efallai na fyddant yn ceisio'r cymorth hwnnw os ydynt yn ansicr pwy yw eu cynrychiolydd.

Un pwynt arall. Credaf nad yw'r cysylltiadau trafndiaeth rhwng Dinas a Chaerdydd yn wych. Credaf os ydych yn teithio mewn car i Gaerdydd, mae'n gallu cymryd hyd at 20 munud, yn enwedig pan fydd y traffig yn wael, ac mae'r cysylltiadau rhwng Dinas a Phenarth yn eithaf gwan. Byddai'n rhaid i chi gael trê'n o Ddinas i Gaerdydd i newid er mwyn mynd yn ôl allan i Benarth. Nid yw hynny'n gysylltiad uniongyrchol rhwng Dinas a Phenarth.

Felly, i grynhoi, credaf fod hyn yn fater o gysylltiadau lleol a'r hunaniaeth gymunedol gref sydd yn Ninas Powys. Credaf ei bod yn gymuned bentref fach wledig sydd mewn perygl o gael ei llyncu gan ganolfan drefol Caerdydd a'i bod mewn perygl o gael ei hanwybyddu. Bydd y cam hwn yn achosi mwy o ddryswch gweinyddol ac yn niweidio hunaniaeth gymunedol gref. Diolch.

Cadeirydd: Diolch. A oes unrhyw gwestiynau ar gyfer eglurhad? Mae gennyf un, mae'n ddrwg gen i. Fe grybwylloch yr ardal o amgylch Dinas Powys a'i bod yn gryf. Wyddoch chi, mae'n ddwyrain y Barri, mae'n ganolfan weinyddol. Felly, pe byddai'n rhaid i ni aildrefnu a'u symud i gyd gyda'i gilydd...?

THJ: Pa rai, symud...?

Cadeirydd: Dinas Powys a'r Barri.

THJ: Yn un i Gaerdydd?

Cadeirydd: Ie. A fyddai, ai'r mater yw bod y rhain i gyd yn bobl Bro Morgannwg?

THJ: Ie.


Cadeirydd: Ai dyna graidd y mater, er mwyn cadarnhau?

THJ: Credaf fod Dinas yn uniaethu mwy â'r Barri nag ydyw â Chaerdydd. Felly, teimlaf petaech chi'n symud y Barri a Dinas gyda'i gilydd, byddai ychydig bach ar ôl i ddechrau, yn ôl pob tebyg, rwy'n cytuno.

Cadeirydd: Iawn, dim ond er mwyn cadarnhau. Dyna'i gyd. Diolch.

[00:39:14]

AC: Ga'i wirio hefyd, o ran y siaradwr diwethaf yn ogystal â phwynt Steve, trwy beidio â symud, rydych yn creu carfan lai. Ydych chi wedi meddwl am sut byddech yn datrys hynny?



THJ: Ar hyn o bryd, mae gan Fro Morgannwg y niferoedd cywir ac rwy'n teimlo, ie, drwy newid hynny rydych yn difetha un rhan o'r Fro dim ond er mwyn datrys problem arall, os deallwch chi fi? Felly, ie.

AC: lawn, iawn.

Cadeirydd: A hoffai unrhyw un o'r gynulleidfa ofyn cwestiwn ar gyfer eglurhad? Na? Dyna ni.

THJ: Diolch.

Cadeirydd: Diolch.

Nid ydym yn disgwyl ein siaradwr nesaf tan ddeg munud wedi dau. Felly, awgrymaf, rwy'n gwybod ein bod ni newydd ddechrau am un o'r gloch, ond rwy'n mynd i awgrymu cael egwyl tŷ bach [mae'n chwethin] nes bod ein siaradwr nesaf yma oherwydd y gwahaniaeth amser. Ie, mae'n chwarter i, felly os bydd yn cyrraedd erbyn dau gobeithio y gallwn ddechrau'n gyflym bryd hynny. Felly, ga'i awgrymu ein bod yn dychwelyd am ddau o'r gloch? Ydy hynny'n iawn? Diolch.


KH: ...tipyn llai o ymgysylltiad â chymunedau lleol. Ychydig iawn o ddealltwriaeth oedd gan y rhan fwyaf o bobl o'r hyn oedd yn cael ei gynnig ac ychydig iawn o bobl oedd â'r gallu i herio unrhyw beth. Mae pethau wedi gwella ychydig yn ystod y 40 mlynedd diwethaf. Ac fe af ymlaen nawr i'm profiad fel ysgrifennydd Canolfan Glowyr Caerffili. Rwyf wedi bod yn ysgrifennydd y prosiect ers 2008. Cymerais ran oherwydd i mi ddigwydd clywed yn 2006 bod ein hysbyty annwyl yn mynd i gau, a heblaw am rai cyfarfodydd cyhoeddus gwasgarog, nid oedd cyfle tan 2008 i wneud cynrychiolaethau effeithiol yn rhan o'r cynllun datblygu lleol am ddyfodol yr adeilad.

Am y ddwy flynedd nesaf, tan i gynllun datblygu lleol 2010 gael ei fabwysiadu, gwawdiwyd ein cynnig i gadw rhan o Ysbyty'r Glowyr ar agor fel canolfan gymunedol a gwnaed i ni deimlo fel petaem yn herio ac, o bosibl, yn tansilio'r datrysiad amlwg i'r safle gwag, sef clirio'r safle ar gyfer tai. Mae fy nghymuned yn dal i ddal dig bod penderfyniadau wedi cael eu gwneud ac yn cael eu gwneud hebdi.

14 blynedd yn ddiweddarach, rydym ar fin cwblhau gwaith adnewyddu gwerth dwy fil..., dwy filiwn o bunnoedd ar ein hadeilad eiconig, un a fyddai wedi cael ei ddymchwel, ac mae 350 o bobl yr wythnos yn dod o fannau ymhell y tu hwnt i fasn Caerffili i fwynhau ein gwasanaethau a'n gweithgareddau. Mae gennym drosiant o fwy na 100,000 y flwyddyn, ac mae wyth busnes newydd ar fin cael eu lletya fel canolfan therapi lles ar lawr uchaf yr adeilad. Fy mhwynt yw bod dewis amgen bob amser, un a allai fod yn well na'r un a feddylwyd amdano gyntaf.

[00:42:25]

Rwy'n cael cyfle i siarad â llawer o bobl o lawer o wahanol gefndiroedd, ac mae'r blynyddoedd lawer o wrando ar yr hyn sydd gan bobl i'w ddweud wedi dangos i mi ba mor bwysig ydyw bod gan bobl ymdeimlad o le a hunaniaeth leol, a bod hynny'n eu helpu i weithredu ac o fudd i'w lles. Mae hefyd yn bwysig iawn cadw pethau'n syml a newid pethau cyn lleied â phosibl. Felly, y cwestiwn yr hoffwn ei ofyn yw, pam byddech chi eisiau symud y ffiniau seneddol ar draws ffin sirol y mae pobl yn ei deall? Ni all llawer o'm ffrindiau a'm cydnabod ddeall sut mae'r ffiniau



arfaethedig hyn wedi cael eu llunio yn y modd hwn. Petaent wedi gwybod am y cyfleoedd ar gyfer ymgynghori, byddent wedi mynegi eu dryswch a'u gelyniaeth tuag at y cynnig hwn, a'u teimladau o gael eu difreinio, y maen nhw wedi'u mynegi i mi.

Y bobl; mae gan Ganolfan Glowyr Caerffili ei threftadaeth gymdeithasol ei hun, sy'n gysylltiedig â'r 10,000 o lowyr o'r 29 o byllau yng Nghwm Rhymni. Mae atgofion pobl a'u hymdeimlad o hunaniaeth yn helpu i sicrhau bod ein cymunedau'n gydnerth. Mae'r rhan fwyaf o'n cydnabod yn falch o Gaerffili, mae ganddynt ymdeimlad cryf o hunaniaeth leol ac mae eu cysylltiadau â Chwm Rhymni yn bennaf yn hytrach na Chasnewydd. Mae gennym brosiectau a busnesau newydd yn dod o fannau ymhellach i'r gogledd o'r ffin, ond ychydig iawn sy'n dod o ochr ddwyreiniol y sir, a dim byd o gwbl o Gasnewydd.

Mae gan Gaerffili, fel man canolog, ddalgylch sy'n cynnwys Cwm Aber, Cwm Rhymni, yn enwedig i fyny i Fargoed, ac, yn draddodiadol, mae gan Gaerffili a'r Coed-duon wasanaethau cyflenwol, darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol, cyfleusterau siopa a chysylltiadau trafndiaeth da. Mae llawer o bobl yn teithio'n rheolaidd i'r Coed-duon, Ystrad Mynach a Bargoed i weld teulu, mynd i siopa, mynd i'r sinema neu gyfarfod â ffrindiau.


Nid wyf yn credu y bu arfarniad o opsiynau ar gyfer y gwahanol ffiniau posibl ar gyfer etholaeth seneddol Caerffili. Pe byddai hyn wedi cael ei wneud, byddai'r opsiwn i gynnwys Pontllan-fraith a'r Coed-duon, yn hytrach nag ymestyn i Orllewin Casnewydd, wedi cael ei gynnig. Mae hyn yn gwneud mwy o synnwyr o ran hunaniaeth deuluol, patrymau teithio cymdeithasol, ymdeimlad o berthyn a chefnidiroedd diwylliannol pobl. Byddai hefyd yn gwneud mwy o synnwyr i'r ffiniau seneddol gydffinio gymaint â phosibl â ffiniau'r cyngor sir a Llywodraeth Cymru. Nid yw'n gwneud synnwyr yn weinyddol i ddewis ffiniau gwahanol ar hap. Rydym wedi gweld hyn yn sgil ad-drefnu ffiniau iechyd a gofal cymdeithasol, llywodraeth leol, y sector gwirfoddol, cyfleustodau cyhoeddus a'r heddlu, sydd oll yn wahanol. Mae'n hunllef lwyri i ddinasyddion wybod ble i fynd, ac mae'n rhaid ei bod yr un mor anodd i'r bobl sy'n ein cynrychioli.

Hoffem feddwl bod gan ein Haelod Seneddol ein buddiannau mewn golwg pan fydd yn ein cynrychioli. Sut gall Aelodau Seneddol wneud hyn os ydynt yn cynrychioli ardaloedd gwahanol sydd heb fuddiannau cyffredin? Nid oes gennym gysylltiad â Chasnewydd, anaml yr awn ni yno heblaw i fynd i Ysbyty Brenhinol Gwent, ac anaml y daw pobl Casnewydd atom ni heblaw ar gyfer gŵyl flynyddol y Caws Mawr. Nid oes unrhyw beth i'n gwneud yn rhan o Orllewin Casnewydd ac, yn yr un modd, nid ydym yn deall pam y bydden nhw eisiau bod yn rhan o Gaerffili. Felly, nid ydym yn hyderus y byddai ein buddiannau'n cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y cynigion hyn, felly, ailystyriwch, os gwelwch yn dda.

Cadeirydd: Diolch. Comisiynwyr Cynorthwyol?

[00:46:22]

AC: Dim ond er mwyn rhoi tawelwch meddwl, mewn gwirionedd, bod yr ymarfer cyfan hwn yn ailarfarniad o opsiynau, mewn ffordd, a dyna pam mae'n ddefnyddiol iawn



cael pobl fel chi a'ch adborth chi a'ch cymuned i fwydo i'r broses er mwyn i ni allu meddwl.

Cadeirydd: Diolch. A oes unrhyw gwestiynau neu bwyntiau eglurhad gan y gynulleidfa? Na? Diolch, Katherine. Jeff, a wnewch chi roi dwy funud i ni i ddiheintio ac fe'ch galwaf, fe'ch gwahoddaf i siarad? Diolch.

Ein cyfrannwr nesaf yw Jeff Cuthbert. Jeff, mae gennych 10 munud. Pan fyddwch yn cyrraedd wyth munud, bydd fy nghydweithiwr yn y cefn yn dangos rhybudd dwy funud i chi a bydd gennych ddwy funud i gloi. Pan fyddwch yn cyrraedd 10 munud, bydd rhaid i mi dorri ar eich traws a rhoi 30 eiliad i chi i gloi.

JC: Mae'n iawn. Rwyf wedi'i amseru'n wyth munud.

Cadeirydd: O, gwych.

JC: Dyna gopi o'r hyn y byddaf yn ei ddweud.

Cadeirydd: Os ca'i ofyn, o, rydych wedi'i roi yn eich araith, felly dyna ni. Os hoffech ddechrau, mae gennych 10 munud. Ymlaen â chi.

JC: Diolch. Fy enw i yw Jeff Cuthbert ac rwy'n gyn Aelod y Cynulliad ar gyfer etholaeth Caerffili. Ar hyn o bryd, fi yw Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent. Nid yw newid ffiniau seneddol yn effeithio ar blismona, er y byddai newid ffiniau awdurdodau lleol yn gwneud hynny. O ganlyniad, rwy'n gwneud y cyflwyniad hwn fel dinesydd preifat, er hynny'n un sydd â diddordeb brwd.


Sylweddolaf, wrth gwrs, fod y Comisiwn wedi cael y dasg o leihau nifer y seddau seneddol yng Nghymru. Tasg annymunol yw hon a fydd yn canolbwyntio'n anorfod ar nifer yr etholwyr fesul etholaeth yn hytrach na chyfanrwydd sefydledig cymunedau. Fodd bynnag, credaf fod cyfanrwydd cymunedau'n bwysicach, a dyna'r hyn y bwriadaf ganolbwyntio arno.

Dymunaf gofnodi'n ffurfiol fy ngwrthwynebiad i'r newidiadau a gynigir gan y Comisiwn i ddileu etholaeth Caerffili yn gyfan gwbl a rhannu'r etholaeth honno ymhlith etholaethau newydd eraill yn ne-ddwyrain Cymru. At hynny, hoffwn gofnodi'n ffurfiol fy nghefnogaeth i'r gwrthgynigion a gyflwynwyd gan Wayne David AS. Mae fy rhesymau fel a ganlyn.

Tref Caerffili yw'r dref fwyaf yng Ngwent. Mae wedi'i lleoli mewn man lle mae sawl cwm yn dod at ei gilydd ac, o ganlyniad, fe'i hystyriwyd yn brif ganolfan farchnad ar gyfer y rhan hon o dde Cymru ers cenedlaethau lawer. Yn wir, o fynd yn ôl mewn hanes, nid yw'n anodd deall pam yr adeiladwyd castell mawr ar y safle hwn o ystyried ei bwysigrwydd strategol a masnachol. Castell Caerffili yw'r ail gastell mwyaf yn Ewrop ac fe'i gelwir yn rheolaidd yn lleoliad pwysig ar gyfer ffilmiau a theledu, yn ogystal â bod yn atyniad twristiaeth mawr.

[00:49:46]

Ffurfiwyd etholaeth Caerffili ym 1918 i gydnabod ei phwysigrwydd cynyddol fel canolfan fasnachol a diwylliannol unigryw, ac yn enwedig fel canolfan ar gyfer



cloddio am lo ger y dref ac yn ei chefnwlad i'r gogledd, y gorllewin a'r dwyrain. Ym 1996, yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol, diddymwyd hen Gyngor Sir Morgannwg Ganol, Cyngor Sir Gwent, Cyngor Dosbarth Cwm Rhymni a Chyngor Dosbarth Islwyn o blaid un awdurdod unedol. Enwyd yr awdurdod unedol hwnnw'n Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, er ei fod yn ymestyn o dref Caerffili cyn belled i'r gogledd â Rhymni, cyn belled i'r dwyrain â Chrymlin, cyn belled i'r gorllewin â Nelson a Chwm Aber ac yn cynnwys llawer o gymunedau yn y canol. Rhoddwyd yr enw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili iddo i gydnabod statws tref Caerffili. Mae'r fwrdeistref sirol yn cynnwys etholaethau cyfan Caerffili ac Islwyn o fewn ei ffiniau a rhan ddwyreiniol etholaeth Merthyr a Rhymni.


Cynigion presennol y Comisiwn yw cyfuno llawer o ran ddeheuol etholaeth bresennol Caerffili â llawer o etholaeth Gorllewin Casnewydd a ffurfio etholaeth newydd. Nid wyf yn credu y bydd cynnig o'r fath yn cael cefnogaeth ystyrion gan bobl Caerffili na phobl Gorllewin Casnewydd. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod gan y ddwy ardal hanes, daearyddiaeth, treftadaeth ddiwydiannol a seilwaith trafndiaeth gwahanol iawn, iawn.

Gan gymryd y pwynt olaf am seilwaith trafndiaeth, mae'n wir bod prif ffordd o Gaerffili i Gasnewydd, sef yr A468, sy'n cael ei gwasanaethu gan lwybr bysiau. Fodd bynnag, mae'r prif gysylltiadau trafndiaeth yn mynd i Gaerdydd, nid i Gasnewydd, gan fod yr A469 yn teithio tua'r de i Gaerdydd ac mae ffordd ddeuol yr A470 filltir neu ddwy i ffwrdd. At hynny, mae prif lwybr rheilffordd Cymoedd Caerdydd yn cysylltu Caerdydd â Chaerffili a chyn belled i'r gogledd â Rhymni. Nid oes cysylltiad rheilffordd uniongyrchol â Chasnewydd o Gaerffili. Byddai'n rhaid teithio i Gaerdydd yn gyntaf ac yna dal trê'n gwahanol i Gasnewydd. Wrth fynd heibio, byddai'r cynnig a gyflwynwyd gan Wayne David AS yn cysylltu rhannau dwyreiniol etholaeth bresennol Islwyn â Chasnewydd, ac mae llinell reilffordd Glynebwy i Gaerdydd yn cynnwys cainc bellach a fyddai'n caniatáu teithio'n uniongyrchol i Gasnewydd ar adegau penodol o'r dydd.

O ran treftadaeth ddiwydiannol, mae'r ddwy ardal yn wahanol iawn. Fel y crybwyllwyd, roedd Caerffili yn ystod y 100 mlynedd diwethaf yn ganolfan ar gyfer cloddio am lo yn bennaf. Roedd sawl pwll glo yn y pentrefi amgylchynol ac roedd niferoedd mawr o lowyr a'u teuluoedd yn byw yng Nghaerffili. Yn wir, tan ganol y 1980au, roedd y dirprwyaethau mwyaf ym mhwyllgor rheoli Plaid Lafur Caerffili yn dod o'r cyfrinfeydd glofaol. Nawr, fel rydych newydd ei glywed, at hynny, y glowyr a oedd yn gweithio yn y pyllau glo o amgylch Caerffili a gasglodd danysgrifiadau i sefydlu Ysbyty Glowyr Dosbarth Caerffili yn y 1920au, a oroesodd fel ysbyty lleol tan i ysbyty newydd Ystrad Fawr agor yn 2011. Mae Casnewydd yn wahanol iawn. Mae ei threftadaeth ddiwylliannol wedi'i chysylltu'n gryf â'i rôl fel porthladd. Mae llawer o gyfleusterau ar gyfer morwyr o ystod eang o genhedloedd sydd wedi ymgartrefu yng Nghasnewydd ar ôl bywyd ar y môr. Ni allaf feddwl am unrhyw beth yn gyffredin rhwng y ddwy gymuned.

[00:53:29]

O ran iechyd, Astudiaeth y Galon Caerffili yw un o'r astudiaethau – fe wnaif i fy ngorau â'r gair hwn – epidemioleg hiraf yn y byd. Ers 1975, mae sampl gynrychioliadol o ddynion mewn oed a anwyd rhwng 19 a 1938 sy'n byw yng Nghaerffili a nifer o bentrefi amgylchynol wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth. Mae ystod eang o ddata iechyd a ffordd o fyw wedi cael eu casglu drwy gydol yr astudiaeth. Mae'r data hynny wedi bod yn sail i fwy na 400 o gyhoeddiadau yn y



wasg feddygol. Roedd adroddiad nodedig yn ymwneud â'r gostyngiadau mewn clefyd fasnolaidd, diabetes, nam gwybyddol a dementia y gellir eu priodoli i ffordd iach o fyw.

Nawr, os bydd cynigion y Comisiwn yn symud ymlaen, bydd rhaid i'r Aelod Seneddol ar gyfer y sedd newydd ddelio â dau awdurdod lleol gwahanol iawn yn dibynnu ar ble mae'r etholydd yn byw. Fel rhywun a oedd yn aelod etholedig o Gynulliad Cymru am 13 blynedd, gallaf gadarnhau ei bod yn well o lawer datblygu perthnasoedd ystyrlon ag un set o arweinwyr a swyddogion awdurdod lleol yn unig. Bydd hyn yn arwain at wasanaeth gwell, cyflymach a mwy cyson i'r etholwyr.

Mae Wayne David yn cynnig symud cymunedau'r Coed-duon, Maesycymer, Pontllan-fraith a Chefn Fforest o etholaeth Islwyn i etholaeth newydd Caerffili. Mae'r awgrym hwn yn synhwyrol oherwydd bod yr holl gymunedau hyn yn ffinio ag etholaeth bresennol Caerffili ac yn wardiau o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Cydnabyddir y bydd cymunedau Bargoed a Gilfach yn cael eu colli i etholaeth arall i'r gogledd. Mae hynny'n anffodus, ond gellir ei dderbyn, rhwng popeth, ar yr amod y derbynnir yr ychwanegiadau y cyfeirir atynt uchod.

Byddai dileu Caerffili fel sedd seneddol ar wahân yn diweddu dros 100 mlynedd o hunaniaeth unigryw. Gallai cysylltu Caerffili â rhan o Gasnewydd gynhyrchu cyfiawnhad rhifyddol o ran nifer yr etholwyr, ond byddai'n anwybyddu hanes gwahanol iawn y ddwy a'r gwahaniaethau daearyddol rhyngddynt. O ganlyniad, anogaf y Comisiwn i ailystyried eu cynnig yn unol â hynny. Diolch.

Cadeirydd: Comisiynwyr Cynorthwyol? Steven, ydych chi eisiau? Mae gennych chi ddau bwynt eglurhad.

SP: Diolch. Dyma'r un cwestiwn, yn y bôn a ofynnais i ddau siaradwr yn gynharach, ond ga'i gymryd mai eich prif flaenoriaeth yma yw cadw etholaeth Caerffili ac efallai, lle y gellid tynnu'r ffiniau, ail ystyriaeth, yn enwedig, fel yr ydym wedi'i glywed y bore 'ma, cynrychiolaethau ynglŷn â safle Nelson, sydd wedi'i heithrio o Gaerffili ar hyn o bryd, etholaeth arfaethedig Caerffili Gorllewin Casnewydd o dan y cynigion cychwynnol?

JC: Ie, rwy'n credu taw'r ateb cyffredinol i'r cwestiwn hwnnw yw ie. Nid yw'n fater o enw Caerffili yn unig, mae'n ymwneud â'i chefnwlad resymol. Felly, byddwn yn cefnogi hynny, ie, yn gyffredinol.


SP: Iawn. Diolch.

Cadeirydd: Diolch. Andrew? Na? Arun, oes gennych chi...? Na. Unrhyw un o'r gynulleidfa? Na? Diolch, Jeff.

JC: Iawn, diolch yn fawr.

Cadeirydd: Iawn. Ni fydd ein siaradwr nesaf yma tan 3pm, felly mae gennym dri siaradwr wedi'u trefnu ar gyfer y sesiwn nesaf a byddwn yn ailgydio yn y trafodion am 3pm. Diolch.

[00:57:02]



... i sesiwn y prynhawn. Mae gennym dri siaradwr wedi'u trefnu ar gyfer y sesiwn benodol hon o'r gwrandawriad cyhoeddus. Bydd pob siaradwr yn cael slot 10 munud. Pan fyddwch yn cyrraedd wyth munud, bydd fy nghydweithiwr, Tom Jenkins, yn y cefn yn rhoi rhybudd dwy funud i chi. Bydd gennych ddwy funud i orffen. Pan fyddwch yn cyrraedd 10 munud, byddaf yn torri ar eich traws ac yn rhoi 30 eiliad i chi ddweud eich geiriau terfynol ac yna byddwch yn cael eich atal a byddwn yn agor y sesiwn ar gyfer pwyntiau eglurhad gan y panel a'r gynulleidfa. Pan gewch eich gwahodd i fyny, gofynnaf i chi ddweud eich enw'n glir, y dref neu'r ardal rydych yn byw ynnddi a'ch cysylltiad, yn bennaf os ydych yn siarad fel unigolyn neu ar ran grŵp, enwch y grŵp os gwelwch yn dda. Ein siaradwr cyntaf yw Lindsay Whittle.


LW:

Prynhawn da, banel. Maddeuwch y tei du. Rydw i newydd ddod o angladd, gobeithiaf nad yw'n argoeli colli etholaeth Caerffili. Fy enw i yw Lindsay Whittle. Rwy'n byw yn Church Road yn Abertridwr. Rwy'n siarad fel unigolyn. Mae gennyf ddiddordeb brwd mewn gwleidyddiaeth leol ers i mi fod yn 14 oed pan arferais fynd o Ysgol Ramadeg y Bechgyn Caerffili yn syth ar draws i siambr y cyngor. A hoffwn fynegi fy siom â'r arolwg a fydd bellach yn rhoi tref sirol bwysig Caerffili, sydd wedi bod â'i Haelod Seneddol etholedig ei hun ers y 1900au cynnar, mewn ardal y deallaf y bydd yn Orllewin Casnewydd a Chaerffili, sef ardal a dinas nad oes gennym lawer o gysylltiadau â nhw, ac fel arall.

Credaf fod yr etholwyr yn haeddu mwy o barch na chwifio pen ar fap yn unig. Nid rhifau ar dudalen ydym ni. Yn draddodiadol, mae ardal a wnaed yn Gyngor Sir Morgannwg Ganol bellach am fod, wedi'i chynnwys o dan Gyngor Sir Morgannwg Ganol yn dilyn yr ad-drefnu hwnnw. Rydym bellach am gael ein hatodi i ddinas, fel y dywedais, nad oes ganddi fawr o gysylltiad traddodiadol. Mae'n Gasnewydd yng Nghyngor Sir Fynwy fel yr oedd ac yna Gwent. Yn ogystal, roeddem yn rhan o Gyngor Dosbarth Trefol Caerffili. Ym 1971 fe'n had-drefnwyd yn Gyngor Dosbarth Cwm Rhymni. Cefais y fraint o gael fy ethol bryd hynny, yn 23 oed, yn gynghorydd i Gwm Rhymni, ac yn 24 oed i Gyngor Sir Morgannwg Ganol. Felly, teimlaf y gallaf siarad am y cymoedd hynny gyda chryn falchder ac angerdd. Rwy'n gwybod y bydd fy nghyfoedion yno'n deall beth rwy'n ei ddweud. Dyna ble rwy'n perthyn, mewn gwirionedd, ac nid wyf yn credu fy mod yn perthyn - gyda'r parch mwyaf - i Gasnewydd.

Yn draddodiadol, yng Nghwm Rhymni, rydym wedi teithio o'r gogledd i'r de. Anaml iawn yr awn ni o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn tueddu i weithio yng Nghaerdydd, bydd mwyafrif pobl Caerffili yn siopa a chymdeithasu yng Nghaerdydd a dim ond pobl Cymoedd Gwent sydd wedi cysylltu eu hunain yn draddodiadol â'r ddinas falch iawn honno a adwaenir bellach fel Casnewydd. Ac, yn wir, roeddwn yn bresennol yn y seremoni pan ddyfarnwyd statws dinas i Gasnewydd. Credaf y byddai wedi gwneud mwy o synnwyr i gynnwys hanes hen weinyddiaeth Dosbarth Cwm Rhymni, a fyddai wedi mynd â'r ffigurau i tua 77,000 o etholwyr, oherwydd bod pobl wedi bod yn gyfarwydd â hynny ers 1974. Yn wir, roedd hen etholaeth Caerffili yn cynnwys llawer o'r ardal hefyd. Felly, mae eisoes traddodiad y bydd y cynnig hwn yn ei gollu, ac nid wyf yn credu y bydd pobl yn hapus, yng Nghasnewydd ac yng Nghaerffili.

[01:00:52]



Ni allaf gredu y bydd pobl yn pleidleisio dros Aelod Seneddol Casnewydd i gynrychioli'r dref bwysig hon. Rwy'n frwdfrydig ynglŷn â gwleidyddiaeth, fel y dywedais. Rwy'n 69 nawr, ac yn dod i ddiwedd fy mywyd gwleidyddol, ond mae wardiau a phentrefi yng Nghasnewydd nad wyf erioed wedi ymweld â nhw yn fy mywyd. Nid wyf erioed wedi bod i Dŷ-du. Petaech chi'n fy ngadael yng nghanol y pentref, ni fyddwn yn gwybod ble ar y ddaear yr oeddwn i. Rwy'n gyrru trwy Fasaleg i gyrraedd yr M4. Dim ond y brif ffordd rydw i'n ei hadnabod.

Mae Caerffili yn haeddu ei Haelod Seneddol ei hun. Yn draddodiadol, mae'r diwydiant glofaol wedi bod yn flaenllaw yn ein cynrychiolwyr, asiantiaid glowyr, gwrthwynebwyr cydwybodol fel Morgan Jones a Ness Edwards, oll â chefnogaeth hen Undeb Cenedlaethol Cyfrinfeydd y Glowyr. Mae hyn bellach am gael ei dileu â thrawiad ysgrifbin gan bobl, gyda'r parch mwyaf, nad oes ganddynt syniad am ein traddodiadau a'n hanes. Rwyf wedi ymladd am etholaeth Caerffili mewn naw etholiad cyffredinol a thri etholiad Senedd ac fe allaf ddweud wrthyhych, credaf y bydd pobl yn cael eu difreinio o ddifrif ac efallai'n protestio ac yn gwrthod pleidleisio. Ai dyma beth sydd ei angen ar ddemocratiaeth ar yr adeg arbennig o dyngedfennol hon? Dydw i ddim yn meddwl felly. Gostyngodd nifer y bobl a bleidleisiodd yn yr etholiad cyffredinol diwethaf i 66%. Dyna'r isaf yn ein hanes. Felly, mae'n ddigon anodd annog pobl i bleidleisio nawr, ni waeth pa bleidiau gwleidyddol maen nhw wedi'u cefnogi. Mae pleidiau gwleidyddol yn cael trafferth dod o hyd i ymgeiswyr lleol. Credaf fod angen i bobl wybod pwy yw eu cynrychiolydd etholedig, ni waeth p'un a ydynt yn cefnogi fy mhlaid i neu unrhyw blaid arall. Rydyn ni'n cael pobl bellach yn ymladd am sedd Caerffili sy'n dod o Brighton. Beth maen nhw'n ei wybod am ein cymoedd? Ac os byddan nhw'n gweld Dwyrain Casnewydd, ni fydd ganddynt syniad. Yn ôl pob tebyg, ni fydd pobl yn Nwyrain Casnewydd yn gwybod ble mae rhannau o Abertridwr a Senghenydd a Phenyrheol a Graig yr Accar.


Y pwynt y gobeithiaf fy mod yn ei wneud yw, os ydym am i bobl ystyried gwleidyddion o ddifrif, mae'n rhaid bod ymdeimlad o berthyn. Byddwn yn fwy na hapus i gynnig fy ngwasanaethau i chi i helpu i edrych ar y wardiau hyn, i edrych ar y map. A pheidiwch ag edrych ar ardal o dir yn unig, edrychwch ar y dopograffeg a'r cyfuchliniau. Byddai fy hen athro daearyddiaeth, a oedd yn gynghorydd Llafur, gyda llaw, yn falch iawn. Rydym yn teithio o'r gogledd i'r de, nid o'r dwyrain i'r gorllewin. Fe allech ofyn, pam mae e'n gwneud hyn ar ddiwedd ei yrfa wleidyddol? Wel, fe ddywedaf pam wrthyhych. Dyma fy nhref. Dyma fy mhentrefi. Dyma fy nghwm. Dyma fy mhobl a dyma lle rwyf yn perthyn. Ac rwy'n credu fy mod eisiau dweud wrth y byd, dweud wrth y gwasanaeth sifil, dweud wrth San Steffan mewn gwirionedd, mai Caerffili ydym ni, ac mae wir yn golygu popeth i ni. Diolch yn fawr am wrando. Diolch.

Cadeirydd: Diolch, Lindsay, ga'i ofyn i chi aros fel y gallwn ofyn i unrhyw un o'r Comisiynwyr Cynorthwyol? Steven? Ymlaen â chi. Pwyntiau ar gyfer eglurhad.

LW: Cewch, siŵr.

[01:04:02]

SP: Credaf eich bod wedi mynegi eich ymlyniad i Gaerffili yn glir iawn, ond rwy'n siŵr y byddwch yn deall, er nad mater o rifau yn unig yw hyn, bod rhaid i ni gydbwysio



nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth fel yr amlinellir yn y cynigion cychwynnol. Felly, heb ddadansoddi pob ward o reidrwydd, a allech chi roi rhyw fath o syniad i mi o ble y byddai'r ffin rhwng etholaeth Caerffili ac yn enwedig yr etholaethau i'r dwyrain yn dechrau neu'n gorffen, yn enwedig gan ein bod wedi clywed heddiw bod materion eraill o fewn ac o amgylch Caerffili? Felly, er enghraifft, rydym wedi cael cynrychiolaethau ynglŷn â chymuned Nelson...

LW: Ie.

SP: Ac mae myrdd o drynewidion. Beth fyddai'n well gennych chi yn gyffredinol?


LW: Byddai siŵr o fod yn haws dewis tîm rygbi Cymru, ac mae gennym 3 miliwn o ddewiswyr, rwy'n gwybod. Ond...

SP: Ni fyddwn yn ceisio gwneud hynny.

LW: Ie, ie. [mae'n chwerthin] Yn wir. Na, na fi. Ond, o ddifrif, roedd Cwm Rhymni yn gysyniad a ddeilliodd o Gyngor Dosbarth Trefol Rhymni, Bargoed, Gelligaer, Caerffili a Bedwas, Tretomas a Machen. Nawr, pan fyddwch yn cyrraedd Machen, mae angen gyrru saith neu wyth milltir i gyrraedd pentref Basaleg, a dyna ble rydych yn dechrau cyrraedd Casnewydd ac rydych yn gwybod eich bod yn ymuno â'r M4. Rwy'n hen gyfarwydd â'r brif ffordd trwy Fasaleg, ond nid wyf yn gyfarwydd â'r ystadau ar bob ochr iddi a phentref, fel y dywedais, Tŷ-du. Felly, nid ydym yn teimlo bod gennym gysylltiad â hi, ond rydym yn teimlo cysylltiad – bydd llawer o bobl o Gwm Rhymni yn Neri a Fochriw a Phontlotyn, Tredegar Newydd, byddant yn teithio i dref Bargoed. Pobl o Fargoed, ac fel arall. Bydd pobl o Fargoed yn teithio i lawr i Ystrad Mynach ac fel arall. Bydd pobl o Ystrad Mynach yn teithio i Gaerffili ac fel arall oherwydd bod y rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd yno, felly mae'n gysylltiad llinol perffaith. Wyddoch chi..., mae'r ffordd yn mynd â ni i Gaerdydd yn haws. I gyrraedd Casnewydd, mae'n daith gul a throellog ar fws. Tan i mi gyrraedd tua 25 oed, dim ond teirgwaith yn fy mywyd yr oeddwn i wedi bod i Gasnewydd ac roedd y bws yn mynd ar daith droellog trwy bentrefi. Rwy'n derbyn bod y rhwydwaith priffyrdd wedi gwella llawer erbyn hyn, ond mae Cwm Rhymni yn gysyniad mor berffaith ac mae'n cyd-fynd â'r ffigurau.

Edrychwch ar yr hen gynghorau dosbarth a fu gennym ar gyfer Cymoedd De Cymru i gyd ac fe welwch fod y cymoedd fel dominos, yn llythrennol. Ond, pan gyrhaeddwch chi ddinas Caerdydd a dinas Casnewydd ac yna, ymhellach i'r gorllewin, dinas Abertawe, wel, maen nhw'n eithaf cywasgedig eu hunain. Felly, fe allwch chi wneud rhywbeth â'r ffigurau yno, ond, mewn gwirionedd, os ydych chi eisiau cadw pobl y cymoedd, yr holl gymoedd, ar eich ochr, cadwch nhw o'r gogledd i'r de, cadwch nhw yn eu.... Yn gyffredinol, o '74 i '95, fe ddaethant yn gyfarwydd â Chwm Rhymni. Dim ond yn '95 pan gefais fy ethol i Gyngor Dosbarth Trefol Caerffili, ac rydw i wedi bod yn gynghorydd am 45 mlynedd bellach, pan gefais fe ethol i Gyngor Caerffili, roedd rhaid i mi yrru i Risga, a oedd yn rhan o Gaerffili newydd, i hyd yn oed weld sut beth oedd y dref. Unwaith eto, ym 1995, nid oeddwn erioed wedi bod i dref Risga.

[01:07:30]



Felly, wyddoch chi, mae angen i Aelod Seneddol gael cysylltiad. Pan fyddwch yn mynd i Allt-yr-yn, sy'n ardal grand iawn o Gaerdydd, mae'n ddrwg gennyf, o Gasnewydd, lle'r wyf wedi bod unwaith yn fy mywyd. Roeddwn yn dosbarthu taflenni yno ar gyfer is-etholiad ac roedd y tai yn fawreddog. Dewch i'r pentref lle rydw i'n byw sydd wedi dioddef, mae'n gwella ychydig nawr oherwydd rydyn ni newydd gael gwaith adnewyddu mawr, ond roedd siopau adfeiliedig, siopau wedi'u dymchwel. Ni fyddai gan bobl Allt-yr-yn syniad bod yr ardal hon yn ardal Cymunedau yn Gyntaf, bod gennym ni fanciau bwyd, lle rwyf yn gweithio fel gwirfoddolwr, chi'n gwybod? Mae'n hollol wahanol i faestrefi gwych Dwyrain Casnewydd. Ac nid wyf yn beirniadu maestrefi gwych Dwyrain Casnewydd. Pob lwc i'r bobl yna. Ond, ni allaf weld y cysylltiad y byddai Aelod Seneddol yn gallu bod â'r un angerdd amdano.

Mae Cwm Rhymni yn etholaeth sefydlog, eithaf da, ac mae pawb, rydyn ni bron bob amser yn perthyn i'n gilydd. Pryd bynnag y cewch eich ailgartrefu yng Nghaerffili, wyddoch chi, mae'n siŵr na allant eich ailgartrefu nawr ar restr y cyngor yn nhref Caerffili, felly efallai byddant yn eich anfon i Ystrad Mynach, neu i Fargoed, neu i Dderi a Fochriw, ond ni fyddent, yn sicr, yn eich anfon i Gasnewydd.

SP: Iawn. Diolch.

LW: Ni fyddent, yn sicr.

Cadeirydd: Diolch.

LW: Rwy'n bwrw'ch.... Rwy'n siarad gyda fy nwylo, ac ni ddylwn wneud hynny, mae'n flin gennyf.

Cadeirydd: A oes unrhyw bwyntiau eglurhad gan y gynulleidfa? Na? Diolch, Lindsay.

LW: Diolch yn fawr a diolch am wrando.

AC: Gwych.


SP: Diolch.

Cadeirydd: Ga'i wahodd aelod o'r Senedd, Andrew RT Davies, i'n hannerch? Andrew, mae gennych 10 munud. Pan fyddwch yn cyrraedd wyth munud, rhoddir arwydd dwy funud i chi. Pan fyddwch yn cyrraedd 10 munud, bydd rhaid i mi, byddaf yn torri ar eich traws ac yn rhoi 30 eiliad i chi orffen.

ARTD: Gobeithio na fyddaf yn cymryd yr amser.

Cadeirydd: Gobeithio na. [mae'n chwerthin] Ymlaen â chi. Ac ar ôl i chi roi eich tystiolaeth, arhoswch yno ac fe agorwn y llawr ar gyfer eglurhad. Diolch.

ARTD: Diolch am fy ngwahodd y prynhawn 'ma i wneud fy nghyflwyniad. Rwy'n cofio gwneud hyn yn ystod yr arolwg diwethaf o ffiniau, felly gobeithiaf y byddwch chi, fel Comisiwn Ffiniau, yn cael mwy o lwyddiant na'r un blaenorol, oherwydd bod hwn yn ddarn pwysig o waith i sicrhau bod cydbwysedd o fewn etholaethau Cymru ac rwy'n llwyr gefnogi'r nodau cyffredinol a geisir trwy newid ffurfwedd yr



etholaethau i sicrhau bod pleidleisiau'r Aelodau Seneddol o'r un pwys yn Nhŷ'r Cyffredin.

[01:10:09]

Cyflwynais gynrychiolaeth ysgrifenedig ac rwy'n ddiolchgar i allu ymhelaethu ar gynnwys y gynrychiolaeth ysgrifenedig honno yma heddiw yn y gwrandawiadau llafar. Rwyf wedi bod yn aelod o'r Senedd a, chyn hynny, yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ers 2007 yn cynrychioli Etholaeth Canol De Cymru, sy'n rhychwantu wyth etholaeth seneddol i gyd.


Rwy'n llwyr gytuno â chynigion y Comisiwn mewn perthynas ag etholaeth y Rhondda, a chefnogaf gynigion y Comisiwn mewn perthynas â'r etholaethau yn ardal Canol De Cymru, heblaw am y pwyntiau yr hoffwn eu gwneud ynglŷn â Bro Morgannwg. Rwy'n croesawu penderfyniad y Comisiwn i gadw etholaeth Bro Morgannwg yn gyffredinol, ond rwy'n pryderu'n fawr bod ward Dinas Powys wedi cael ei throsglwyddo i Dde Caerdydd a Phenarth. Mae preswylwyr Dinas Powys yn edrych tuag at y Barri a Gwenfô ar gyfer eu gwasanaethau yn hytrach na dinas Caerdydd a thref Penarth. Nid oes cysylltiadau trên uniongyrchol rhwng Dinas Powys a Phenarth, er enghraifft, felly mae'n anochel bod preswylwyr yn mynd i'r Barri ar gyfer eu gwasanaethau yn lle hynny. Yn yr un modd, mae gwasanaethau allweddol y cyngor yn Ninas Powys wedi'u canolbwyntio o amgylch Gwenfô a'r Barri. Felly, gwrthwynebaf y cynnig. Dylai'r ffiniau presennol aros gan fod etholaethau presennol Bro Morgannwg yn cael eu cadw. Yr etholaeth bresennol yw'r unig un yng Nghymru lle mae nifer yr etholwyr yn dod o fewn y cwota. Felly, dylai ward Dinas Powys aros o fewn etholaeth newydd Bro Morgannwg.

O ran Gogledd Caerdydd, nid wyf yn cefnogi'r cynnig i gynnwys ward Ffynnon Taf yn etholaeth Gogledd Caerdydd. Credaf y dylai aros yn etholaeth Pontypridd, sydd wedi'i lleoli yn ardal cyngor Rhondda Cynon Taf. Er y derbynaf fod rhaid i etholaethau groesi ffiniau seneddol weithiau, dylid osgoi hyn lle bynnag y bo'n bosibl. Yn yr un modd, credaf y byddai ward Gogledd Llandaf yn adlewyrchu cysylltiadau cymunedol yn well petai'n cael ei chynnwys yn etholaeth Gorllewin Caerdydd yn lle hynny. Mae cymuned Gogledd Llandaf wedi'i chysylltu agosaf â chymuned Llandaf. Maen nhw'n rhannu llawer o gysylltiadau lleol. Byddai'r cysylltiadau'n cael eu hadlewyrchu'n well petai'r ddwy gymuned wedi'u lleoli yn etholaeth Gorllewin Caerdydd.

Nid wyf yn cefnogi'r cynnig i gynnwys wardiau Llanrhymni a Rhymni yn etholaeth Canol Caerdydd. Byddai cysylltiadau cymunedol yn cael eu hadlewyrchu'n well petai Rhymni'n aros yn etholaeth De Caerdydd a Phenarth, a bod Llanrhymni'n trosglwyddo i Ogledd Caerdydd. Bydd y Comisiwn yn ymwybodol bod etholaeth Canol Caerdydd yn drefol ei natur, gan gynnwys craidd trefol y ddinas a llawer o ardaloedd dinas fewnol. Ar y llaw arall, mae cymunedau Llanrhymni a Rhymni ar gyrion y ddinas ac nid ydynt yn rhannu'r un cysylltiadau â chymunedau mwy metropolitan Cathays, Plasnewydd, Cyncoed, y Rhath a Phen-y-lan.

[01:13:01]

Cynigiaf hefyd fod ward Glan yr Afon yn cael ei chynnwys yn etholaeth Canol Caerdydd. Mae'r gymuned hon yn drefol ei natur, gan ei bod gerllaw ardal fusnes



ganolog y ddinas. Mae ei thai yn cynnwys llawer o anheddau amlfeddiannaeth ac fel etholaethau cyfagos, fel ward cyfagos Cathays. Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, gwrthgynigaf rai mân newidiadau i etholaeth De Caerdydd a Phenarth. Dylai ward Rhymni aros yn yr etholaeth hon, oherwydd credaf fod hyn yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yn well. Yn yr un modd, nid wyf yn credu ei bod yn briodol cynnwys ward Dinas Powys yn yr etholaeth. Yn lle hynny, dylai aros o fewn etholaeth Bro Morgannwg a fyddai'n adlewyrchu ei chysylltiadau â Gwenfô a'r Barri yn well.


Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, gwrthgynigaf rai mân newidiadau i etholaeth Gorllewin Caerdydd. Mae ward Glan yr Afon yn rhannu mwy o nodweddion lleol â'i ward gymdogol Cathays, gan fod y ddwy yn ffurfio craidd trefol Caerdydd. Mae ward gyfagos Llandaf yn faestrefol ei natur ac, yn lle hynny, mae'n rhannu mwy o nodweddion â ward Gogledd Llandaf. Felly, gwrthgynigaf fod ward Gogledd Llandaf yn cael ei chynnwys yn etholaeth Gorllewin Caerdydd, a bod ward Glan yr Afon yn cael ei throsglwyddo i etholaeth Canol Caerdydd.

Cefnogaf greu etholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr at ei gilydd. Er bod yr etholaeth arfaethedig yn croesi ffiniau awdurdod lleol, mae trefi Merthyr Tudful ac Aberdâr yn rhannu llawer o gysylltiadau lleol. Yn fwyaf amlwg, mae'r ddwy dref yn cael eu gwasanaethu gan wasanaethau rheilffordd Trafnidiaeth Cymru ar linell Merthyr ac adferwyd cangen Aberdâr dros dri degawd yn ôl. Ar y llaw arall, nid yw etholaeth bresennol Merthyr Tudful a Rhymni yn rhannu unrhyw gysylltiadau. Yn wir, byddai taith drên o Ferthyr i Rymni yn cymryd dros ddwy awr, a byddai'n rhaid i deithwyr o'r naill dref sy'n dymuno teithio i'r llall deithio i Gaerdydd i gysylltu, i ddal trên cysylltu. Fodd bynnag, cyflwynaf rai gwrthgynigion i'r rhai a awgrymwyd gan y Comisiwn. Nid wyf yn credu bod wardiau Nelson a Chwmbach yn adlewyrchu cysylltiadau lleol, ac awgrymaf eu bod yn cael eu dileu. Fodd bynnag, byddwn yn cynnwys wardiau Gogledd Aberaman a De Aberaman, sydd â chysylltiadau cryf iawn â thref Aberdâr. Gwrthgynigaf rai mân newidiadau i etholaeth Pontypridd am y rhesymau a amlinellwyd uchod. Cynigaf fod wardiau Gogledd Aberaman a De Aberaman yn cael eu cynnwys yn etholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr. Cynigaf hefyd fod wardiau Ffynnon Taf a Chwmbach yn cael eu cynnwys yn etholaeth Pontypridd. Mae'r wardiau hyn i gyd wedi'u lleoli o fewn ardal awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf, felly mae fy ngwrthgynigion yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yn well.

Trwy roi'r cyflwyniad hwn gerbron y Comisiwn Ffiniau heddiw ar lafar yn ogystal ag yn ysgrifenedig, credaf ein bod yn cynnal egwyddor cydbwysedd rhwng yr etholaethau ac edrych ar ranbarth Canol De Cymru yn ei gyfanrwydd a'r etholaethau seneddol presennol a'r etholaethau seneddol arfaethedig y mae'r Comisiwn wedi'u cynnig, gan felly fodloni nodau'r amcan a osodwyd gan y Senedd i chi fel Comisiwn Ffiniau, sef creu cysondeb o ran cynrychiolaeth ar gyfer Aelodau Seneddol pan gynhelir etholiad cyffredinol 19, 2024. Ac am y rheswm hwnnw, cyflwynaf y cynigion hyn i'r Comisiwn a byddwn yn falch o ateb unrhyw gwestiynau. Diolch.

Cadeirydd: Steve?

[01:16:26]



SP: Ie. Diolch. Diolch am y cyflwyniad. Dau bwynt eglurhad yn unig. Os deallaf yr hyn a ddywedoch yn iawn, o safbwynt rhifyddol, yr hyn rydych yn ei awgrymu o ran De Caerdydd a Phenarth yw bod Dinas Powys yn mynd yn ôl i'r Fro ac, yn rhifyddol, y byddai'n cael ei disodli gan Rymni?

ARTD: Ie, mae hynny'n iawn.

SP: Mae hynny'n iawn. Iawn.

ARTD: Ond, rwy'n ymwybodol mai diben hyn, yn amlwg, yw cydbwysu'r niferoedd o fewn 5% o'r cwota.

SP: Ie. Yn union. Yr ail bwynt oedd, ac roeddwn ychydig yn llai clir ynglŷn â'r niferoedd fan hyn, ond os cymerwch Ogledd Llandaf a Ffynnon Taf allan o Ogledd Caerdydd, yna credaf fod yr etholaeth honno'n fyr iawn o'r lleiafswm etholwyr statudol. Felly, ydych chi wedi ystyried sut i wneud hynny'n gytbwys?

ARTD: Soniodd fy nghynigion am gynnwys Llanrhyddi yng Ngogledd Caerdydd a...

SP: Ie, iawn.

ARTD: Rhyddi, yn amlwg, yn aros yn etholaeth De Caerdydd a Phenarth. A byddai hynny'n rhoi'r niferoedd sy'n ofynnol gennych.

SP: Iawn.

ARTD: Credaf ei bod yn werth pwysleisio'r cysylltiadau cryf rhwng, rydw i wedi bod yn gynrychiolydd, fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol cynnar, ers 2007 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, a nawr y Senedd. Rwyf hefyd yn gynghorydd ym Mro Morgannwg ac mae pentref Dinas Powys bob amser yn edrych tuag at Fro Morgannwg; y Barri yw'r brif dref. Trefi eraill Bro Morgannwg ar gyfer gwasanaethau a hunaniaeth ddiwylliannol, fel Gwenfô a'r Bont-faen, a chredaf y byddai ei datgysylltu oddi wrth Fro Morgannwg yn gamgymeriad mawr ar ran cymuned Dinas Powys.

SP: Diolch. Fe fethais ystyried Llanrhyddi.

Cadeirydd: Diolch.

SP: Diolch.


ARTD: Diolch.

Cadeirydd: Unrhyw bwyntiau eglurhad? Na. Diolch, Andrew. Diolch.

ARTD: Diolch yn fawr. Diolch.

Cadeirydd: Ga'i ofyn i chi anfon hynny atom drwy e-bost? A yw hynny'n bosibl?

[01:18:17]



ARTD: Ydy. Rwy'n credu y dylech fod wedi'i dderbyn eisoes.

Cadeirydd: Fe ailwiriaf nes ymlaen.

ARTD: Fe wnaif i'n siŵr.

Cadeirydd: Diolch.

ARTD: Diolch.

Cadeirydd: Andrew [anghlywadwy - 1:18:28] [mae'n chwerthin]

Ga'i wahodd Vincent Driscoll nesaf, os gwelwch yn dda? Diolch. Helô. Vincent, roeddech chi yma pan oeddwn yn sôn am y pwynt 10 ac wyth munud? Roeddech chi yn y gynulleidfa?

VD: Ie, ie.

Cadeirydd: Ie, gwyh. Felly, fe wnaif i ddim ailadrodd fy hun.

VD: Dydw i ddim yn siŵr y byddaf yn para wyth munud, ond...

Cadeirydd: [mae'n chwerthin] Iawn. Mae hynny'n iawn. Ymlaen â chi.


VD: Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Andrew RT a oedd yn siarad ar ran Dinas Powys. Yn amlwg, rwy'n cytuno â phopeth mae'n ei ddweud ac mae'n wych ei weld yn ôl mewn sefyllfa gyhoeddus. Rwy'n siarad heno, heddiw fel preswylwr yn Ninas Powys er fy mod yn gynghorydd, yn gynghorydd sir, yn gynghorydd cymuned ac yn Gadeirydd etholwyr Bro Morgannwg, y Ceidwadwyr, mae'n flin gennyf. Rwyf wedi bod yn gynghorydd cymuned am tua 15 mlynedd erbyn hyn, rwy'n credu, tair sesiwn, ac yn gynghorydd Bro am bump. Wel, bron pump. Rwy'n cael mwy o bleser o'r rôl cyngor cymuned na'r Fro. Yn y cyngor cymuned, rydym fel petaem yn cyflawni pethau, rydym i gyd yn gweithio gyda'n gilydd ac mae'n fraint helpu pobl Dinas Powys.

Hoffwn wrthwynebu'n gryf eich cynnig i symud Dinas Powys o Fro Morgannwg. A minnau wedi byw yn Ninas Powys ar hyd fy oes, mae gennyf gysylltiad cryf â'r Fro. Anaml iawn y mentraf i Gaerdydd neu Benarth. Rwy'n credu mai'r unig resymau yr af i fyth i Gaerdydd, mewn gwirionedd, yw ar gyfer cyfarfodydd Dinas Caerdydd neu arolwg ffiniau.

Cadeirydd: [mae'n chwerthin]

[01:20:10]

VD: Fel teulu, rydym wedi bod â busnesau yn y Barri ar hyd fy oes, ac rwyf yn siopa, rydym yn siopa yno, rydym yn mynd at y deintydd, rydym yn defnyddio'r optegydd, y canolfannau hamdden, y campfeydd a llawer o gyfleusterau eraill. Byddem yn defnyddio gwasanaethau argyfwng y tu allan i oriau Ysbyty'r Barri. Pan oeddwn yn 11 oed, ffurfiais i a fy ffrind dîm pêl-droed, Clwb Pêl-droed Dinas Powys. 50 mlynedd yn ddiweddarach, mae'n dal i fynd. Ein cam cyntaf wrth sefydlu'r tîm



cyngyrair oedd ymuno â Chynghrair y Barri a'r Cylch, sydd bellach yn Gynghrair Bro Morgannwg, ac rydym yn aelodau cryf ohoni gyda bron 200 o blant yn chwarae bron bob wythnos, sy'n wych.

Mae Dinas Powys yn gymuned wledig, nid yw'n rhan o ddinas fetropolitan. Mae'n bentref. Mae gennym ysbryd gwych. Mae llawer o sefydliadau. Mae'r DPVC, sef Dinas Powys Voluntary Concern, yn helpu'r rhan fwyaf o'r bobl oedrannus yn y pentref y mae arnynt angen cymorth i fynd yn ôl ac ymlaen i'r siopau, siopau'r Barri gan mwyaf, i fyny i'r ganolfan feddygol, ac ati. Mae gennym sgwâr pentref, mae gennym neuaddau, mae gennym fannau agored gwych y comin, mae gennym fryngaer, mae gennym gastell Normanaidd. Mae'n haws mynd i'r Barri nag i Gaerdydd. Nid ydym eisiau bod yn faestref o Gaerdydd. Dydyn ni byth wedi bod a dydyn ni wir ddim eisiau bod.


Mae gan Ddinas Powys hanes cyfoethog. Roedd wedi'i chynnwys yn y rhaniad gwleidyddol yng Nghymru ganoloesol o'r enw y Cantrefi Brenhinol. Y Fro, 100 Fro. Fe'i hadwaenwyd fel Cantref Dinas Powys. Mae gennym hanes hir a balch â'r castell Normanaidd, fel y dywedais, a'r fryngaer, er bod y ddau ychydig yn adfeiliedig erbyn hyn. Nid oes gan Ddinas Powys unrhyw gysylltiad â'r ardal wledig boblog iawn, ardaloedd maestrefol Grangetown, Butetown, y Sblot a Trowbridge, ond mae ganddi gysylltiad mawr â'r Bont-faen, Ewenni, Ogwr, Llanilltud Fawr, y Rhws, Gwenfô a'r holl bentrefi eraill.

Yn Dinas Powys ym mis Rhagfyr 2020, gwelwyd y digwyddiad gwaethaf yn hanes Dinas Powys, pan ddiodeffom lifogydd difrifol ac effeithiwyd yn wael ar fwy na 100 o dai 48 awr cyn eistedd i lawr ar gyfer eu cinio Nadolig. Roedd yn ddigwyddiad ofnadwy. Daeth y rhan fwyaf o'r cymorth a gawsom, wel, yr holl gymorth a gawsom, mewn gwirionedd, o gyfeiriad y Fro, o'r gwasanaeth tân i Gyngor y Fro ac unrhyw sefydliad arall a allai helpu. Mae'r gwasanaethau trên i'r Barri yn well o lawer na'r rheiny i Gaerdydd, nid yw'r trenau byth yn brysur. A hefyd, gallwch gyrraedd Penarth ar y trên heb orfod mynd i Gaerdydd ac allan. Trwy ein hychwanegu at Gaerdydd, credaf y byddem yn colli ein hunaniaeth a, gadewch i ni weld, rydym yn falch iawn o fod yn bobl o Ddinas Powys. Nid ydym eisiau bod yn faestref o Gaerdydd, rydym yn hapus fel yr ydym. Sylweddolaf fod gennych dasg anodd i'w gwneud, ond, wyddoch chi, gyda'ch ffigurau, credaf y byddem ni, Bro Morgannwg, yn ffitio'n dda â'r ffigurau hynny.

Fe orffennaf drwy ddweud y bore 'ma fe es i â fy mam, sy'n 91 oed, nid yw'n gallu gyrru mwyach. Wel, fe gymeron ni ei char oddi arni oherwydd ei bod hi'n cael gwrthdrawiadau o hyd, er nad ei bai hi ydoedd byth, [chwerthin] ac fe es i â hi allan. Fe aethon ni â hi i'r Barri a mynd i'r manau arferol, yr optegydd, Boots y fferylllydd, y banc, ac fe ddywedais 'drycha, dere 'mlaen, mae'n rhaid i ti fynd nawr, mae'n rhaid i fi fynd i arolwg Comisiwn Ffiniau, rwy'n siarad, mae gen i slot 10 munud. Fe ddywedodd hi, am beth maen nhw'n sôn? Fe ddywedais, wel, maen nhw eisiau rhoi Dinas Powys i mewn gyda De Caerdydd a Phenarth. Arglwydd mawr, ddywedodd hi, byddai hynny'n ofnadwy.

Cadeirydd:

Dyna ni. Diolch. Un pwynt eglurhad. Ydych chi'n siarad fel unigolyn preifat neu aelod etholedig? Dim ond ar gyfer pan fyddwn yn cyhoeddi'r trawsgrifiad i'w olygu?



[01:24:07]

VD: Rwy'n siarad fel, hoffwn ddweud fy mod yn siarad fel preswylwr Cyngor Cymuned Dinas Powys.

Cadeirydd: Iawn. Diolch.

VD: Ni ofynnwyd i mi siarad ar ran y gymdeithas nac fel cynghorydd sir.

Cadeirydd: Diolch. A oes gan fy Nghomisiynwyr Cynorthwyol unrhyw bwyntiau eglurhad?

AC: Dim byd gennyf i.

Cadeirydd: Na? Iawn. Unrhyw bwyntiau eglurhad gan y gynulleidfa? Na? Diolch, Vincent.

VD: Iawn, diolch.

Cadeirydd: Iawn. Diolch. Dyna ddiwedd y sesiwn benodol hon i ni. O 4:10 ymlaen, mae wyth siaradwr wedi'u trefnu. Bydd nifer o aelodau seneddol yn ymuno â ni ac yn rhoi tystiolaeth bryd hynny. Felly, cynigaf ein bod yn ailgydio am 10 munud wedi pedwar. Diolch.


... mae gennym siaradwr ychwanegol gyda ni heddiw. Felly, mae gennym ni'r Cynghorydd George Carroll a fydd yn cyfrannu at y gwrandawriadau cyhoeddus. Mae gennych 10 munud. Pan fyddwch yn cyrraedd wyth munud, byddwch yn cael arwydd i roi gwybod i chi fod gennych ddwy funud ac yna byddaf yn dechrau torri ar eich traws, os yw hynny'n iawn. Ac yna, os gwnewch chi aros yma ar ôl eich cyflwyniad ar gyfer cwestiynau.

GC: Gwych. Ffantastig. Wel, yn gyntaf, diolch i chi, Gadeirydd, am roi'r cyfle i mi siarad y prynhawn 'ma. Rwy'n gwneud y cynrychiolaethau llafar hyn yn ychwanegol at y cynrychiolaethau ysgrifenedig a wnes i'n gynharach yn y broses yn rhan o'r ymgynghoriad. I gyflwyno fy hun, y cynghorydd George Carroll ydw i, rwy'n gynghorydd Bro Morgannwg ar gyfer ward Llandochau, ac rwyf hefyd yn arweinydd y Grŵp Ceidwadol yng Nghyngor Bro Morgannwg.

Codaf i siarad ynglŷn â chynigion y Comisiwn ar gyfer etholaethau Bro Morgannwg a De Caerdydd a Phenarth. Fel y bydd y Comisiwn yn ymwybodol, mae fy ward i, sef Llandochau, wedi'i lleoli o fewn etholaeth De Caerdydd a Phenarth, ac fel arweinydd grŵp y Ceidwadwyr yng Nghyngor Bro Morgannwg, rwy'n gwneud cynrychiolaethau ynglŷn ag etholaeth Bro Morgannwg hefyd.

[01:26:04]

Fel y bydd y Comisiwn yn ymwybodol, yn y cynigion drafft, mae ward Dinas Powys am gael ei dileu o etholaeth Bro Morgannwg a'i throsglwyddo i Dde Caerdydd a Phenarth. Nid wyf yn credu y byddai cynnig o'r fath yn fuddiol i lywodraethu effeithiol a chyfleus, ac mae ward Dinas Powys, am y rhesymau a amlinellwyd gan y Cynghorydd Vince Driscoll ac Andrew RT Davies, yn gweddu'n well i Fro Morgannwg. Fel y dywedodd y Cynghorydd Driscoll yn iawn, ac fe all ef siarad yn well na fi gan ei fod wedi byw yn Ninas Powys ar hyd ei oes, mae'r gymuned hon



yn rhannu llawer mwy o gysylltiadau â'i chymunedau cyfagos ym Mro Morgannwg na thref Penarth neu ddinas fetropolitan Caerdydd. Mae preswylwyr Dinas Powys yn edrych tuag at y Barri a Gwenfô i ddefnyddio gwasanaethau. Er enghraifft, mae Depo Alps wedi'i leoli yng Ngwenfô, ac fel yr amlinellodd y Cynghorydd Driscoll gyda'i brofiadau â'i fam heddiw, mae'n defnyddio'r optegydd yn y Barri, mae'n defnyddio siopau yn y Barri, ac rwy'n gwybod bod y rhan fwyaf o breswylwyr Dinas Powys yn gwneud yr un peth. Felly, gwrthgynigaf fod ward Dinas Powys yn aros o fewn etholaeth Bro Morgannwg.

Rwyf hefyd yn gwneud cynrychiolaethau ynglŷn â ward Rhymni a fydd yn cael ei dileu o etholaeth De Caerdydd a Phenarth o dan y cynigion drafft. Fel y mae'r Comisiynwyr eisoes wedi clywed gan y Cynghorydd Andrew RT Davies, bydd y gymuned hon yn cael ei gwasanaethu'n well trwy fod o fewn etholaeth De Caerdydd a Phenarth. Mae hynny wedi bod yn wir ers degawdau lawer. Mae'n faestrefol iawn ei natur ac yn adlewyrchu'n well y cysylltiadau lleol â'r wardiau cyfagos sydd i aros yn yr etholaeth honno.

Pe byddai'r Comisiwn yn derbyn y gwrthgynigion hyn, byddent yn dod o fewn y cwotâu perthnasol. Fel y mae'r Comisiynwyr eisoes wedi clywed, byddai etholaeth De Caerdydd a Phenarth yn bodloni'r meini prawf hynny trwy gadw ward Rhymni a cholli ward Dinas Powys. Felly hefyd etholaeth Bro Morgannwg fel y mae ar hyn o bryd gyda wardiau Bro Morgannwg, sef y Barri, tref y Barri ac yna wardiau cymunedol y Rhws, Sain Tathan, Llanilltud Fawr, Llandŵ, Ewenni, Saint-y-brid, y Bont-faen, Gwenfô a Llanbedr-y-fro. Credaf fy mod wedi mynd trwyddynt i gyd gyda Dinas Powys hefyd, mae hynny eisoes yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y cwota. Dyna'r unig etholaeth yng Nghymru ar y ffiniau presennol sy'n gwneud hynny, a byddai'n drueni mawr petaem ni'n colli hynny. Felly, dyna fy ngwrthgynigion. Rwy'n hapus i ateb unrhyw gwestiynau eglurhad gan y Comisiynwyr ac unwaith eto, Gadeirydd, diolch am roi'r cyfle i mi siarad y prynhawn 'ma. Diolch.

Cadeirydd: Diolch. Unrhyw bwyntiau eglurhad?

SP: Na. Clir iawn. Diolch.


Cadeirydd: Unrhyw bwyntiau eglurhad o'r blaen? Na? Diolch.

GC: Diolch yn fawr.

Cadeirydd: Dim problem.

[01:29:25]

Cadeirydd: Iawn. Croeso 'nôl. Rydym yn barod i ddechrau ein sesiwn hwyr y prynhawn/gyda'r nos. Mae gennym wyth siaradwr wedi'u trefnu ar gyfer y sesiwn hon ac yna egwyl a thri siaradwr arall wedi hynny. Yr hyn y bwriadaf ei wneud, os bydd pawb yn cyrraedd yn gynnar, yw mynd trwy'r holl siaradwyr a pheidio â chymryd yr egwyl 30 munud. Drwy wneud hynny, os bydd angen i bobl adael, ac ati, gallant wneud hynny. O ran yr holl siaradwyr yn y sesiwn hon, bydd gennych 10 munud i gyflwyno'ch tystiolaeth. Pan fyddwch yn cyrraedd wyth munud, bydd fy nghydweithiwr yn y cefn, Tom, yn dangos rhybudd dwy funud i chi. Yna, bydd



gennych ddwy funud i orffen. Os na fyddwch yn gorffen, pan fyddwch yn cyrraedd 10 munud, byddaf yn torri ar eich traws, yn rhoi 30 eiliad i chi a dyna ni. [chwerthin] Pan fyddwch yn siarad, cyflwynwch eich hun, eich enw, y dref neu'r ardal rydych yn siarad amdani, rydych yn byw ynddi, ac os ydych yn siarad fel aelod etholedig ar ran grŵp, ac ati, gwnewch hynny'n glir os gwelwch yn dda. Arhoswch wrth y ddarllenfa ar ôl eich cyflwyniad. Byddwn yn agor y llawr i bwytiau eglurhad gan y Comisiynwyr Cynorthwyol yn ogystal ag aelodau o'r gynulleidfa. Felly, os gallaf wahodd Ruth Jones, yr Aelod Seneddol dros Orllewin Casnewydd, i'n hannerch. Diolch.


RJ: Wel, diolch yn fawr, a diolch am y cyfle hwn i siarad â'r panel heddiw. Mae'n wych eich gweld wyneb yn wyneb a, chi'n gwybod, gallu cyfathrebu yn y modd hwn. Edrychaf ymlaen at y cwestiynau ar y diwedd. Fy enw i yw Ruth Jones. Fi yw'r Aelod Seneddol dros Orllewin Casnewydd ac rwyf yma heddiw yn siarad ar ran Plaid Lafur Gorllewin Casnewydd. Rwyf hefyd wedi byw yng Ngorllewin Casnewydd ar hyd fy oes, felly mae gennyf lawer o wybodaeth gefndir, fel petai, am Orllewin Casnewydd. Rwy'n newydd i broses cynigion y Comisiwn Ffiniau ond mae gennyf gydweithwyr da iawn sydd wedi fy helpu, ac maen nhw wedi fy helpu i ddeall sut mae'r cynigion wedi mynd yn y gorffennol. Felly, gallaf fanteisio ar eu profiad nhw, a diolchaf iddynt am hynny.

Mae angen i mi bwysleisio ar y dechrau ein bod ni yng Ngorllewin Casnewydd yn derbyn yr angen i aildrefnu pob un o'r etholaethau yng Nghymru er mwyn iddynt gynnwys rhwng 69,224 a 77,062 o etholwyr. Rydym yn llwyr dderbyn hynny. Nid yw hynny'n broblem. Ar hyn o bryd, mae gan Orllewin Casnewydd 67,040 o etholwyr, sy'n eithaf tebyg i'n hetholaethau cyfagos yng Nghaerdydd, a nodwn y ffordd yr ymdriniwyd â'r rheiny, sef bod mân addasiadau wedi cael eu gwneud i un ward neu ddwy ar y mwyaf ym mhedair etholaeth Caerdydd. Felly, wyddoch chi, bu modd iddynt ddod o fewn y niferoedd gofynnol trwy..., rywfaint o fân newidiadau lleiafysmiol.

Felly, o ran Gorllewin Casnewydd, byddem yn dymuno cadw'r sefyllfa bresennol, gan gadw ein wardiau presennol, a chymryd un neu efallai dwy ward i mewn o Islwyn. Byddai hynny'n cynyddu'r niferoedd i 71,651 petaem yn cymryd Dwyrain Risga i mewn, neu 75,624 petaem yn cymryd Casnewydd, Dwyrain Risga a Gorllewin Risga i mewn. Felly, dyna'r opsiwn a ffefirir gan Blaid Lafur Gorllewin Casnewydd ac, yn amlwg, fel y dywedaf, mae cynsail ar gyfer hynny a osodwyd o fewn y pedair etholaeth yng Nghaerdydd. Mae Plaid Lafur Gorllewin Casnewydd wedi trafod pam yr ydym yn erbyn y ffurfwedd bresennol, a'r prif reswm sylfaenol yw nad yw Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn uniaethu â'i gilydd yn ddiwyllianol, yn gymunedol, yn logistaidd, yn ddaearyddol, ac nid oes cysylltiad o ran ffin llywodraeth leol. Nid yw hynny'n golygu nad ydym yn cyd-dynnu'n dda iawn â'n cydweithwyr a'n ffrindiau yng Nghaerffili, ond ar yr un pryd, nid yw'r cysylltiadau'n bodoli'n naturiol ar gyfer y cymunedau.

[01:33:08]

O ran y ddaearyddiaeth, mae Afon Wysg yn rhedeg rhwng Dwyrain a Gorllewin Casnewydd, sy'n llinell rannu glir iawn. Mae'n rhwydd iawn gweld ble'r ydych, mae'r preswylwyr yn Nwyrain a Gorllewin Casnewydd yn gwybod yn union ble ydynt, felly maen nhw'n gwybod p'un a ydynt yn y dwyrain neu'r gorllewin, ac



maen nhw'n gwybod pwy i fynd ato am gymorth o ran ffiniau seneddol. O ran ffin Caerffili a Gorllewin Casnewydd, mae bwlch yn y boblogaeth rhwng ward Graig a dechrau ward Caerffili, ac mae hynny, wyddoch chi, yn wledig iawn, yn amaethyddol ac unwaith eto, nid oes cysylltiad na llif naturiol rhwng y ddwy. Ond mae llif naturiol rhwng Islwyn, rhan isaf Islwyn a Gorllewin Casnewydd.

O ran llywodraeth leol, byddai gan yr etholaeth newydd ddwy ganolfan llywodraeth leol ac fe allai hyn fod yn ddryslyd iawn. Byddai gennym y Ganolfan Ddinesig yng Ngorllewin Casnewydd ac, yn amlwg, pencadlys Bwrdeistref Sirol Caerffili yng Nghaerffili. Bydd hyn hefyd yn ddryslyd o ran cysylltiadau â'r Senedd a byddai'n rhaid i bwy bynnag yw'r Aelod Seneddol newydd gysylltu â'r ddau aelod o'r Senedd. Gallai hyn achosi dryswch.


O ran y ffiniau newydd, byddant yn torri ar draws tai yn yr un stryd. Felly, byddai gennych bobl yn mynd at Aelodau Seneddol gwahanol ar un ochr o'r stryd o gymharu i'r llall, neu hyd yn oed drws nesaf i'w gilydd. Ac er bod Plaid Lafur Gorllewin Casnewydd yn derbyn mai'r ward yw'r bloc adeiladu sylfaenol, mewn ardal adeiledig iawn fel Gorllewin Casnewydd, mae wardiau'n torri ar draws gerddi cefn a dreifiau ond... gellir rheoli hynny ar lefel cyngor ond mae'n fwy anodd o ran materion seneddol. Er enghraifft, gallai achos mewnfudo sy'n golygu bod angen cyflwyno apêl ar frys gael ei golli yn nryswch pa Aelod Seneddol y byddwch yn mynd i siarad ag ef, ac felly fe allai hynny gael canlyniad trychinebus i'r unigolyn dan sylw.

O ran cysylltiadau cymunedol, mae Caerffili'n edrych tuag at Gaerdydd. Nid oes cysylltiad naturiol â Chasnewydd. Mae'r ddaearyddiaeth yn golygu bod y cysylltiad yn annaturiol tra bod gan gymunedau yn Islwyn a Gorllewin Casnewydd gysylltiad naturiol. Er enghraifft, mae Canolfan Hamdden Risga yn Islwyn Isaf yn cael ei defnyddio llawer gan breswylwyr Gorllewin Casnewydd; defnyddir Tesco, Morrison's ac ardal siopa Risga gan y ddwy set o breswylwyr.

O ran trafndiaeth, mae cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd Caerffili yn cysylltu'n naturiol â Chaerdydd, tra bod cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd Casnewydd yn cysylltu ag Islwyn. Felly, mae bysiau a threnau'n rhedeg yn ôl ac ymlaen i Islwyn a Gorllewin Casnewydd, mae llinell reilffordd Glynebwy yn rhedeg yn ddiraffferth iawn rhwng Gorllewin Casnewydd ac mae hyd yn oed fws siopa lleol sy'n mynd rhwng yr archfarchnadoedd ac, unwaith eto, sy'n rhedeg ar waelod Islwyn a Gorllewin Casnewydd yn ddiraffferth iawn ar hyn o bryd.

O ran cysylltiadau diwylliannol, unwaith eto, nid oes unrhyw gysylltiadau diwylliannol â Chaerffili. O ran chwaraeon, timau a hyfforddiant pêl-droed a rygbi plant a phobl ifanc, gymnasteg, mae'r rhain i gyd yn cael eu cynnal rhwng Gorllewin Casnewydd a Risga. A hyd yn oed yr eglwys, mae cysylltiadau cryf rhwng Tŷ-du, sy'n ward yng Ngorllewin Casnewydd, a Dwyrain a Gorllewin Risga, y ddwy ward waelod yn Islwyn.

Felly, i grynhoi, mae Plaid Lafur Gorllewin Casnewydd yn anfodlon â'r cynigion presennol i greu'r etholaeth newydd, Gorllewin Casnewydd a Chaerffili. Yr opsiwn a ffefrir gennym fyddai cadw'r holl wardiau a chynnwys un neu ddwy ward o Islwyn, naill ai Dwyrain Risga neu Ddwyrain a Gorllewin Risga. Mae cysylltiad naturiol, ac mae hyn yn dilyn y gysail a osodwyd yn etholaethau Caerdydd a bydd yn cynnal y ffiniau llywodraeth leol, cysylltiadau'r Senedd, cysylltiadau trafndiaeth a



diwylliannol ac yn parchu cysylltiadau cymunedol a daearyddiaeth yr ardal. Felly, hoffwn ddweud diolch i chi am eich amser ac am wrando. Rwy'n hapus i ateb cwestiynau.

[01:37:00]

Cadeirydd: Diolch. Unrhyw un o'm Comisiynwyr Cynorthwyol? Steve, ga'i eich gwahodd i ddechrau?

SP: Ie, diolch, a chredaf yr oeddech yn glir iawn ynglŷn â'ch blaenoriaeth a'r opsiynau yno, yn enwedig yn ardal Risga. Ond, a fyddai'n deg dweud, yng nghyd-destun y triongl rydym yn edrych arno, sef Caerffili, Gorllewin Casnewydd ac Islwyn, eich bod yn credu bod gan Islwyn – o leiaf y rhan ddeheuol ohoni – fwy o gysylltiad â'ch etholaeth gyswllt bresennol Caerffili?

RJ: Yn sicr. O ran, rydych yn llygad eich lle. O ran y cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd, y gogledd, mae'r de yn mynd i Islwyn. Nid yw'n mynd i ogledd-orllewin Caerffili.

SP: Iawn. Diolch.

Cadeirydd: Iawn, unrhyw beth gan fy, unrhyw beth?

AC: Efallai yn fwy, efallai i ofyn, rwy'n gwybod eich bod wedi siarad am Orllewin Casnewydd yn benodol, yn amlwg, oherwydd eich bod yn Aelod Seneddol yno, ond oes gennych chi unrhyw arsylwadau ynglŷn â beth fyddai'r effaith ar Gaerffili? Neu oes gennych chi unrhyw feddyliau am beth i'w wneud gyda Chaerffili, felly?

RJ: Hynny yw, yn amlwg, mae Caerffili yn ardal bwysig iawn ac ni fyddwn eisiau, chi'n gwybod, siarad allan o'm lle o ran Caerffili. Rwy'n credu yr oeddem yn glir iawn ein bod bron ar drothwy nifer yr etholwyr.

AC: Iawn.

RJ: Felly, roedd yn gwestiwn o gymryd un neu efallai ddwy ward, fel y mae etholaethau Caerdydd wedi'i wneud. Ac ni fyddem eisiau rhagdybio ynglŷn â Chaerffili, chi'n gwybod, dweud wrth bobl Caerffili beth rydym ni'n credu ddylai fod yn digwydd yno.

AC: Iawn.


Cadeirydd: Ceisio dechrau terfysg, Ruth?

RJ: Yn sicr. Dim terfysgoedd yng Nghaerffili na Gorllewin Casnewydd, diolch yn fawr.

Cadeirydd: A oes unrhyw bwyntiau eglurhad gan y gynulleidfa? Os na, diolch, diolch am roi o'ch amser i ni heddiw. Gofynnaf i fy nghydweithiwr ddiheintio'r ddarllenfa ac yna fe wahoddaf Joe Stevens AS i'n hannerch. Diolch.

Ein siaradwr nesaf fydd yr Aelod Seneddol, Jo Stevens.

[01:39:12]



JS:


Prynhawn da. Prynhawn da Gomisiynydd a Chomisiynwyr Cynorthwyol. Fy enw i yw Jo Stevens. Fi yw Aelod Seneddol y Blaid Lafur dros Ganol Caerdydd ac mae'n bleser mawr eich croesawu chi i gyd a phawb arall sydd yma i Ganol Caerdydd heddiw. Mae fy nghyflwyniad y prynhawn 'ma yn ymwneud â chynigion cychwynol y Comisiwn ar gyfer Canol Caerdydd a'r tair sedd gyffiniol yng Nghaerdydd; Gorllewin Caerdydd, Gogledd Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth. A hoffwn ddechrau trwy ddweud bod y Comisiwn wedi cael tasg anodd iawn o dan delerau Deddf Etholaethau Seneddol 2020. Credaf fod unrhyw arolwg sy'n gofyn am weithredu'r fframwaith cwota etholiadol fel yr oedd ym mis Rhagfyr 2020 ar anterth y pandemig a dileu wyth sedd seneddol o'r 40 sedd bresennol yn debyg i gael 60 eiliad i wneud pos Rubik's Cube. [chwerthin] Felly, hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad am y gwaith manwl a wnaed i lunio'r cynigion hyn.

Hoffwn fynegi'n ffurfiol fy mhryder bod y gofyniad ar y Comisiwn yn cael effaith anghymesur a negyddol ar etholaethau sy'n cynnwys llawer o bobl ifanc, myfyrwyr, cymunedau ymfudwyr a chymunedau dan anfantais, sydd oll yn grwpiau sy'n llai tebygol o fod ar y gofrestr etholiadol. Yn fy marn i, dylai cyfartalu etholaethau gael ei seilio ar y boblogaeth oedolion gyffredinol, nid dim ond y rhai hynny ar y gofrestr etholiadol. Ond gyda'r cyfyngiadau hynny, fodd bynnag, croesawaf y cynigion cychwynol ar gyfer etholaeth Canol Caerdydd, a dywedaf hynny fel yr Aelod Seneddol presennol ond hefyd fel rhywun sy'n byw yng Nghanol Caerdydd.

Mae etholaeth drws nesaf De Caerdydd a Phenarth yn rhy fawr ar hyn o bryd tra bod etholaeth Canol Caerdydd yn rhy fach, ac mae'r Comisiwn yn iawn i gydnabod ardaloedd sydd â chysylltiadau cymunedol presennol yng Nghanol Caerdydd; felly Cathays a Phlasnewydd, Plasnewydd a Phen-y-lan, Pen-y-lan a Chyncoed, a Llanedern a Phentwyn. Ac mae llawer o breswylwyr Pen-y-lan, Plasnewydd a rhannau o Gyncoed yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath, ac mae enw'r lle, sef y Rhath, wedi'i hen sefydlu ac yn cael ei ddeall yn dda. Fe'i gwelir yn enwau ein hysgolion, yn ein nodweddion daearyddol tirnod fel Parc y Rhath a Llyn Parc y Rhath, y mae'r ddau yn ward Cyncoed yn ddaearyddol, a Maes Hamdden y Rhath, y Rec, sydd yn ward Pen-y-lan.

[01:41:46]

Mae'r niferoedd mawr o etholwyr yn wardiau Caerdydd, yn nodweddiadol, yn lleihau nifer yr opsiynau sydd ar gael i'r Comisiwn ac, fel y cyfryw, croesewir yr estyniad rhesymegol i Gaerdydd, mae'n ddrwg gennyf, etholaeth bresennol Canol Caerdydd trwy ychwanegu wardiau Rhymni a Llanrhymni. Mae Llanrhymni a Rhymni yn wardiau sydd â chysylltiadau trafndiaeth da iawn a hen sefydledig, ar y ffyrdd a thrwy drafndiaeth gyhoeddus, i etholaeth bresennol Canol Caerdydd. Newport Road yw'r brif ffordd o Lanrhymni trwy Rymni, trwy Ben-y-lan ac Adamsdown ac i mewn i Cathays, ac mae'r Comisiwn yn iawn, unwaith eto, i gydnabod ardaloedd sydd â chysylltiadau cymunedol presennol, sef Pentwyn a Llanrhymni, a Llanrhymni a Rhymni. Mae Rhymni a Llanrhymni yn wardiau sydd â chysylltiadau lleol helaeth a hirsefydlog iawn â'i gilydd; ystyrir a theimlir eu bod yn rhan o'r un gymuned. A nodaf y bu gwrthgynnig i symud y ddwy ward hyn i ddwy etholaeth wahanol, sef Rhymni yn ôl i Dde Caerdydd a Phenarth a Llanrhymni'n symud i Ogledd Caerdydd. Mae'r cynnig hwn – y gwrthgynnig hwn – yn anwybyddu'r cysylltiadau lleol arwyddocaol rhwng wardiau Rhymni a Llanrhymni.



Mae dalgylchoedd ysgolion Llanrhymni a Rhymni wedi'u cydgysylltu yn Ysgol Uwchradd Eastern, mae'r cysylltiadau trafndiaeth yn gyfyngedig iawn rhwng Llanrhymni a Phontpennau a Phentref Llaneirwg, a byddai'r gwrthgynnig yn symud Llanrhymni i Ogledd Caerdydd. Mae Rheol Pump yn Atodlen Dau y Ddeddf yn pennu nifer o ffactorau y caiff y Comisiwn eu hystyried. Mae unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri yn ffactor penodol y gellir ei ystyried ac, fel y cyfryw, nid wyf yn cefnogi'r gwrthgynnig hwn gan ei fod yn groes i Reol Pump Atodlen Dau.

Mae gwrthgynigion eraill wedi cael eu cyflwyno. Credaf fod cynnig y Ceidwadwyr yn ymwneud â ward Glan yr Afon a ward Gogledd Llandaf. Nid yw'r gwrthgynnig i symud Glan yr Afon i Ganol Caerdydd yn ystyried ystyriaethau daearyddol arbennig y ddinas. Mae Glan yr Afon wedi'i gwahanu'n gyfan gwbl oddi wrth weddill Canol Caerdydd gan Afon Taf ac, yn ogystal, mae ward Gogledd Llandaf wedi'i gwahanu oddi wrth weddill etholaeth Gorllewin Caerdydd gan Afon Taf, ac nid yw hyn, unwaith eto, yn ystyried yr ystyriaeth ddaearyddol arbennig honno. Mae'r gwrthgynnig yn symud cyfanswm o dair ward etholiadol yng Nghaerdydd o'u hetholaethau presennol, o gymharu â'r ddwy ward y mae cynigion cychwynnol y Comisiwn yn effeithio arnynt.


Mae gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnwys symud nifer sylweddol fwy o wardiau rhwng etholaethau presennol yng Nghaerdydd. Unwaith eto, nid yw'r gwrthgynnig, sy'n dychwelyd Rhymni a Llanrhymni i Dde Caerdydd ac yn ychwanegu Gabalfa a'r Mynydd Bychan at Ganol Caerdydd, yn ystyried y cysylltiadau lleol cryf sy'n bodoli. Mae gan ward Gabalfa gysylltiad agos iawn â ward Gogledd Llandaf. Yn wir, mae ystad Gabalfa yn pontio'r ddwy ward hynny. Ac nid yw cysylltiadau Gogledd Llandaf â Gabalfa, mae'n flin gennyf, gyda Llandaf, ond gyda Gabalfa. Felly, roeddwn yn byw yn Llandaf am bron dau ddegawd ac mae gan Landaf gysylltiad agos iawn â Threganna, ac yn enwedig ardal Pontcanna o Dreganna, yn hytrach na bod wedi'i chysylltu trwy gysylltiadau cymunedol â Gogledd Llandaf. Mae cylchfan Gabalfa yn dwyn ynghyd gymunedau yr Eglwys Newydd a Gabalfa. Mae gan ward y Mynydd Bychan gysylltiad agos â Llanisien a'r Eglwys Newydd, ac mae'r cymunedau hyn wedi'u cysylltu nid yn unig gan gysylltiadau trafndiaeth ond hefyd gan ddalgylchoedd ysgolion.

A nodaf fod gwrthgynigion y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn symud Rhymni a Llanrhymni i ddwy etholaeth ar wahân. Ac ar ôl crybwyll y cysylltiadau cymunedol agos iawn rhwng y ddwy etholaeth hynny, rhoddaf ymateb manylach i'r rheiny yn y cyflwyniad ysgrifenedig y byddaf yn ei gyflwyno i'r Comisiwn ar ôl heddiw.

Felly, nid wyf yn cefnogi unrhyw un o'r gwrthgynigion, a byddwn yn argymhell y dylid eu gwrthwynebu. Mae cynigion y Comisiwn ar gyfer y pedair etholaeth seneddol yng Nghaerdydd yn bodloni'r cwota etholiadol fel y'i diffinnir gan y Ddeddf, ond dyna hefyd yw'r cynigion sy'n tarfu lleiaf yn seiliedig ar y ffactorau statudol a'r ystyriaethau daearyddol arbennig yn y Ddeddf. Ac, yn olaf, diolch yn fawr am y cyfle i wneud fy nghyflwyniad heddiw.

Cadeirydd: Diolch. Comisiynwyr Cynorthwyol, unrhyw bwyntiau eglurhad?

[01:46:25]



SP: Ie. Diolch am hynny. Roeddech yn glir iawn ynglŷn â bron pob un o'r wardiau o fewn ac o amgylch eich etholaeth bresennol. Credaf y bydd rhan o'n problem yn ymwneud â rhifydddeg, yn anochel, a chlywaf yr hyn rydych yn ei ddweud am y gwrthgynigion. Ond, dim ond i gwblhau'r darlun, a oes unrhyw rannau o'ch etholaeth, er enghraifft, gellid dadlau y gallai Cyncoed fod yn rhan o Ogledd Caerdydd yn rhwydd, a gellid dadlau, rwy'n credu eich bod wedi'i wrthod, ond fe allech ddadlau y gallai'r Mynydd Bychan gael ei chynnwys yng Nghanol Caerdydd. Nid wyf yn argymhell y rhain fel opsiynau, ond mae'n bosibl, yn anochel, y byddwn yn wynebu rhifydddeg anodd yn rhywle o ystyried nifer y cynrychiolaethau a dderbyniwyd – nid cymaint ynglŷn â Chanol Caerdydd ond am rannau eraill o Gaerdydd – sy'n amlygu amherffeithrwydd, amherffeithrwydd difrifol, o safbwynt lleol. Felly, a oes unrhyw fath o hyblygrwydd, ydych chi'n credu, yn y dadansoddiad a amlinelloch?

JS: Wel, yn gyntaf, byddwn yn dweud yn gyffredinol, credaf fod y Comisiwn wedi gwneud gwaith da iawn yn ei gynigion cychwynnol o ran y pedair etholaeth a chadw pethau'n gyflawn cyn belled ag y bo'n bosibl. Nid ydynt, wyddoch chi, mae maint y wardiau'n anodd eu trin.

O ran y pwynt ynglŷn â Chyncoed, byddwn yn dychwelyd i'r pwynt a wnes i yn fy nghyflwyniad am gymuned y Rhath sydd, i bob pwrpas, yn cynnwys Pen-y-lan, Plasnewydd a Chyncoed, a'i gwahanu i Ogledd Caerdydd. Nid wyf yn credu y byddai hynny'n gweithio oherwydd y cysylltiadau cymunedol agos hynny.

O ran mater y Mynydd Bychan, dychwelaf i'r hyn a ddywedais, sef bod y Mynydd Bychan yn sicr yn rhan o gymuned Llanisien a'r Eglwys Newydd, yn enwedig felly oherwydd dalgylchoedd ysgolion yw Llanisien a'r Eglwys Newydd, felly nid wyf yn credu y byddai eu gwahanu a chreu rhyw fath o hollt rhyngddynt yn gweithio, a byddai'n effeithio ar gysylltiadau cymunedol. Felly, nid wyf yn eiddigeddus o dasg y Comisiwn, ond o ran pedair etholaeth Caerdydd a dwysedd y boblogaeth rydych yn gweithio gyda hi, credaf fod y cynigion presennol yn gynigion da iawn ac rwyf yn eu cefnogi. Diolch.


SP: Diolch.

JA: Diolch.

Cadeirydd: Andrew?

AC: A wnewch chi ymhelaethu ar y rhesymau pam y bydd Afon Taf yn gymaint o rwystr, pe byddai Glan yr Afon yn cael ei throsglwyddo?

JS: Wel, mae'n ffactor daearyddol naturiol ac yn un y mae'r Comisiwn wedi'i ystyried, ac mae Comisiynau blaenorol wedi'i ystyried, ac mae Glan yr Afon yn sicr yn rhan o gymuned Gorllewin Caerdydd. Gwrandewais ar gyflwyniadau cynharach ynglŷn â'r craidd trefol hwn, fe'i disgrifiwyd fel Glan yr Afon a Cathays, rwy'n credu. Ond mae'r afon yn darparu llinell glir iawn a llinell amlwg rhwng y ddwy gymuned, ac mae'r llinell reilffordd yn gwneud hynny i'r de, mae'r A48 yn gwneud hynny i'r gogledd. Ac, wyddoch chi, nid oes cysylltiad cymunedol rhwng Glan yr Afon ac etholaethau ar ochr arall Afon Taf. Mae cysylltiad cymunedol agos iawn rhwng Glan yr Afon a'r wardiau cyffiniol ar ochr orllewinol Afon Taf.



AC: Diolch.

[01:49:47]

JS: Diolch.

Cadeirydd: Diolch. Oes gennym...? Na? A oes unrhyw bwyntiau eglurhad gan...? Na?

Ga'i ofyn i chi gyflwyno'ch hun eto ar gyfer y recordiad? Diolch.

PR: Pete Roberts, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Fe ddywedoch ychydig funudau yn ôl bod Afon Taf yn ffactor daearyddol naturiol. Nodwyd eisoes heddiw nad oes cysylltiad ffisegol, heblaw am fynd islaw'r marc penllanw rhwng wardiau Trowbridge a'r Sblot yng nghynigion y Comisiwn. Felly, sut byddech yn cysoni'r anghysondeb hwnnw, o ystyried y crybwyllir yn benodol y dylai rhannau datgysylltiedig gael eu hosgoi? Sut byddech yn cysoni hynny â'ch cynigion, nad ydynt yn sôn am hynny mewn gwirionedd? Oherwydd maen nhw'n cysylltu Llanrhyddni a Rhyddni â'i gilydd mewn ward Canol Caerdydd ac yn cadw'r anghysondeb hwnnw.

JS: Diolch am y cwestiwn. Nid yw sefyllfa Trowbridge yn ddelfrydol, derbyniaf hynny. Ond nid oes datrysiad gwell sy'n bodloni'r holl feini prawf yn Rheol Pump Atodlen Dau. Mae mor syml â hynny. Felly, wyddoch chi, fe allwn geisio cael perffeithrwydd, ond ni fyddwn yn ei gyflawni. Ac mae'n ymwneud â chyflawni cymaint o'r perffeithrwydd hynny ag y gallwch. Fel y dywedaf, wyddoch chi, nid yw'n ddelfrydol, ond hyd y gwela' i, nid oes datrysiad gwell sy'n bodloni'r holl feini prawf yn y statud.

Cadeirydd: Ie. Unrhyw gwestiynau eraill? Na? Diolch, Jo.

JS: Diolch yn fawr iawn.

SP: Diolch.

AC: Diolch.


Cadeirydd: A wnewch chi roi eiliad i mi? Rwy'n mynd i wirio pwy arall sydd yma ac... rwy'n mynd i ailwirio o ran pwy sydd yma.

Iawn, ga'i wahodd ein cyfrannwr nesaf, sef Chris Evans, yr Aelod Seneddol dros Islwyn? Chris, mae gennych 10 munud. Pan fyddwch yn cyrraedd wyth munud, bydd fy nghydweithiwr yn y cefn yn rhoi rhybudd dwy funud i chi. Pan fyddwch yn cyrraedd 10 munud, fe ddywedaf wrthyfch fod gennych 30 eiliad i gloi.

CEv: Dydw i ddim yn credu y byddaf yn cymryd mor hir â hynny.

Cadeirydd: [mae'n chwerthin] Iawn, ymlaen â chi.

CEv: Fy enw i yw Christopher Evans. Fi yw'r Aelod Seneddol dros Islwyn, a hynny ers 2010. Rwy'n siarad heddiw o blaid cynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau, a



fyddai'n gweld Islwyn yn aros yn gyflawn i raddau helaeth a wardiau eraill o Fwrdeistref Sirol Caerffili yn cael eu hychwanegu.

[01:53:00]


Mae'r cynigion yn cydnabod y cysylltiadau daearyddol o fewn ein cwm ac wedi cael cefnogaeth unfrydol o fewn Plaid Lafur etholaeth Islwyn. Byddai ychwanegu Ystrad Mynach, St Catwg, Llanbradach a Hengoed at Islwyn yn briodol o ystyried y cymunedau a rennir yn yr ardal. Mae Hengoed a Maesycymer wedi'u cysylltu gan y draphont sy'n llifo i Ystrad Mynach a Llanbradach, tra bod St Catwg yn ffinio â Phengam. Felly, mae'r cymunedau hyn yn ychwanegiad naturiol at etholaeth Islwyn. Mae llawer o bobl o'r wardiau newydd eisoes yn debygol o ymweld ag Islwyn yn rheolaidd o ganlyniad i'r cyfleusterau siopa yng nghanol tref y Coed-duon a bydd ganddynt gysylltiadau teulu a ffrindiau yno hefyd. Mae cysylltiadau trafndiaeth cryf rhwng yr holl gymunedau hefyd, ac mae llawer o bobl o ardal Islwyn eisoes yn defnyddio'r llinell reilffordd yn Ystrad Mynach a Hengoed i ymweld â Chaerdydd. Mae llwybr bws 151 yn cysylltu'r etholaeth o Risga i'r Coed-duon, gan fynd trwy Abercarn, Crosskeys a Threcelyn.

Mae gwrthgynnig wedi cael ei awgrymu a fyddai'n diwygio etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili, gan ei chynnwys yn rhan o sedd Islwyn yn hytrach na thref Caerffili. Byddai hyn yn golygu cymryd y Coed-duon, Cefn Fforest, Maesycwmer a Phengam o Islwyn gan greu sedd Caerffili a Gorllewin Casnewydd Trecelyn o weddill etholaeth bresennol Islwyn. Nid yw rhannu Trecelyn o'r Coed-duon a Phontllan-fraith yn gwneud synnwyr. Mae'r A472 yn mynd o Drecelyn trwy Bontllan-fraith i Ystrad, gan ddangos y cysylltiadau clir rhwng yr ardal. Nid oes cysylltiad, yn y pen draw, rhwng Trecelyn a Chasnewydd a allai gymharu â'r cysylltiadau o fewn ffiniau presennol Islwyn a gynigir gan yr arolwg. O ran trafndiaeth, nid oes cysylltiad trên rhwng Islwyn a Chasnewydd. Mae ardal Pontllan-fraith, Trecelyn a'r Coed-duon wedi'i chysylltu'n annatod gyda theuluoedd a chymunedau a rennir. Mae'n dymor y Chwe Gwlad ar hyn o bryd, pan fydd y Coed-duon a Threcelyn yn chwarae yn erbyn ei gilydd, ac ystyrir hyn yn aml yn ornest leol.

Mae dalgylchoedd ysgolion hefyd yn taflu goleuni ar resymeg glir cynigion yr arolwg ffiniau ar gyfer etholaeth Islwyn. Fel y mae Islwyn ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ysgol gynradd yn Islwyn yn bwydo i ysgolion uwchradd y tu allan i'r etholaeth. Mae'r dalgylch ar gyfer Ysgol Uwchradd newydd Islwyn wedi'i leoli yn Oakdale ac mae'n cynnwys ysgolion o Bontllan-fraith. Mae'r holl ysgolion uwchradd, y Coed-duon, Ysgol Uwchradd Islwyn, Trecelyn, Risga ac Ysgol Cwm Rhymni i gyd yn bwydo i un coleg addysg bellach, sef Coleg Gwent, sydd unwaith eto wedi'i leoli yn etholaeth Islwyn yn Crosskeys.

Yn hanesyddol, roedd wardiau y Coed-duon, Cefn Fforest a Phengam yn rhan o hen Gyngor Bwrdeistref Islwyn. Mae gan y tair ward hyn hunaniaeth unigryw Islwyn a phrin yw eu cysylltiad â Chaerffili. Mae'n sedd hanesyddol a gynrychiolwyd yn flaenorol gan Neil Kinnock, cyn arweinydd y blaid, ac mae ganddi hunaniaeth etholaeth go iawn. Ac fel y dywedais, mae cefnogaeth helaeth i'r cynigion hyn yn yr etholaeth. Diolch.

Cadeirydd: Diolch. Comisiynwyr Cynorthwyol, unrhyw bwyntiau eglurhad? Unrhyw beth?



CE: Wedi gwneud job dda. [chwerthin] Fe allwn i fod wedi dweud hynny'n syml, oni allwn, mewn un frawddeg?

[01:56:12]

Cadeirydd: Er mwyn egluro, doedd gan hyn ddim byd i'w wneud â nhw.

CEv: [mae'n chwerthin]

Cadeirydd: Y comisiynwyr sy'n gyfrifol mewn gwirionedd, maen nhw'n annibynnol. [mae'n chwerthin]

CEv: Mae'r Comisiwn wedi gwneud job dda, felly.

Cadeirydd: Fe gymera i hynny. Fel ysgrifennydd, fe gymera i hynny. Dyna ni. Fe gymera i hynny ar ran y tîm.

AC: Fe gymerwn ni hynny.

Cadeirydd: [mae'n chwerthin] A oes unrhyw bwyntiau eglurhad gan y gynulleidfa? Os na, diolch-.

CEv: Diolch, diolch yn fawr.


Cadeirydd: Diolch am eich amser, Chris.

Ga'i wahodd ein cyfrannwr nesaf, Nick Thomas-Symonds, yr Aelod Seneddol dros Dorfaen?

NTS: Wel, diolch yn fawr am y cyfle i roi tystiolaeth ac, yn wir, am ganiatáu i mi siarad ychydig yn gynt y prynhawn 'ma, rwy'n gwerthfawrogi'n fawr. Fel y dywedwch, fy enw i yw Nick Thomas-Symonds a fi yw'r Aelod Seneddol dros Dorfaen. Rwyf yma i siarad o blaid cynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau. Rwy'n llwyr gefnogi'r cynnig hwn ar gyfer etholaeth seneddol Torfaen sy'n cynnwys 100% o'r sedd bresennol, yn ogystal â'r wardiau gweddilliol hynny sydd o fewn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar hyn o bryd ond yn etholaeth seneddol Mynwy. Nawr, mae fy marn ynglŷn â hyn yn cael ei rhannu gan Blaid Lafur Cymru hefyd a Phlaid Lafur Etholaeth Torfaen ac, yn wir, fe'i cefnogir gan gydweithwyr llywodraeth leol yn Nhorfaen hefyd. Amlinellaf pam yr wyf yn credu hynny gan ddefnyddio'r meini prawf y mae'r Comisiwn Ffiniau wedi'u gosod ar gyfer ei ystyriaethau.

Yn gyntaf, ystyriaethau daearyddol arbennig. Mae daearyddiaeth ffisegol yn cefnogi'r cynnig hwn gan fod Afon Lwyd yn rhedeg trwy'r etholaeth o'i tharddle i'r gogledd o Flaenafon, i lawr i Gwibrân cyn ymuno ag Afon Wysg.

O ran ffiniau llywodraeth leol, a chredaf fod hyn yn ffactor cwbl allweddol o'm safbwynt i, mae'r cynnig presennol yn cywiro'r anghysondeb a ddisgrifiwyd gennyf oherwydd ei fod yn rhoi terfyn ar y sefyllfa lle mae wardiau o fewn ardal awdurdod lleol Torfaen o fewn etholaeth seneddol Mynwy. Ac fe allaf gadarnhau, fel yr Aelod Seneddol lleol ers mis Mai 2015, bod y sefyllfa bresennol wedi achosi dryswch yn



aml, gan fod pobl yn cysylltu â'm swyddfa ynglŷn â materion polisi a gwaith achos ac yna'n gorfod cael eu hailgyfeirio at yr Aelod Seneddol dros Fynwy. Yn fy marn i, mae'n gwneud synnwyr i'r awdurdod lleol a'r etholaeth seneddol fod yn gydffiniol o ran y meini prawf a osodwyd ar gyfer y Comisiwn Ffiniau, ond hefyd at ddibenion ehangach democratiaeth ac eglurder bod yr unedau gweinyddol yr un fath.

[01:59:23]

Ffiniau'r etholaethau presennol. Wel, mae'r cynigion yn cadw'r etholaeth bresennol yn gyflawn. Mae'n etholaeth hanesyddol, ac er y cafodd ei chreu gyda'i henw presennol ym 1983, roedd yn bodoli gyda'r un ffiniau bron yn union ar adeg diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf gyda'i henw blaenorol Pont-y-pŵl, ac mae parhau â'r etholaeth honno, yr hunaniaeth honno, yn bwysig iawn.

Ac mae hynny'n fy arwain at y pwynt ynglŷn â chysylltiadau lleol. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at bwysigrwydd sicrhau bod yr awdurdod lleol a'r etholaeth seneddol yn gydffiniol, ac mae hynny'n adlewyrchu cysylltiadau hanesyddol dwfn iawn sy'n ddiwylliannol ac yn economaidd-gymdeithasol.

Ga'i ddelio hefyd â gwrthgynnig i rannu etholaeth seneddol Torfaen? A bod yn onest, o ystyried y meini prawf a ddefnyddiwyd gan y Comisiwn Ffiniau i edrych ar hyn, ni allaf weld sut mae rhannu etholaeth seneddol Torfaen yn gyson o gwbl â'r meini prawf hyn. Yn wir, yn fy marn i, byddai'n niweidiol i'r meini prawf hyn i rannu a gwahanu etholaeth seneddol Torfaen.

Felly, cefnogaf gynigion cychwynol y Comisiwn Ffiniau yn gryf. Rwy'n ddiolchgar iawn am y gwaith a'r gwaith parhaus sy'n cael ei wneud ac rwyf ar gael i ateb unrhyw gwestiynau, wrth gwrs.

Cadeirydd: Dyna ni. Unrhyw bwyntiau eglurhad gan y gynulleidfa? Na? Diolch am eich amser.


NTS: Diolch yn fawr.

Cadeirydd: Diolch. Iawn. Gadewch i mi....

Rwy'n mynd i newid y drefn ychydig gan fod rhai o'n siaradwyr yma yn barod, cyfranwyr yma yn barod. Felly, credaf ei bod yn werth chweil, gan fod y tywydd yn gwaethygu [mae'n chwerthin], i alw, i'ch galw chi cyn gynted â phosibl. Cyn i mi eich gwahodd i fyny, ar gyfer y set newydd o siaradwyr, mae slot siarad 10 munud wedi cael ei neilltuo i bawb. Pan fyddwch yn cyrraedd wyth munud, byddwch yn cael rhybudd dwy funud gan fy nghydweithiwr sy'n eistedd y tu ôl i chi. Bydd yn dangos arwydd sy'n dweud wrthyfch fod gennych ddwy funud. Pan fyddwch yn cyrraedd 10 munud, byddaf yn torri ar eich traws a bydd gennych 30 eiliad i gloi cyn i mi ofyn i chi stopio siarad. Arhoswch wrth y ddarllenfa ar ôl i chi orffen eich cyfraniadau, os gwelwch yn dda, i alluogi'r Comisiynwyr Cynorthwyol ac aelodau o'r gynulleidfa i ofyn cwestiynau eglurhad. Felly, os ga'i wahodd ein siaradwr cyntaf, John Child? Diolch.


[02:02:51]

JC: Noswaith dda, bawb. Fy enw i yw John Child ac ni fyddaf yn siarad am wyth munud, yn sicr. [chwerthin] Fe geisiaf wneud hyn mor fyr â phosibl. Rydw i wedi byw yng



Nghaerffili am y 75 mlynedd diwethaf, sef fy oes gyfan, fwy neu lai. Mae Caerffili'n agos iawn i'm calon. Roedd fy rhieni, roedd fy nhad yn ddaeargwyr, roeddem yn ymwneud llawer â'r clwb golff, yn ymwneud llawer â'r Llang Brydeinig, mae fy ngwraig yn aelod o'r Groes Goch. Rydym yn ymwneud llawer â chymuned Caerffili, yn enwedig yr eglwys, Eglwys St Martin. Rwyf wedi edrych ar y cynigion ac rwy'n eu cefnogi'n bendant. Credaf fod Caerffili, mae'n drist dweud bod y rhan fwyaf o'r, Caerffili yw prifddinas ein gwlad a chredaf fod y rhan fwyaf o'r cymorth ariannol sydd wedi dod i Gaerffili wedi cael ei wario yng ngogledd Caerffili o ran Bargoed ac ardaloedd eraill nad ydynt wedi cyfrannu at, Gastell Caerffili, y dwristiaeth yng Nghaerffili ei hun. Fe weithiais yng Nghasnewydd am bump, o leiaf chwe blynedd. Cefais brentisiaeth, rwy'n gyfrifydd siartredig, cefais brentisiaeth yng Nghasnewydd am bum mlynedd, llwyddais yn fy arholiadau, arhosais yng Nghasnewydd. Mae'r cysylltiadau â Chasnewydd yn wych. Teithiais ar fws. Rwy'n mynd yn ôl i'r 60au cynnar pan oedd pris siwrnai bws yn dri swllt a naw ceiniog, [chwerthin] sef tua 70 ceiniog a hanner y dyddiau hyn. Mae'r cysylltiadau â Chasnewydd yn dda, rydym ni, mae'r ysbytai yng Nghasnewydd yn rhagorol. Rydym wedi cael ysbyty newydd yn Ystrad Mynach, ond credaf fod mwyafrif y cysylltiadau â'r ysbyty. Rydym yn rhan o hynny, ni allaf gofio ei henw nawr, yr ymddiriedolaeth sydd wedi'i sefydlu yng Nghasnewydd. Dim ond ambell nodyn arall fan hyn. O ran y cysylltiadau busnes, credaf ein bod ni eisiau mynd i'r ochr i Gasnewydd. Rydym yn agos iawn i Gaerdydd. Mae Caerffili yn agos iawn, iawn i Gaerdydd ac roeddwn yn meddwl efallai y byddem wedi cael ein cynnwys gyda Gogledd Caerdydd i fod yn rhan o ddinas fwy. Ond, credaf fod Casnewydd, mae Casnewydd ei hun yn ddinas a chredaf fod angen i ni gyfathrebu â Chasnewydd a bydd mwy yn digwydd o ran datblygu busnes. Felly, rwy'n cefnogi'r cynnig yn sicr. Dyna'r cyfan sydd gennyf i'w ddweud heno. Diolch yn fawr.

- Cadeirydd: Diolch, unrhyw beth gan fy Nghomisiynwyr Cynorthwyol?
- AC: Dim ond un, yn fyr. Fe ddisgrifioch yn huawdl iawn y cysylltiadau busnes a'r cysylltiadau o ran y ddau. O ran unrhyw gysylltiad diwylliannol y gallech ei deimlo trwy ddod o Gaerffili, ydych chi'n gweld cysylltiad diwylliannol?
- JC: O bosibl. Hynny yw, nid ydym yn siarad llawer o Gymraeg, yn anffodus, yng Nghaerffili na Chasnewydd. Roeddwn i'n arfer siarad Cymraeg pan oeddwn yn iau, ond rwyf wedi colli hynny i gyd, gwaetha'r modd. Mae rhai cysylltiadau diwylliannol, yn sicr. Y corau a chyfathrebu fel yna. Mae gennym gôr, Côr Caerffili. Roeddwn yn ymwneud llawer ag Eglwys Gadeiriol Casnewydd. Roeddwn yn gadeirydd codi arian yn Eglwys Gadeiriol Casnewydd, pan wnaethom godi miliwn o bunnoedd i osod to newydd ar Eglwys Gadeiriol Casnewydd. Felly, rwyf wedi ymwneud llawer â Chasnewydd fy hun. Rwyf wedi teithio i Gasnewydd llawer, roeddwn yn ymwneud llawer iawn ag Eglwys Gadeiriol Casnewydd wrth sicrhau miliwn o bunnoedd, roeddwn yn gadeirydd y pwyllgor hwnnw yno.
- AC: Na, diolch. Na, diolch.
- JC: Diolch.
- Cadeirydd: A oes unrhyw bwyntiau eglurhad gan y gynulleidfa? Na?
- SP: Na.



JC: Diolch. Diolch.

Cadeirydd: Iawn. Ga'i wahodd Steven Mayfield nesaf, os gwelwch yn dda?

[02:06:47]


Cadeirydd: Dyma ni.

SM: Diolch. Prynhawn da, bawb. Fy enw i yw Steven Mayfield. Rwyf yma i gefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad fel y'u gwelir. Yn wahanol i John, a soniodd am fyw yng Nghaerffili am y 70 mlynedd diwethaf, rwyf innau'n gymharol newydd i Gaerffili. Rwyf wedi bod yno am bedair blynedd, ond roeddwn yn ymgeisydd yn etholiad diwethaf y Senedd, felly o fewn yr etholaeth seneddol honno. Felly, roeddwn eisiau siarad am sut oeddwn i'n ei gweld fel ymgeisydd a sut oeddwn i'n gweld rhai o'r rhaniadau rhwng cymunedau yn y drefn bresennol sydd gennym, a sut y credaf y bydd y drefn newydd yn gwella pethau.

Gwelais, fel y dywedaf, gwelais pan oeddwn yn ymgyrchu, yn enwedig pan oeddem yn symud trwy Ystrad Mynach ac i fyny trwy Hengoed, byddwn yn siarad â'm hymgeiswyr cymdogol yno i wneud yn siŵr nad oeddem yn dosbarthu taflenni yn yr un ardaloedd, fod strydoedd lle'r oedd y ffin rhwng etholaeth gymdogol a'm hetholaeth i yn agos iawn, ac mae dosbarthu taflenni yn un peth, fel y gwyddoch. Pan wnaethom symud ymlaen i hysbysebu ar Facebook, roeddem yn gweld fy etholwyr i'n cael hysbysebion Facebook ac ati oddi wrth etholaethau cymdogol oherwydd ei bod bron wrth y ffin. Er ei bod yn dilyn yr afon, mae gennym bobl ar ddwy ochr yr afon, felly roedd un etholwr ar un ochr o'r afon, ac fy un i ar y llall. O ran y sefyllfa bresennol, a hefyd, dybiwn i, wel, gan fod Caerffili mewn siâp L ar ei ffurf bresennol, fe welsom fod lleoedd fel Machen a Machen Isaf yn cael eu rhannu yn y drefn bresennol.

Yn y cynnig newydd, credaf fod ffin gliriach o lawer rhwng cymunedau a rhwng etholaethau cymdogol. Felly, fel y saif ar hyn o bryd, mae bron fel petai'r bryniau a'r cwm yn ffurfio eu hunain, lle nad oes cymunedau go iawn, ac mae'r canolfannau poblog mawr, maen nhw bellach fel petaent yn marcio'r ffiniau ag ardal Caerffili, felly nid ydym yn cael rhaniad lle mae un stryd mewn un etholaeth ac un arall yn y llall. Y cysylltiadau, felly rydym bellach yn dod â Machen a Machen Isaf ynghyd, er enghraifft.

Mae'r cysylltiadau ffyrdd yn dda iawn. Fel y crybwyllais, mae Caerffili mewn siâp L ar ei ffurf bresennol. Mae gwaelod y siâp L yn mynd i lawr i Gasnewydd. Mae'r cysylltiadau ffyrdd yn dda iawn, mae'n gysylltiad ffordd naturiol yno o Gaerffili i lawr i Gasnewydd, mae'n gysylltiad ffordd sy'n cael llawer o ddefnydd ac mae'r cymunedau ar ei hyd, wyddoch chi, i gyd yn mynd i lawr, i lawr i Gasnewydd, i lawr i'r M4. Felly, mae llif naturiol i lawr y cwm i lawr tuag at Gasnewydd. Yn yr un modd, wyddoch chi, mae gennych y cysylltiad ffordd ond mae hynny'n golygu bod gennych gysylltiad bws da iawn hefyd. Mae cysylltiad bws da iawn sy'n rhedeg gwasanaeth rheolaidd ar hyd y llwybr hwnnw ac i fyny o Gasnewydd i fyny i Gaerffili, ac ati.



Felly, credaf mai dyna ble rwyf wedi gweld y prif fuddion. Yn y drefn bresennol hon, nid wyf yn credu ein bod ni o reidrwydd, yn enwedig o amgylch ardal Caerffili Bedwas, nid ydym yn rhannu'r cymunedau hynny, yr oeddwn yn teimlo ein bod yn ei wneud gyda'r ffiniau presennol. Credaf fod hyn yn well o lawer am y rhesymau yna.

[02:09:39]

Ond dyna'r cyfan yr oeddwn eisiau ei ddweud o ran ble y gwelaf y gefnogaeth. Felly, fel y dywedaf, rwy'n cefnogi'r newidiadau hyn a chredaf y byddant yn arwain at rai buddion cryf ac yn ei gwneud yn haws i'r etholwyr ddeall ble yn union y maen nhw o ran etholaethau.

Cadeirydd: Diolch. Diolch.

SM: Hapus i ateb unrhyw gwestiynau eglurhad.

Cadeirydd: Dyna ni.

SM: Gwych.


Cadeirydd: Unrhyw bwyntiau eglurhad gan y gynulleidfa? Na. Diolch.

SM: Gwych. Diolch yn fawr.

Cadeirydd: Ga'i wahodd Judith Child i'r ddarllenfa, os gwelwch yn dda? Diolch.

JudithC: Prynawn da. Mae'n bleser bod yma ac rwy'n sicr yn cefnogi Caerffili yn dod yn rhan o Ddwyrain, Gorrlewin Casnewydd. [mae'n chwerthin] Mae hynny'n ddechrau da, on'd yw? [mae'n chwerthin] Rydw i hefyd wedi byw yng Nghaerffili am 75 mlynedd ac wedi bod yn ymwneud yn frwd â llawer o elusennau. Deuthum yn ynad ym 1985, pan oeddem yn hen Forgannwg Ganol. Ac, wrth gwrs, roedd Morgannwg Ganol wedi bod yn rhan o Gwent ers cryn amser, felly byddwn wedi'i ystyried yn ddilyniant naturiol i Gaerffili fod yn rhan o Gwent, ar ôl gweld hynny'n gweithio'n llwyddiannus iawn gyda'r farnwriaeth.

Cefais fy mhenodi'n Uchel Siryf hefyd yn 2008 ac unwaith eto, wyddoch chi, roeddwn yn ymwneud yn frwd â llawer o'r siroedd ac roedd yn ymddangos yn bendant bod Caerffili yn ymwneud yn well o lawer â Chasnewydd na Chaerdydd na mynd i unrhyw le arall. Credaf fod y cysylltiadau â'r ysbyty, unwaith eto, rwyf wedi bod yn ymwneud â'r Groes Goch Brydeinig ers blynyddoedd lawer, ond dim mwyach oherwydd cawsom ein meddiannu gan Gaerdydd ac yna yng Nghaerdydd, pan ddaethom yn rhan o Gwent. Ac o ganlyniad i hynny, bûm yn aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn Ysbyty Brenhinol Gwent am nifer o flynyddoedd fel cynrychiolydd Morgannwg Ganol, unwaith eto, i geisio ymgysylltu o safbwynt sut byddai unigolyn llewg yn gweld ei rieni, neu ei fodrybedd, neu ei ewythrod yn mynd i'r ysbyty a chael eu trin, wyddoch chi, mewn ffordd ddiogel a hapus, ni allaf feddwl am y gair, mewn cyflwr pwl henaint, oherwydd pan fyddwch yn weithiwr proffesiynol sy'n aelod o fwrdd iechyd, rydych yn edrych ar bethau mewn ffordd wahanol iawn i unigolyn llewg. Wyddoch chi, byddwn yn awyddus iawn i sicrhau bod cabinetau erchwyn gwely ysbytai yn lân a bod olwynion trolïau'n lân, gan na



fyddech yn disgwyl, wyddoch chi, i'ch meddygon edrych ar bethau fel yna. Ond, rwy'n mynd ar gyfeiliorn ychydig, wyddoch chi. Ond credaf yn bendant y byddai Caerffili mewn sefyllfa well gyda Chasnewydd oherwydd, fel y dywedaf, yr ysbytai, yr ysgolion. Hynny yw, pan es i i'r ysgol yng Nghasnewydd, fe es i Ysgol Gwfaint Sant Joseff fel yr oedd y dyddiau hynny, roedd y cysylltiadau rhwng Caerffili gyda llwybr bysiau yn rhagorol. Nid oes gennym wasanaeth trên mwyach, ond fe arferai fod gennym un, flynyddoedd lawer yn ôl. Felly, credaf yn bendant y dylem ddod yn rhan o Orllewin Casnewydd. Diolch.

Cadeirydd: Diolch. Pwyntiau eglurhad?

[02:13:28]

AC: Na.

Cadeirydd: Dyna ni. Unrhyw beth gan y gynulleidfa ar gyfer pwyntiau eglurhad? Na? Diolch.

JudithC: Diolch yn fawr. Diolch.

SP: Diolch.

Cadeirydd: Dyna ni. Ga'i wahodd Clive Evans, os gwelwch yn dda, i'r ddarllenfa? Diolch.

ClEv: Prynhawn da, bawb. Fy enw i yw Clive Evans a fy nghyflwyniad i fydd y byrraf rydych wedi'i glywed heddiw, yn sicr [chwerthin]. Am dair blynedd cyntaf ein bywyd priodasol, roedden ni'n byw yn Nelson, a oedd yn bentref bach hyfryd. Dyna fu'r lle hapusaf i ni fyw am y tair blynedd y buom yno, fe fwynheuo ni ein hunain, ac rwy'n credu y dylai gael ei gysylltu'n ôl gydag Ystrad Mynach a wardiau'r cyngor â Chaerffili oherwydd eu bod yn agos iawn, iawn ac mae wastad wedi bod. Ni welaf unrhyw reswm pam y dylai fod yn symud i Islwyn.

Rydw i wedi byw yng Nghaerffili am y 54 mlynedd diwethaf ac rwy'n llwyr gymeradwyo'r hyn y mae ein, fy ffrindiau a chydweithwyr wedi'i ddweud a byddwn yn cefnogi'r cynlluniau ar gyfer y newidiadau fel y'u cynigiwyd ar gyfer Caerffili yn ymuno â Gorllewin Casnewydd. Rwy'n siwr y bydd yn fuddiol i Gaerffili ac i Orllewin Casnewydd hefyd. A dyna fi wedi gorffen.

AC: Diolch.


Cadeirydd: Dyna ni. Un eiliad, un eiliad. Unrhyw bwyntiau eglurhad? [chwerthin]

AC: Na.

Cadeirydd: Ac rwy'n tybio nad oes unrhyw rai gan y gynulleidfa? Diolch yn fawr. [chwerthin] Mae gennym ychydig funudau cyn ein siaradwr nesaf, felly os oes angen i unrhyw un gael egwyl tŷ bach, nawr yw'r amser, rwy'n credu. Ga'i wahodd bawb yn ôl am bump?

Gwryw anhysbys: Bydd David yn siarad am bump.

Cadeirydd: Bydd, am bump. Ie. Ie. Diolch.



lawn, croeso nôl. Er gwaethaf y cynlluniau gorau i geisio gwasgu pawb i mewn cyn egwyl- [anghlywadwy - 2:15:42] ydych chi'n iawn i ddechrau? Ein siaradwr nesaf yw'r Aelod Seneddol dros Fynwy, David Davies. David, ga'i eich gwahodd i fyny i'n hannerch ni? Mae gennych 10 munud.

DD: Diolch.

Cadeirydd: Pan fyddwch yn cyrraedd wyth munud, bydd fy nghydweithiwr yn rhoi arwydd i chi a bydd gennych ddwy funud ar ôl.

DD: Ga'i gymryd hwn?

[02:15:59]

Cadeirydd: Cewch. A phan fyddwch yn cyrraedd 10 munud, byddaf yn torri ar eich traws ac yn rhoi 30 eiliad i chi i gloi.


DD: Diolch. Wel, mae gennyf ychydig o newyddion i chi, fadam, a allai fod yn newyddion da neu beidio, sef bod fy swyddfa wedi methu â dod o hyd i ffordd o anfon fy nghyflwyniad trwodd ar ffurf y gallaf ei darllen. Felly, byddaf yn siarad yn fyrfyfyr i raddau, ac felly mae'n ddigon posibl y byddaf yn cymryd llai nag wyth munud.

Ond hoffwn ddweud, efallai bod hyn yn anarferol, ond rwyf yma mewn gwirionedd i gefnogi cynigion y Comisiwn Ffiniau yn llawn. Ac mae dau brif reswm dros hyn. Mae'r un cyntaf yn rhwydd, sef yr enw. Rwyf wedi cynrychioli etholaeth Mynwy fel aelod y cynulliad ers '99 tan 2007, ac fel yr Aelod Seneddol o 2005 tan nawr. Enw'r etholaeth yw etholaeth Mynwy, ond, wrth gwrs, ar hyn o bryd, mae'n rhychwantu ardal ehangach o lawer na thref Trefynwy, y Fenni, Cas-gwent, Gilwern, i'r Cymoedd, hyd yn oed i fyny i Lanelli Hill ac yna i lawr i Dorfaen, y byddaf yn sôn mwy amdano mewn eiliad.

Ond, yn amlwg, mae dwy broblem ynglŷn â hyn. Yn gyntaf, mae'n achosi dryswch. Nid yw pobl yn y Fenni, Cas-gwent, ac ati, yn deall pam maen nhw'n cael eu cynrychioli gan rywun sy'n Aelod Seneddol neu'n aelod o'r Senedd ar gyfer tref Trefynwy. Pan fyddan nhw'n cael gwybod, rwy'n synhwyro rhywfaint o bigogrwydd gan fod rhai pobl yn teimlo, wel, pam mae'r etholaeth wedi'i henwi ar ôl y dref benodol hon ac nid fy nhref i, neu unrhyw le arall? Ac felly, wyddoch chi, nid yw pigogrwydd a dryswch yn bethau, yn emosiynau, rydym eisiau eu gweld yn yr etholwyr.

Nawr, mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod i ac eraill wedi cael ein temtio i ddisgrifio ein hunain fel yr Aelod Seneddol, yr aelod o'r Senedd dros Sir Fynwy, ond, wrth gwrs, ni fyddai hynny'n wir ychwaith oherwydd er bod yr etholaeth yn rhychwantu'r rhan fwyaf o Sir Fynwy, nid yw'n rhychwantu'r cyfan ohoni. Gwelaf fod yr Aelod Seneddol dros rannau o Sir Fynwy newydd gerdded i mewn. Ond, wrth gwrs, mae'n wir ei bod yn cynnwys rhannau o Dorfaen ar hyn o bryd. Felly, mae'r sefyllfa ynglŷn â newid yr enw yn wych. Os daw'n etholaeth Sir Fynwy, bydd hynny'n golygu rhywbeth i bawb sy'n byw yn Sir Fynwy.

[02:18:03]




Ac, wrth gwrs, o dan y cynigion, a dyma'r ail ran, byddai'n etholaeth Sir Fynwy gyfan. Oherwydd dros y blynyddoedd, credaf fod dryswch wedi cael ei greu hefyd gan y ffaith y bydd etholwyr sy'n byw ym mhen Magwyr a Chil-y-coed o'r etholaeth yn ysgrifennu ataf, weithiau ynglŷn â mater awdurdod lleol, gan dybio mai fi yw'r Aelod Seneddol, neu dybio mai fi fydd yn datrys y mater oherwydd fi yw'r Aelod Seneddol dros Fynwy. Ond, wrth gwrs, nid fi fyddai'n gyfrifol, ond yr Aelod Seneddol dros Ddwyrain Casnewydd, oherwydd byddwn bob amser yn cynrychioli'r unigolyn sy'n byw, byddwn bob amser yn cymryd y cyfeiriad fel y ffactor sy'n penderfynu p'un ai derbyn yr achos ai peidio. Yn yr un modd, mae llawer o bobl sy'n ysgrifennu at Nick Thomas-Symonds, yr Aelod Seneddol dros Dorfaen, sy'n byw yn ardal Pont-hir Llanfrechfa, yn disgwyl iddo ef dderbyn eu hachosion ac yn synnu gwybod mai'r Aelod Seneddol dros Fynwy sy'n eu cynrychioli mewn gwirionedd.

Mae'n siŵr y gallem oresgyn y dryswch, dybiwn i, ac rydym i gyd yn dod i ben ac, yn ffodus, mae gan y tri ohonom berthynas weithio dda iawn a byddwn bob amser yn trosglwyddo achosion etholaeth i'r unigolyn priodol, ond credaf y byddem i gyd yn croesawu rhywfaint o eglurder. A byddai'n arwain at fantais arall hefyd, oherwydd credaf ein bod ni i gyd yn gweithio'n galed i geisio ffurfio perthnasoedd â'r bobl briodol yn ein hetholaethau, a byddai hynny'n cynnwys aelodau'r cabinet a'r uwch swyddogion arweiniol yn yr awdurdod lleol ar gyfer, chi'n gwybod, ar gyfer pob mater; ar gyfer addysg, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac yn y blaen. Ond ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ni wneud hynny gydag awdurdodau lleol gwahanol a allai fod â blaenoriaethau gwahanol mewn ardaloedd gwahanol. Byddai'n haws, yn haws o lawer, a chredaf y byddai'n galluogi cynrychiolaeth well os gall yr Aelod Seneddol ganolbwyntio ar ffurfio perthnasoedd ag un set o randdeiliaid mewn un awdurdod lleol, a chredaf y byddai hynny'n rhoi eglurder hefyd.

Felly, rwyf wedi gweld cynigion sy'n ymwneud yn benodol, yn Sir Fynwy, â rhannu'r ardal awdurdod lleol neu ledaenu'r etholaeth allan ar draws ardaloedd amrywiol. Gwrthwynebam y cynigion hynny'n llwyr. Credaf fod pobl yn teimlo cysylltiad â Sir Fynwy, y rheiny sy'n byw yno. Ac yn wir, roedd brwydr, rwy'n credu, rhyw 20 mlynedd yn ôl i sicrhau bod enw Sir Fynwy yn aros ar ryw ffurf neu'i gilydd. Felly, mewn gwirionedd, Fadam, Madam Gadeirydd, rwyf yma i ddweud fy mod yn cefnogi'r cynigion yn llawn. Credaf y byddant yn arwain at eglurder, byddant yn arwain at graffu mwy effeithiol, byddant yn plesio'r bobl sy'n byw yn yr ardal, a mynegaf yn swyddogol y ffaith y byddwn i'n bersonol yn flin iawn i gollu'r gallu i gynrychioli Torfaen, yn Llanfrechfa a Phont-hir, ond deallaf y rhesymeg wrth wraidd y cynigion y mae'r Comisiwn Ffiniau wedi'u cyflwyno ac fe'u cefnogaf yn llwyr. Ac rwy'n hapus i ateb unrhyw gwestiynau os oes rhai.

- Cadeirydd: Unrhyw bwyntiau eglurhad?
- SP: Oes, dim ond un. Cadarnhad ydyw yn fwy na chwestiwn. Mae amryw wrthgynigion wedi cael eu cyflwyno ynglŷn â Sir Fynwy. Rwy'n tybio na welwch unrhyw rinweddau ynddynt?
- DD: Mae hynny'n wir, syr. Beth oedd y cwestiwn, syr? Ydy, mae hynny'n hollol gywir. Ond credaf fod aelodau, yr Aelodau Seneddol eraill dros Dorfaen a Dwyrain Casnewydd y mae hyn yn effeithio arnynt yn cefnogi'r cynigion a gyflwynwyd gan



y Comisiwn Ffiniau, am resymau tebyg, gellid tybio. A byddwn yn sicr yn gwrthod y syniad o rannu'r awdurdod lleol a'r etholaeth mewn rhyw ffordd, ie syr.

SP: Mae hynny'n ddefnyddiol, diolch.

Cadeirydd: Diolch. A oes unrhyw bwyntiau eglurhad gan unrhyw un yn y gynulleidfa? Na? Wel, David, diolch am eich amser.

DD: Diolch yn fawr, diolch.


[02:21:44]

Cadeirydd: Wnaethoch chi ddim gadael eich waled, fel rhywun arall? [mae'n chwerthin]

DD: Sori, fe adawais fy ngorchudd wyneb.

Cadeirydd: Na, Na. [mae'n chwerthin] Fe adawodd Andrew RT Davies ei orchudd wyneb hefyd, felly... [mae'n chwerthin]. Yn amlwg, nid oedd hyn wedi'i gynllunio, ond mae wedi gweithio'n berffaith. [chwerthin] Ga'i wahodd Jessica Morden, yr Aelod Seneddol dros Ddwyrain Casnewydd, i wneud ei chyfraniad? Mae hynny'n berffaith iawn, ydy. Felly, Jessica, mae gennych 10 munud. Pan fyddwch yn cyrraedd wyth munud, bydd fy nghydweithiwr, Tom, yn rhoi rhybudd dwy funud i chi. Pan fyddwch yn cyrraedd 10 munud, byddaf yn torri ar eich traws a bydd gennych 30 eiliad i gloi.

JM: Iawn. Nid wyf yn credu y byddaf yn cyrraedd 10 munud, ond diolch yn fawr a diolch am adael i mi siarad yn gynnar. Ac fel fy nghydweithiwr, mewn gwirionedd, roeddwn am ddweud i ddechrau, Jessica Morden ydw i, fi yw'r Aelod Seneddol dros Ddwyrain Casnewydd, roeddwn eisiau dweud i ddechrau fy mod yn cefnogi cynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau ac roeddwn eisiau siarad ychydig gan ddilyn ymlaen o'm cydweithwyr ynglŷn â phen Sir Fynwy ac, yn amlwg, sedd Dwyrain Casnewydd hefyd, gyda chalon eithaf trom mewn gwirionedd oherwydd, ochr yn ochr â'r aelod cynulliad John Griffiths, rwyf wedi cynrychioli penodeion newydd am amser hir ac mae'r cynnig yn amlwg yn rhannu'r etholaeth, ac mae hynny'n anodd iawn pan fyddwch yn frwd iawn ynglŷn â'r holl gymunedau, rwy'n credu, yn yr etholaeth honno. Ond sylweddolaf y meini prawf a roddwyd i chi er mwyn cyfrifo etholaethau newydd a'r ddeddfwriaeth a roddwyd i chi i wneud i'r ffiniau weithio a'r meini prawf a roddwyd i chi weithio ynddynt ac, oherwydd hynny, cydnabyddaf fod etholaeth Dwyrain Casnewydd yn symud. Mae symud wardiau Cyngor Sir Fynwy i Sir Fynwy newydd yn rhesymegol iawn a byddai'n bodloni'r meini prawf y mae'n rhaid i chi eu dilyn o ran parchu ffiniau llywodraeth leol. A sylweddolaf fod hynny'n gwneud Sir Fynwy yn gydffiniol fel awdurdod lleol ac etholaeth, a gwelaf resymeg hynny yn sicr, a minnau wedi tyfu yn Nhorfaen, ond yn y rhan o Dorfaen a Llanfrechfa sydd yn etholaeth Sir Fynwy, sylweddolaf hefyd, wyddoch chi, newid cymunedau Llanyrafon, Croesyceiliog a Chroesycc..., yn mynd i mewn i Dorfaen i wneud Torfaen yn gydffiniol. Felly, fe allaf weld yr atyniad. Mae'n rhaid mai prin yw'r lleoedd yng Nghymru fel Sir Fynwy a Thorfaen lle y byddai'r etholwyr yn gwneud etholaeth sy'n cyd-fynd â ffurf yr awdurdod lleol. Felly, rwy'n deall hynny hefyd. A, wyddoch chi, rwy'n cydnabod bod teimladau gwleidyddol cryf ynglŷn â hyn hefyd mewn rhannau o Lan Hafren yn Nwyrain Casnewydd. Rwy'n gwybod yn amlwg nad yw hynny'n ystyriaeth i'r Comisiwn Ffiniau, ond cydnabyddaf hynny hefyd.




O ran y cynigion cychwynnol ar gyfer Dwyrain Casnewydd, gwelaf ddadleuon cryf dros y dull hwn trwy gyfuno wyth ward Dwyrain Casnewydd â chwe ward Gorllewin Casnewydd i greu etholaeth, a'ch pwynt yw cael tua 76,000 o etholwyr, sydd ym mhen uchaf yr amrediad etholiadol, rwy'n gwybod. Byddent i gyd yn wardiau o fewn ardal Cyngor Casnewydd, felly byddai'n parchu ffiniau llywodraeth leol, ffiniau wardiau.

[02:25:09]

Credaf fod hyn yn dod i'r amlwg yn y cyflwyniadau ysgrifenedig hefyd, a minnau wedi cynrychioli Dwyrain Casnewydd am nifer o flynyddoedd, rwy'n gwybod bod cysylltiadau cryf, ac mae wedi dod i'r amlwg yn rhywfaint o'r dystiolaeth rydych wedi'i chael gan y cyhoedd, rhwng cymunedau Pilgwenlli a Stow Hill a Victoria, er enghraifft, ac maen nhw, wyddoch chi, mae llawer o gysylltiadau a chysylltiadau cymunedol agos yno. Mae nifer o asiantaethau sector cyhoeddus a gwirfoddol sy'n gweithio ar draws y wardiau hynny eisoes a, wyddoch chi, rwy'n credu bod hynny wedi dod i'r amlwg yn y cyflwyniadau, ac felly hefyd faterion yn ymwneud ag amrywiaeth a chyfansoddiad y cymunedau hynny. Mae wardiau canol dinas o'r math hwnnw yn rhan o ardal Hwb Cymunedol Canolog Cyngor Casnewydd. Maen nhw hefyd yn rhan o ardal blismona ganolog Casnewydd. Mae Uwchgynllun Canol y Ddinas Cyngor Casnewydd yn cynnwys ardal Glan yr Afon Dwyrain Casnewydd a Stow Hill a Shaftsbury a'r ardaloedd hynny, a chydabyddaf fod pobl sy'n byw yn y datblygiadau newydd yn Nwyrain Casnewydd ar lannau'r afon yn gweithio, yn siopa, wyddoch chi, yn defnyddio'r cyfleusterau hamdden dros y bont droed. Mae gennym lawer o bontydd yng Nghasnewydd [mae'n chwerthin], dros y bont droed yng Ngorllewin Casnewydd, a hefyd mae llawer o bobl o Orllewin Casnewydd yn dod draw ar gyfer y rygbi, ar gyfer y bêl-droed. Wyddoch chi, mae pobl yn croesi'r ffiniau hynny, yn croesi'r afon eithaf tipyn mewn gwirionedd.

Mae'r cymunedau rwyf yn eu cynrychioli ar hyn o bryd yn defnyddio'r mosgiau ym Mhigwenlli a Stow Hill yn bennaf, a bydd llawer o bobl yng nghymunedau Pilgwenlli yn dod draw i'r mosgiau ar ddydd Gwener yn Nwyrain Casnewydd hefyd. A dyna'r math o enghreifftiau y byddwn yn eu defnyddio i esbonio'r math o ardal gyffredin sydd gennym.

Gan symud ymlaen i ward St Julian's, sydd yn Nwyrain Casnewydd ar hyn o bryd, sydd â chysylltiadau agos iawn â Chaerllion. Yn wir, symudodd i Orllewin Casnewydd sydd, mewn gwirionedd, i deithio trwy'r ddinas, rydym yn defnyddio ffordd Caerllion sy'n mynd trwy etholaeth Dwyrain Casnewydd yn hytrach na, byddwn i'n dweud, yn hytrach na'r lôn a fyddai'n mynd â chi trwy ffordd Gorllewin Casnewydd. Felly, mae cysylltiad cryf iawn yno o ran trafndiaeth. Ac mae'r ffin wastad wedi bod ychydig yn rhyfedd oherwydd, yn amlwg, mae Caerllion yn rhychwantu'r afon ac felly mae ar bob ochr i'r afon, ac mae'r Celtic Manor, er enghraifft, a chymuned Eglwys y Drindod yn ffinio'n agos iawn â Dwyrain Casnewydd. Yn wir, maen nhw'n agos iawn i ffordd brifwythiennol Chepstow Road. Felly, mae'n aml wedi bod yn eithaf rhyfedd i bobl sylweddoli eu bod nhw yng Ngorllewin Casnewydd mewn gwirionedd, ac nid yn Nwyrain Casnewydd, pan fyddant yn yr ardal honno. Ac unwaith eto, mae wardiau fel Langstone yn edrych tuag at Gasnewydd yn hytrach na Sir Fynwy, ac mae ward Langstone yn Nwyrain Casnewydd, sy'n cynnwys Gwaith Dur Llanwern, ffatri reilffordd CAF, ac ati, mae'r rheiny'n rhan bwysig o uwchgynllun y ddinas, a'r cymunedau hynny. Ac mae'r



datblygiadau newydd ar safleoedd yr hen waith dur yng Nglan Llyn, er enghraifft, yn rhan allweddol iawn o Uwchgynllun Casnewydd a thwf Casnewydd, a datblygiadau tai o'r math hwnnw.

[02:28:21]

Credaf fod y cysylltiadau trafndiaeth yn gweithio hefyd, yn enwedig i gymunedau fel Malpas ac, fel y crybwyllais, y cysylltiad rhwng Caerllion a St Julian's. Ac rwy'n credu, o ystyried y meini prawf y mae'n rhaid i chi weithio gyda nhw sef, yn amlwg, yr amrediad etholiadol statudol, sy'n anodd, wyddoch chi, rydyn ni'n cael etholaethau mwy o faint, gan ystyried cysylltiadau lleol, gan ystyried daearyddiaeth, gan ystyried awdurdodau lleol, y dymuniad a'r angen i gadw ffiniau wardiau awdurdodau lleol gymaint â phosibl, a gwneud etholaethau cydffiniol lle y bo'n bosibl, credaf fod y cynigion hyn yn gweithio. Credaf, at ei gilydd, fod y cyflwyniadau'n adlewyrchu hynny, yn sicr o ran sedd Dwyrain Casnewydd. A chredaf o ran Sir Fynwy, roedd yn ddi-ddorol gweld bod holl, bod ymagwedd drawsbleidiol yng Nghyngor Sir Fynwy a lofnodwyd gan holl arweinwyr pob un o'r grwpiau i ddweud eu bod yn credu ei bod yn gwneud synnwyr i wneud y newidiadau hynny yno, o ystyried bod rhaid i ni gael etholaethau mwy o faint ac felly bod rhaid i ni gael newidiadau ac ni allwn aros yr un fath. Ac fe'i gadawaf fan'na, os yw hynny'n iawn?

Cadeirydd: Diolch. A oes unrhyw bwyntiau eglurhad? Steven?

SP: Oes, un pwynt y credaf eich bod wedi'i grybwyll eisoes, ond mae gennych ddwy ward, neu fwy na dwy, sef Pilgwenlli yn nodedig, sydd â chymunedau ethnig lleiafrifol sylweddol. A ydynt wedi sôn wrthy ch ynglŷn â doethineb, neu fel arall, y cynigion hyn?


JM: Credaf fod rhai o'r grwpiau cymunedol wedi gweithio gyda ni, gweithio gyda'r holl, chi'n gwybod, gynrychiolwyr etholedig yn anffurfiol, oherwydd bod rhai o'r materion, er enghraifft, ym Maendy a Philgwenlli, yn debyg iawn ac felly hefyd rhai o'r cymunedau. Felly, ac mae hynny'n sicr wedi cael ei adlewyrchu, yn fy marn i.

SP: Diolch.

Cadeirydd: Diolch. A oes unrhyw bwyntiau eglurhad gan y gynulleidfa? Na? Diolch, Jessica. Diolch am eich amser.

JM: Diolch yn fawr.

Cadeirydd: Mae gennym un siaradwr olaf sydd wedi'i drefnu ar gyfer 6:20pm [mae'n chwertthin]. Awgrymaf ein bod yn cael egwyl. Os oes unrhyw un sy'n aros ar gyfer y siaradwr penodol hwnnw, cyn gynted ag y bydd hi'n cyrraedd, fe roddaf wybod i chi, a byddwn yn ailgydio yn y trafodion yn hytrach nag aros. O, iawn, wel, diolch, os ydych eisiau ei ffonio, ac os gwnewch chi dorri'r ffrwd fyw am eiliad [mae'n chwertthin], gallwn weld faint o'r gloch mae hi'n disgwyl bod yma ac fe allaf drefnu egwyl go iawn tan hynny. [chwertthin] Dyna ni.



Croeso 'nôl, mae gennym ein siaradwr olaf sydd wedi'i drefnu ar gyfer heno. Ga'i wahodd Anna McMorrان, yr Aelod Seneddol dros Ogledd Caerdydd, i'n hannerch ni?

AM:


Diolch yn fawr. Fy enw i yw Anna McMorrان, Aelod Seneddol, Aelod Seneddol Llafur Cymru dros Ogledd Caerdydd, ac rwy'n ddiolchgar iawn am gael y cyfle i siarad yma heddiw yng ngwrandawriad cyhoeddus y Comisiwn Ffiniau i Gymru. A minnau'n un o bedwar Aelod Seneddol Llafur Cymru yng Nghaerdydd, mae fy nghyflwyniad heddiw yn ymwneud â chynnig y Comisiwn ar gyfer Gogledd Caerdydd, ond byddaf hefyd yn sôn am y tair sedd gyfagos; Canol Caerdydd, Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth. Croesawaf y cynigion cychwynnol ar gyfer etholaeth Gogledd Caerdydd yn rhinwedd fy swydd fel ei Haelod Seneddol ond hefyd fel preswylwr lleol, a fyddai'n gweld Gogledd Caerdydd yn aros yn gyflawn i raddau helaeth, gyda Ffynnon Taf wedi'i hychwanegu. Croesawaf hefyd y cynigion cychwynnol ar gyfer Dinas Caerdydd, a fyddai'n cadw tair o'r pedair etholaeth yn gyflawn ac yn golygu bod dwy ward yn unig yng Nghaerdydd yn symud etholaeth.

[02:31:55]

Mae'r cynigion yn cydnabod y cysylltiadau daearyddol gyda ffin naturiol yr afon ac felly byddent yn ychwanegiad naturiol at yr etholaeth. Mae cysylltiadau, gan gynnwys cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd, rhwng Ffynnon Taf yng Ngogledd Caerdydd, sy'n gwneud y cynigion hyn yn synhwyrol iawn. Ac rwy'n gwybod bod cymuned Ffynnon Taf yn teimlo'n gysylltiedig iawn â Chaerdydd yn gymdeithasol, gyda chysylltiadau cymunedol a chysylltiadau trafndiaeth.

Hoffwn fynegi fy mhryderon ynglŷn â gwrthgynnig y Ceidwadwyr i'r ffiniau a fyddai'n gweld Gogledd Llandaf yn symud o Ogledd Caerdydd i Orllewin Caerdydd, a Trowbridge yn cael ei hychwanegu at Ogledd Caerdydd. O ystyried ffin naturiol, os wyf yn iawn, nid wyf yn iawn. Iawn. Iawn. O ystyried ffin naturiol yr afon, mae pobl Gogledd Llandaf a'r Eglwys Newydd yn teimlo'n gysylltiedig iawn fel cymunedau. Mae'r cysylltiad â gwasanaethau a thrafnidiaeth i gyd tuag at yr Eglwys Newydd, dwy ardal yr wyf wedi byw ynddynt am flynyddoedd lawer, wedi magu fy mhiant ynddynt, maen nhw'n rhannu amwynderau, ysgolion a gwasanaethau. Mewn cyferbyniad, nid oes cysylltiad naturiol rhwng Gogledd Llandaf a Llandaf ar ochr arall yr afon yng Ngorllewin Caerdydd. Er eu bod yn rhannu'r enw, nid oes cysylltiadau trafndiaeth, cysylltiadau trafndiaeth hyfyw, mae'r ffordd yn anodd iawn ac mae afon fawr, prif afon, i'w chroesi. Felly, nid oes cysylltiadau trafndiaeth addas ac mae'n anodd iawn croesi. Byddai symud Gogledd Llandaf i Orllewin Caerdydd hefyd yn tynnu llinell trwy ystad Mynachdy, sy'n gyfan gwbl o fewn Gogledd Caerdydd ar hyn o bryd. A phetai Gogledd Llandaf yn symud i Orllewin Caerdydd, byddai'n haneru, yn rhannu i lawr y canol, un o'r ystadau tai hynaf yng Nghymru, gan fod rhan ohoni yn ardal Gabalfa. Mae ward Gabalfa wedi'i chysylltu'n agos â Gogledd Llandaf, yn gymdeithasol, cysylltiadau ysgolion, cyfleusterau, amwynderau. Mae ystad Gabalfa yn pontio'r ddwy ward, mae cylchfan Gabalfa yn dwyn ynghyd gymunedau yr Eglwys Newydd a Gabalfa.

Yn yr un modd, mae gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnwys symud nifer fwy o wardiau rhwng etholaethau presennol yng Nghaerdydd. Byddai'r gwrthgynnig hwn yn gweld Gabalfa a'r Mynydd Bychan, sydd yng Ngogledd Caerdydd ar hyn o bryd, yn symud i Ganol Caerdydd ac, unwaith eto, nid yw hyn yn ystyried y cysylltiadau lleol cryf iawn sy'n bodoli yn y wardiau hyn. Mae ward y



Mynydd Bychan wedi'i chysylltu'n agos â Llanisien a'r Eglwys Newydd, ac mae'r cymunedau hyn wedi'u cysylltu nid yn unig gan drafndiaeth ond hefyd gan ddalylchoedd ysgolion a chyfleusterau cymdeithasol eraill. Mae yna, dywedir wrthyf nad oes cynnig ar gyfer Trowbridge, a wyf yn iawn?

AC: Nid Trowbridge.

AM: Nid Trow..., iawn, wn i ddim o ble ges i hynny. Diolch. Felly, hoffwn adleisio fy nghydweithiwr a'r Aelod Seneddol dros Ganol Caerdydd, wrth nodi fy mhryderon ynglŷn â'r effaith negyddol ar etholaethau sy'n cynnwys mwy o bobl ifanc, myfyrwyr, ymfudwyr a chymunedau dan anfantais. Dylai cyfartalu etholaethau gael ei seilio ar y boblogaeth oedolion gyffredinol, nid dim ond y rhai hynny ar y gofrestr etholiadol. Fel yr Aelod Seneddol dros Ogledd Caerdydd, a'm cydweithiwr fel yr Aelod Seneddol dros Ganol Caerdydd, rydym yn cynrychioli pob unigolyn yn ein hetholaeth ac nid dim ond y rhai hynny sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio. Diolch yn fawr am y cyfle i siarad heddiw.

Cadeirydd: Diolch. Unrhyw bwyntiau eglurhad? Rwy'n credu bod gan Steve gwestiwn?

[02:36:03]

SP: Un mater, mewn gwirionedd, ynglŷn â Ffynnon Taf. Hynny yw, fe grybwyllodd eich bod wedi cael cynrychiolaeth yn cefnogi ei chynnwys yn etholaeth Gogledd Caerdydd, ond rydym wedi cael cynrychiolaethau amrywiol sy'n dweud y gwrthwyneb, yn y bôn. Ydych chi'n credu bod unrhyw ddewisiadau amgen wrth ffiniau'r etholaeth bresennol? Fe glywsom gan Jo Stevens yn gynharach. Fe ofynnais gwestiwn iddi am y cysylltiad sydd gan ardal Cyncoed â Gogledd Caerdydd, o bosibl. Neu ydych chi'n credu mai'r ffiniau presennol yw'r rhai gorau yn bendant, gan gydnabod, wrth gwrs, bod rhaid i ni ystyried etholaethau presennol yn ein hystyriaethau?

AM: Ie. Mae'n flin gennyf. Pwy ydych chi?

SP: Steven Phillips ydw i. Rwy'n un o'r Comisiynwyr Cynorthwyol.

AM: Diolch yn fawr. Mae'n flin gennyf [mae'n chwerthin]. Mae'n flin gennyf am ofyn.


SP: Popeth yn iawn.

AC: Rwy'n falch y dywedoch chi hynny, doeddwn i ddim yn gwybod.

AM: [chwerthin] Ie, rwy'n credu, felly mae fy nhrafodaethau wedi bod ar lefel leol, yn siarad â phobl yn y gymuned, adnabod pobl leol, pa mor agos yw'r cysylltiad rhyngddynt yn Trowbridge, yn Trowbridge. Mae Trowbridge ym mlaen fy meddwl nawr [chwerthin]

Cadeirydd: Hitsome 02:37:19 yn aros i ddigwydd nawr.

AM: [mae'n chwerthin] Yn Ffynnon Taf. A, wyddoch chi, rwyf yno weithiau. Roeddwn yno ddeufis yn ôl mewn canolfan leol ac rwyf wedi siarad â'r Aelod Seneddol lleol, ac maen nhw'n teimlo cysylltiad cryf â Chaerdydd oherwydd cysylltiadau



trafnidiaeth, oherwydd cysylltiadau cymunedol, oherwydd amwynderau. Mae'n ymddangos yn ddull synhwyrol i, os oes angen i chi ei hymestyn, hynny yw, rwy'n hapus â Gogledd Caerdydd fel y mae, mae'n wych, ond er mwyn dod o hyd i ardal i'w hymestyn, rwy'n credu ei bod yn gweithio'n dda iawn. Mae Tongwynlais yn gweithio'n dda iawn fel rhan o Ogledd Caerdydd. Mae'r bobl yno'n teimlo'n gysylltiedig iawn, maen nhw'n rhan o'r un cwm. Mae'r afon yn ffurfio ffin naturiol yno, ac mae gweithrediad Trafnidiaeth Cymru yno hefyd. Mae'n canolbwyntio ar Gaerdydd i raddau helaeth.

SP: Iawn. Diolch.

Cadeirydd: Diolch. A oes unrhyw bwyntiau eglurhad? Rwy'n gwybod eich bod wedi egluro mai Trowbridge yw'r....

AM: Wn i ddim o ble ges i hynny. Mae'n rhyfedd.

AC: Mae'r Sblot a Trowbridge yn mynd gyda'i gilydd yn Ne Caerdydd ynghyd â Rhymni er mwyn sicrhau nad oes rhan ddatgysylltiedig. Ac yna byddai Llanrhymni yn cael ei chynnwys yng Ngogledd Caerdydd yn ein cynigion ni.

[02:38:46]

AM: Ie, ie. Felly, mae hynny'n fwy tua'r dwyrain tra ein bod ni'n sôn am Ffynnon Taf a Thongwynlais, fel y mae, yng Ngogledd Caerdydd ond Ffynnon Taf, Ffynnon Taf, mae'n ffurf naturiol iawn o'i galw'n Ogledd Caerdydd, a chredaf y byddai'r bobl yno'n ymateb yn dda iawn i hynny.

Cadeirydd: Diolch. Hoffwn gael eglurhad o un o'r pwyntiau a wnaethoch am bobl Ffynnon Taf. A fu unrhyw drafodaethau ynglŷn â'i galw'n Ogledd Caerdydd a Ffynnon Taf? Neu a fyddent yn hapus dim ond...?


AM: Nid wyf wedi cael y sgysiau hynny, ond mae hwnnw'n syniad diddorol.

Cadeirydd: Os yw'r teimlad mor gryf â hynny, wyddoch chi....

AM: Nid wyf yn credu ei fod mor gryf â hynny yno. Nid wyf yn credu, wyddoch chi, fe allech ei galw, fe allech ddechrau ei galw'n Ogledd Caerdydd a Thongwynlais a Ffynnon Taf. Fe allech ddechrau ei galw'n bob math o bethau. Credaf mai'r hyn sy'n bwysig iawn, yn sicr yng Ngogledd Caerdydd, yw bod llawer iawn o gilfachau bach. Felly, mae pobl yr Eglwys Newydd yn teimlo cysylltiad cryf â bod yn yr Eglwys Newydd. Mae pobl Llanisien yn byw yn Llanisien. Mae pobl Pontprennau yn byw ym Mhontprennau. Mae pobl Llys-faen yn teimlo'n gryf iawn mai eu pentref nhw ydyw, Llys-faen ydyw. A Gogledd Llandaf, er bod cysylltiad cryf iawn rhwng Gogledd Llandaf a'r Eglwys Newydd. Felly, credaf, yn wahanol i rai o'r ardaloedd mwy dinesig eraill, credaf fod hunaniaethau cryf ym mhob un o'r ardaloedd hynny, a byddai Ffynnon Taf yn rhan o hynny ond o fewn etholaeth Gogledd Caerdydd.

Cadeirydd: Diolch.

AM: Ydy hynny'n ateb eich cwestiwn?



Cadeirydd: Ydy, mae hynny'n iawn.

AM: Ffordd hirwyntog o ddweud-

Cadeirydd: Mae hynny'n wych. Diolch. Os nad oes unrhyw gwestiynau ar gyfer eglurhad, diolch, Anna.

AM: Diolch.


AC: Diolch.

Cadeirydd: Diolch. Ar gyfer cydweithwyr yma, Anna yw'r siaradwr olaf sydd wedi'i threfnu-

AM: Diolch.

Cadeirydd: Popeth yn iawn. Bydd y Comisiwn, y Comisiynwyr Cynorthwyol a fi, byddwn ni yma tan 7:50 rhag ofn bod rhywun yn cerdded i mewn, ond os na fyddwn yn dod yn ôl ar-lein neu'n ailddechrau, hoffem ddiolch i'n cydweithwyr am fod yma heddiw a threulio, wyddoch chi, o 8am tan 8pm gyda ni. Neu faint o'r gloch yw hi nawr? Hanner awr wedi pump? Diolch. Ac arhoswch yn ddiogel. Diolch.

[Diwedd y Trawsgrifiad 02:41:00]





**Comisiwn Ffiniau
i Gymru**

**Boundary Commission
for Wales**

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru